# Foddhad Dysgwyr







## ADRODDIAD GWEITHDAI DARPARWYR

Strategaeth Ymchil ar Gwsmeriaid - Adroddiad 6

Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru

**Cynnwys**


1. Cefndir i'r Gweithdai Boddhad 2

2. Crynodeb o'r trafodaethau 7

3. Dysgu yn y Gwaith 23

4. Addysg Bellach (AB) a Dysgu Oedolion a Chymunedol (DOCh) Achrededig 55

5. Y Chweched Dosbarth mewn Ysgolion 78

Atodiad I: Manylion Presenoldeb 100

Atodiad II: Gwerthusiad gan y Cynrychiolwyr 103

Atodiad III – Canllawiau Trafodaeth Grŵp 111

# 1. Cefndir i'r Gweithdai Boddhad

Cynhyrchodd Arolwg Cenedlaethol o Foddhad Dysgwyr yng Nghymru 2003 swm enfawr o wybodaeth ynglŷn â barn unigolion am eu profiadau o ddysgu mewn rhaglenni Dysgu yn y Gwaith (DYYG), Addysg Bellach (AB) a Dysgu Oedolion a Chymunedol (DOCh) achrededig. Yn ogystal â hyn, ymchwiliodd Arolwg Cenedlaethol o Chweched Dosbarth Ysgolion Cymru 2004 farn disgyblion Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13, a chynhyrchwyd llawer iawn o wybodaeth hefyd mewn perthynas â barn dysgwyr am ansawdd y ddarpariaeth.

Roedd ELWa yn awyddus i sicrhau bod cynnyrch yr arolygon yn cael ei ledaenu'n eang ymysg darparwyr addysg, a bod y rheiny sy'n ymwneud â chyflwyno dysg yn y llinell flaen yn cael cyfle i drafod y canlyniadau a rhannu arferion gorau. I'r perwyl hwn, trefnwyd cyfres o weithdai gyda darparwyr rhwng Chwefror ac Ebrill 2005.

## 1.1 Nodau ac Amcanion

Roedd gan y gweithdai ddau amcan allweddol:

*a. I ledaenu canfyddiadau'r arolwg*

- Esbonio diben yr ymchwil i'r boddhad a sut y gellir defnyddio'r canfyddiadau
- Adeiladu hyder yng nghanfyddiadau'r ymchwil a dealltwriaeth ohonynt

*b. I archwilio syniadau/arferion gorau*

- Galluogi'r partneriaid allweddol i gydnabod a deall defnydd posibl canfyddiadau'r ymchwil i helpu gwella safonau ansawdd yn eu gwasanaethau eu hunain
- Symbylu cynhyrchu syniadau
- Rhannu arferion gorau mewn amgylchedd lle mae cyfranogwyr yn gallu trafod eu syniadau a'u barn yn agored â'u cyfoedion

Er mwyn bodloni'r amcanion hyn, cynlluniwyd y gweithdai boddhad i fod yn sesiynau rhyngweithiol iawn a oedd yn cynnwys cyflwyno'r canfyddiadau a sesiynau grŵp i drafod themâu a bennwyd ymlaen llaw (caiff canllawiau'r

trafodaethau ar gyfer pob math o ddarparwr eu cynnwys ar ffurf Atodiad). Yn gyfan gwbl, trefnwyd pum gweithdy, a chyfyngwyd y rhain i fathau penodol o ddarparwyr addysg fel a ganlyn:

- Dysgu yn y Gwaith, Llanelwy, gogledd Cymru, 8 Chwefror,
- Y Chweched Dosbarth mewn Ysgolion, Port Talbot, de orllewin Cymru, 21 Chwefror
- Dysgu yn y Gwaith, Caerdydd, de ddwyrain Cymru, 28 Chwefror
- Y Chweched Dosbarth mewn Ysgolion, Llandudno, gogledd Cymru, 8 Mawrth
- Addysg Bellach ac Addysg Oedolion a Chymunedol, Llandrindod, canolbarth Cymru, 5 Ebrill

Yn ogystal â chynrychiolwyr darparwyr, gwahoddwyd ystod o bartïon eraill oedd â diddordeb i'r gweithdai, gan gynnwys cynrychiolwyr o Estyn, Gyrfa Cymru, Cynghorau Sgiliau Sector (CSSau), Cymdeithas Addysg y Gweithwyr (CAG) a Fforwm. Yn gyfan gwbl, mynychodd rhwng 23 a 50 o gynrychiolwyr pob gweithdy, a rhoddir manylion am y presenoldeb yn Atodiad I.

## 1.2 Fformat

Cynhaliwyd y gweithdai gan uwch gynrychiolwyr ELWa ac fe'u hwyluswyd gan NOP yn unol â chanllawiau pwnc a bennwyd ymlaen llaw. Canolbwyntiai'r gweithdai ar gynnig trosolwg o foddhad dysgwyr a gyrwyr boddhad. Cyflawnwyd hyn drwy gyflwyno canfyddiadau allweddol yr arolwg yn ystod sesiwn y bore, a oedd yn para am ryw 40 munud. Dilynwyd y cyflwyniad gan sesiwn holi ac ateb, lle'r anogwyd y cynrychiolwyr i holi a rhoi sylwadau am y canlyniadau.

Roedd gweddill y dydd wedi'i roi'n bennaf i drafod pynciau allweddol sy'n berthnasol i gynyddu boddhad a lleihau anfodlonrwydd mewn sesiynau trafod. Cafodd cynnwys y grwpiau trafod ei fireinio yn ystod y gyfres o weithdai, ond yn gyffredinol roeddent yn canolbwyntio ar:

- gwneud penderfyniadau a chyngor cyn mynediad

- marchnata
- cymorth i ddysgwyr
- gweithdrefn gwyno
- ansawdd addysgu/hyfforddiant
- rheoli dysgu
- arolygon boddhad yn y dyfodol[1]

Amrywiai cynnwys y sesiynau trafod yn ôl y math o ddarparwr, ac fe'u llywiwyd gan uwch weithredwr NOP a oedd yn gyfarwydd â chanlyniadau'r arolwg. Recordiwyd y sesiynau hyn ar dâp (wedi i'r cynrychiolwyr gytuno ar hynny) er mwyn gallu llunio adroddiad o farn y cynrychiolwyr. Elfen olaf pob dydd oedd sesiwn lawn lle'r oedd gweithredwyr NOP yn adrodd yn ôl ynghylch materion allweddol a godwyd ym mhob trafodaeth, gan ganolbwyntio ar broblemau a datrysiadau presennol. Yn ystod y sesiwn hon, cawsai'r cynrychiolwyr gyfle i godi mwy o gwestiynau cyn i uwch aelod o dîm ELWa ddod â'r diwrnod i ben.

Mae'r dyfyniadau yn yr adroddiad hwn yn adysgrif o'r sylwadau a wnaed gan gynrychiolwyr yn ystod sesiynau'r gweithdai.

## 1.3 Gwerthuso'r Gweithdai Boddhad

Gwahoddwyd yr holl gynrychiolwyr i lenwi ffurflen werthuso i roi eu barn am fformat a chynnwys y gweithdy ac i nodi unrhyw sylwadau eraill. Roedd y ffurflen werthuso hefyd yn rhoi'r cyfle i gyfranogwyr ddweud a oeddent am i ELWa gysylltu â nhw yn y dyfodol ynghylch y gweithdai â'u cynnwys. Mae Atodiad II yn cynnig crynodeb o'r ymarfer gwerthuso hwn, ac yn dangos y bodlonwyd amcanion y gweithdai o ran y:

- Teimlai mwy na naw o bob deg (93%) o'r rheiny a lenwodd ffurflenni gwerthuso eu bod yn teimlo bod ganddynt wybodaeth well am y materion a drafodwyd, ac y teimlai 89% y gallai'r canlyniadau lywio eu gwaith o ddydd i ddydd.

[1] *roedd 'arolygon boddhad yn y dyfodol' yn bennaf yn un o nodweddion yr ail weithdy Chweched Dosbarth a'r gweithdy AB/DOCh*

- Teimlai naw o bob deg (93%) o’r rheiny a lenwodd ffurflenni gwerthuso bod perthnasedd y sesiynau trafod yn dda neu’n dda iawn.

## 2. Crynodeb o'r trafodaethau

Mae'r adrannau canlynol yn rhoi cyfrif, ar ffurf crynodeb, o'r holl weithdai a gynhaliwyd i ddarparwyr. Gwahanwyd y materion a godwyd yn y lle cyntaf i'r rheiny sy'n gyffredin ar draws yr holl fathau o ddarparwyr ac, yn ail, i'r materion neu'r manylion hynny sy'n berthnasol neu'n benodol i un math o ddarparwr. Mae'r adran hon yn grynodeb, ac archwilir y brif drafodaeth a'r manylion yn yr adrannau sy'n dilyn. Ceir adran wahanol ar gyfer pob math o ddarpariaeth (Dysgu yn y Gwaith, Addysg Bellach, Addysg Oedolion a Chymunedol a Chweched Dosbarthiadau Ysgolion).

### 2.1 Themâu allweddol ar draws yr holl weithdai boddhad

| Mater/Maes Polisi | Sylwadau Manwl |
|---|---|
| **Parch cydradd/canfyddiadau a chyngor cyn mynediad:** Trafododd mwyafrif y gweithdai'r ffaith bod problem â pharch cydradd. Teimlwyd bod gan lawer o bobl ifanc a rhieni (dylanwadwyr eraill) yr argraff mai'r llwybr academaidd oedd y gorau i bawb a bod y llwybr galwedigaethol yn ail ddewis gwael. Teimlai llawer o ddarparwyr yn gyffredinol (ar draws yr holl sectorau) y gallai cyngor yn ystod y cyfnod cyn-fynediad fod yn fwy diduedd. | Tra y teimlai rhai darparwyr bod ysgolion yn mynd i'r afael â chamsyniadau ynghylch hyfforddiant galwedigaethol a bod yr ystod lawn o ddewisiadau (yn academaidd ac yn alwedigaethol) yn cael eu cyflwyno, roedd darparwyr eraill yn feirniadol o ysgolion am gyfyngu mynediad i'r disgyblion mwyaf galluog a chynnig cyngor pleidiol. Roedd darparwyr AB yn gweld bod rhieni, athrawon ac ymgynghorwyr eraill yn rhoi argraffiadau negyddol o golegau i ddisgyblion ysgol.<br><br>Cytunai'r holl ddarparwyr bod rhieni'n chwarae rôl hanfodol o ran dylanwadu ar benderfyniadau dysgwyr ifanc ynglŷn â'u dyfodol; fodd bynnag, yn aml roedd gan rieni ddiffyg gwybodaeth 'gyflawn' am ddewisiadau disgyblion sy'n hŷn nag 16 oed. Roeddent yn dymuno cael y 'gorau' i'w plentyn a, lle'r oedd gallu'r plentyn yn caniatáu hynny, y llwybr academaidd drwy Chweched Dosbarth yr Ysgol oedd hyn fel arfer. Felly, teimlai'r holl ddarparwyr ei fod yn hanfodol cadw rhieni'n ganolog fel rhan o unrhyw ymgais i ymdrin â'r drafodaeth ynghylch parch cydradd. Roedd darparwyr DYYG ac AB am gael mynediad at ddisgyblion a rhieni ym Mlwyddyn 9 neu Flwyddyn 10, ac i gael mynediad at ddisgyblion ar bob lefel gallu, yn hytrach na dim ond at y rheiny a oedd yn draddodiadol yn cael eu sianelu tuag at hyfforddiant galwedigaethol.<br><br>Canolbwyntiai datrysiadau'r pwnc hwn o amgylch cynigion yr Agenda 14-19, lle'r oedd mwy o |

| | |
|---|---|
| | bwyslais ar gynnig cyngor i ddisgyblion am yr holl ddewisiadau, yn rhai galwedigaethol ac academaidd. Roedd rhai grwpiau o'r farn bod rhai ysgolion eisoes wedi croesawu'r cysyniad hwn ond bod eraill yn llusgo'u traed, ac roedd darparwyr mewn AB a DYYG yn awyddus i weld ymdrin â'r anghydbwysedd hwn. Roedd dymuniad i ELWa fod yn bleidiwr i'r gofyniad hwn trwy weithio ochr yn ochr ag ysgolion a Gyrfa Cymru. Roedd pobl hefyd o'r farn bod gan ELWa rôl i'w chwarae mewn marchnata dewisiadau ôl-16 i ddisgyblion ysgol ac ymdrin â'r argraffiadau negyddol ynghylch AB/DYYG. I ddarparwyr AB, byddai hyn yn golygu hwyluso mynediad at yr ysgolion i golegau allu cael mynediad at ddisgyblion o bob gallu. Ystyriwyd y byddai ELWa hefyd, o bosibl, yn gallu trefnu digwyddiadau '*Milkround*' i golegau er mwyn eu cynorthwyo i gael mynediad.<br><br>Fodd bynnag, cytunai'r holl ddarparwyr nad oedd y system ariannu addysg i bobl ifainc sy'n hŷn nag 16, yn helpu. Yn aml, roedd darparwyr gwahanol yn cystadlu am yr un disgyblion er mwyn denu a chadw eu cyllid yn y dyfodol. Hyd nes yr eid i'r afael â'r mater sylfaenol hwn, byddai cystadleuaeth yn hytrach na chydweithrediad rhwng darparwyr yn parhau'n nodwedd. |

| Mater/Maes Polisi | Sylwadau Manwl |
|---|---|
| **Ariannu**:<br>Cafwyd sylwadau am faterion ariannu ar raddfa fawr, ac roeddent yn ganolog i lawer o'r trafodaethau, naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol. Dyma brif feysydd y drafodaeth ar draws yr holl ddarparwyr:<br><br>• Cydnabyddiaeth a gwobrwyo a'r ffordd yr oedd hyn yn effeithio ar yr ansawdd a'r gallu i gynnig cefnogaeth ehangach yn ogystal ag addysg.<br>• Roedd bron yr holl drafod ynghylch datblygiad staff yn canolbwyntio ar yr angen am fwy o gyllid i alluogi'r holl athrawon/tiwtoriaid i ddatblygu eu rôl.<br><br>Yna, byddai gan bob sector faterion penodol sy'n gysylltiedig â'u | *Ar gyfer DYYG roedd materion ariannu eraill yn cynnwys:*<br>• Ariannu mwy hyblyg: Nid oedd model y Cyfnod Mwyaf ar gyfer Ariannu (MDF) yn gweithio lle'r oedd gan ddysgwyr anghenion dysgu penodol na ellid eu cyflawni o roi cyfyngiad amser arnynt. Roedd galw am esgusodiad arbennig.<br>• Mwy o arian ar gyfer profi mentrau arfer gorau yn narpariaeth DYYG.<br>• Cafwyd problem gyda denu staff o ansawdd da oherwydd y cyfraddau tâl a natur llawn straen y swydd. Roedd hwn yn fater penodol mewn rhai diwydiannau/sectorau lle'r oedd natur y gwaith yn galw am batrymau sifft (e.e. Gofal) neu lle gallai staff arfaethedig ennill mwy drwy wneud y swydd eu hunain (e.e. Plymio). Ymysg yr atebion posibl a gynigiwyd oedd cytundebau am gyfnod hwy, adolygu/cymharu cyflogau ar raddfa genedlaethol, datblygiad proffesiynol parhaus, cynlluniau mentora, lleihau gweinyddiaeth/biwrocratiaeth.<br>• Roedd rhai darparwyr o'r farn y dylid talu mwy o arian bob wythnos i hyfforddeion wrth iddynt hyfforddi.<br><br>*Ar gyfer Addysg Bellach roedd materion ariannu yn cynnwys:*<br>• Ystyrid bod gwella ansawdd yr addysgu yn rhywbeth a ddibynnai ar barhau i gynnig cyfleoedd i'r holl staff ddatblygu, p'un ai'n staff amser llawn neu'n staff rhan amser. Roedd llawer yn cael ei wneud yn y maes hwn, er enghraifft, nodi 'tiwtoriaid arbennig' a fyddai'n rhannu arfer gorau â'u cyfoedion, a ffurfio cynlluniau dysgu unigol. Fodd bynnag, roedd rhoi mynediad i staff rhan amser at sesiynau datblygu yn broblem barhaus.<br>• Teimlai darparwyr bod trefnu mentoriaid i'r staff yn ffordd dda o wella eu harddull addysgu, ond roedd problemau ynghylch eu gallu i ariannu'r lefel hwn o gefnogaeth i diwtoriaid.<br><br>*Ar gyfer Addysg Oedolion a Chymunedol roedd materion ariannu yn cynnwys:*<br>• Awydd i weld mwy o gyfraniad gan ELWa o ran ymchwilio'r galw am gyrsiau mewn ardaloedd lleol. Roedd hyn yn cymryd llawer o amser ac roedd yn ddrud i ddarparwyr a |

| | |
|---|---|
| contractau/cyllidebau/ cyfundrefnau ariannu eu hunain (gweler y sylwadau ar y dde). | oedd eisoes yn gweithredu o fewn cyllidebau cyfyng, ac ystyried y cyfyngiadau ariannol o barhau i gynnig rhai cyrsiau mewn ardaloedd gwledig.<br><br>*Ar gyfer y Chweched Dosbarth mewn Ysgolion roedd materion ariannu yn cynnwys:*<br>• Cyfeiriodd cynrychiolwyr y Chweched Dosbarth mewn Ysgolion at y ffaith y neilltuid cyllideb i golegau AB hysbysebu a hyrwyddo, ac nad oeddent yn teimlo y gallent gystadlu â'r lefel hwn o farchnata.<br>• Dywedwyd bod angen mynd i'r afael â'r strwythurau cyllido ar gyfer addysg ôl-16, er mwyn sicrhau nad oedd darparwyr gwahanol yn cystadlu am yr un myfyrwyr.<br>• Cafwyd cynnydd yn yr amser a oedd ar gael i staff ddelio â chymorth un-i-un. Roedd ychydig o wrthwynebiad i symudiadau mewn ysgolion tuag at drosglwyddo elfennau bugeiliol y rôl addysgu i arbenigwyr fel rhan o'r taliadau Cyfrifoldeb Addysgu a Dysgu (CAD) newydd. Teimlai llawer bod elfen fugeiliol yn annatod i rôl pob athro, gan yn aml ei bod yn well gan fyfyrwyr siarad â rhywun a oedd yn eu hadnabod. Ymddangosai mai goblygiad y taliadau CAD oedd y byddid yn cael gwared ar elfen fugeiliol addysgu ac roedd rhai'n gweld hyn yn gam i'r cyfeiriad anghywir. |

| Mater/Maes Polisi | Sylwadau Manwl |
|---|---|
| **Cydweithio:** Mae cydweithio yn nodwedd allweddol o'r Agenda 14-19 a strategaethau ELWa, a'i nod i gadw'r dysgwr yn ganolog o ran y dewisiadau sydd ar gael iddo, tra'n lleihau'r dyblygiad lle mae'n bodoli'n lleol. | Adroddodd y darparwyr ar draws yr holl weithdai am enghreifftiau o gydweithio, o ran hanesion o lwyddiant a phrofiadau llai cadarnhaol fel ei gilydd. Teimlai rhai cynrychiolwyr Chweched Dosbarthiadau'r Ysgolion y dylent, efallai, ganolbwyntio ar gymwysterau academaidd yn hytrach nag amrywiaethu. Fodd bynnag, teimlai darparwyr ym meysydd AB a DYYG yn rhwystredig oherwydd yr ymagwedd hon, gan mai'r hyn a olygai mewn gwirionedd oedd rhoi llai o fyfyrwyr iddynt hwythau a oedd yn alluog yn academaidd. Mewn rhai meysydd roedd rhwystrau ymarferol i gydweithio, a oedd yn fwyaf nodedig mewn ardaloedd gwledig. Fodd bynnag, roedd darparwyr yn awyddus i weld arferion gorau yn cael eu rhannu o ran datrysiadau arloesol, fel dysgu o bell, fideo-gynadledda, ac ati. |
| **Cymraeg**:<br>Trafodwyd y cyflenwad a'r gofyn am ddarpariaeth yn yr iaith Gymraeg a'i godi fel mater i bob math o ddarparwr. | Ystyriwyd bod hon yn her benodol i fyfyrwyr a oedd am gymryd llwybr galwedigaethol, lle mai dim ond nifer cyfyngedig o gyrsiau oedd ar gael a / neu brinder aseswyr â sgiliau Cymraeg. Wrth drafod a fodlonid y galw, ni ystyriwyd fod y darlun yn eglur. Adroddai rhai darparwyr am ddiffyg galw ymysg myfyrwyr oherwydd diffyg diddordeb gwirioneddol, tra y teimlai eraill mai diffyg hyder a oedd wrth wraidd amharodrwydd dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg yn eu haddysg/hyfforddiant ôl-16. Teimlid y dylid cynnal mwy o ymchwil i'r materion hyn cyn y gellid dod at unrhyw gasgliadau. |
| **Arolygon o ddysgwyr y dyfodol:**<br>Trafododd rhai o'r gweithdai pa mor ddefnyddiol oedd arolygon dysgwyr i ddarparwyr unigol ac i'r sector yn gyfan. | Yn gyffredinol, cytunai darparwyr bod canfasio barn am brofiadau dysgu yn ddefnyddiol ac yn helpu ffurfio darpariaeth. Fodd bynnag, roedd cydsyniad hefyd bod angen cymryd gofal wrth wneud cymariaethau ar draws mathau gwahanol o ddarparwyr, a bod cyhoeddi canlyniadau heb ddigon o esboniad ategol yn rhoi'r darparwyr mewn sefyllfa fregus mewn perthynas â gwneuthurwyr polisi. Felly, dymunai'r darparwyr fynd ymlaen yn ofalus, ac roeddent yn fwy pleidiol tuag at gymariaethau oddi mewn i sector. Cynigiwyd llawer o awgrymiadau amrywiol gan ddarparwyr ar gyfer arolygon boddhad yn y dyfodol (gweler adran 2.2 ymlaen), ond un thema allweddol a ymddangosodd oedd y galw am ddata lleol i lywio prosesau cynllunio y darparwyr yn well. |

## 2.2 Themâu Allweddol sy'n Benodol i Ddysgu yn y Gwaith

| Mater/Maes Polisi | Sylwadau Manwl | Casgliadau |
|---|---|---|
| **Fframweithiau:**<br>Cafwyd llawer o newidiadau i fframweithiau mewn cyfnod byr iawn o amser. Roedd cyfnod o 'sadio' a sefydlogrwydd yn ddymunol. Roedd darparwyr hefyd yn awyddus i adolygu'r fframweithiau a/neu gael mwy o hyblygrwydd o ran yr hyn a gynigid i ddysgwyr a chyflogwyr. Roeddent yn gweld bod yr anhyblygrwydd yn enwedig yn peri i lawer o gyflogwyr golli diddordeb. Ystyriwyd bod fframweithiau'n dibrisio CGCau ac yn ymddwyn fel rhwystr i ddysgwyr hŷn. | Nodwyd ei fod yn anodd gwerthu rhai o'r fframweithiau presennol i gyflogwyr, a oedd â diddordeb yn unig mewn ennill cymwysterau cydnabyddedig i'w hyfforddeion (e.e. CGC) yn yr amser byrraf posibl a chan aflonyddu cyn lleied â phosibl ar eu busnes. Teimlent fod angen help arnynt i lywio a gwerthu'r cysyniad. Ymysg y syniadau a drafodwyd yr oedd:<br><br>• Dylid gwerthuso hyblygrwydd/cynnwys y fframweithiau (gan ELWa a SSCau mewn ymgynghoriad â darparwyr, cyflogwyr a dysgwyr).<br>• Y posibilrwydd y gallai ELWa lansio ymgyrch farchnata i hyrwyddo fframweithiau ymysg dysgwyr, cyflogwyr ac, yn enwedig, i roi gwybod i Fentrau Bach a Chanolig (SMEau) am fanteision hyfforddiant.<br>• Roedd darparwyr am gael mwy o amser i ymbaratoi gan ELWa i ddelio â newidiadau mewn fframweithiau. Yn benodol, roeddent am gael mynediad at ymgynghorwyr yn ELWa â chanddynt yr holl wybodaeth am fframweithiau ac na fyddai'n rhaid iddynt gyfeirio'r darparwyr i rywle arall i gael atebion. Ar hyn o bryd, fodd bynnag, cyfrifoldeb pob SSC yw rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i ddarparwyr am newidiadau mewn fframweithiau. | Roedd darparwyr yn unfrydol bod angen rhyw fodd o integreiddio'r fframweithiau fel eu bod yn bodloni anghenion y dysgwyr a'r cyflogwyr yn y dull orau. Efallai y bydd hyn yn golygu cyflwyno hyblygrwydd o ran nifer yr elfennau sydd eu hangen i gwblhau'r fframwaith mewn rhai sectorau, a chynnig system sy'n debycach i un 'gyrru mewn ac allan' i hwyluso'r broses hyfforddi. |
| **Rôl aseswyr:**<br>Soniodd mwyafrif y darparwyr bod rôl aseswyr wedi newid dros y | Teimlid, yn wir, nad oedd gan aseswyr neu hyfforddwyr yr amser i wneud yr hyn y maent yn ei wneud orau. Roedd hyn, yn ogystal â materion eraill fel tâl, yn arwain at deimlo'n siomedig â'u rôl ac roedd llawer ohonynt yn | Dylid adolygu faint o waith papur a gweinyddu yr oedd angen ei wneud. Pe bai modd lleihau lefel y |

| | | |
|---|---|---|
| blynyddoedd. Daeth y weinyddiaeth yn ormod o faich. | gadael y proffesiwn. Nid oedd darparwyr yn feirniadol o waith papur, yn wir, roeddent yn parchu'r angen amdano ond teimlent y dylid tynnu llinell oddi tano a bod lefel presennol y fiwrocratiaeth, efallai, wedi mynd dros ben llestri. | weinyddiaeth, yna efallai bod angen i ddarparwyr feddwl am ffyrdd y gellid ailddyrannu rhai tasgau i roi mwy o amser cyswllt i'r aseswr gyda'r hyfforddeion. |
| **Dysgwyr ifanc:** Roedd darparwyr yn gweld eu bod yn treulio llawer mwy o amser yn delio â phroblemau cymdeithasol ac ymddygiadol eu grwpiau, yn hytrach na datblygu eu hyfforddiant. | Roedd dysgwyr ifanc rhwng 16 a 18 oed yn broblem benodol i i ddarparwyr am eu bod, yn aml, yn cael eu cyfeirio at raglenni DYYG fel eu bod yn parhau'n gymwys ar gyfer Lwfans Ceisio Gwaith.  Teimlai darparwyr nad oedd y systemau budd-daliadau presennol ond yn cymhlethu'r broblem. Ystyrid dysgwyr gwrywaidd ifanc yn broblem neilltuol gan rai darparwyr.  Ystyrid hyn yn adlewyrchiad o gefndir eu cartref a'u haddysg, yn ogystal â'i fod yn adlewyrchu tueddiad diwylliannol ehangach lle'r ymddangosai fod y grŵp hwn yn ymwneud llai â dysgu. | Ni chynigiwyd llawer o atebion gan ddarparwyr. Fodd bynnag, roeddent o'r farn y byddai cyngor gwell i ddysgwyr gwrywaidd ifanc am ddewisiadau ar gyfnod cynharach yn ddefnyddiol. Roedd angen i'r disgwyliadau fod yn eglur. |
| **Gyrfa Cymru:** Awgrymai adborth gan rai darparwyr nad oedd gan yr holl ymgynghorwyr y wybodaeth ddiweddaraf, ac nad oeddent yn deall yr hyn yr oedd DYYG yn ei olygu'n llawn. | Roedd llawer o ddarparwyr yn gweithio gyda Gyrfa Cymru i ddiweddaru ymgynghorwyr am gynnwys y fframweithiau ac i'w galluogi i gynghori dysgwyr arfaethedig yn briodol. Mater arall i'r darparwyr oedd y canfyddiad bod trosiant staff uchel yng Ngyrfa Cymru, a oedd yn gwneud y broses o rannu gwybodaeth yn anos o'r herwydd. | Roedd darparwyr am i Yrfa Cymru sicrhau bod gan eu hymgynghorwyr y wybodaeth ddiweddaraf am newidiadau i'r fframweithiau a'u bod yn deall y dewisiadau sydd ar gael i ddysgwyr yn llawn. |

| Mater/Maes Polisi | Sylwadau Manwl | Casgliadau |
|---|---|---|
| **Arolygu ac asesu**:<br>Teimlai darparwyr nad oedd llawer o gydnabyddiaeth i'r heriau penodol yr oeddent yn eu hwynebu gyda'u grŵp cleientiaid, yn enwedig y ffaith eu bod yn delio â chyflogwyr yn ogystal â dysgwyr. | Roedd y drefn bresennol o arolygu yn gwneud cymariaethau ar draws yr holl ddarpariaeth ôl-16, heb gydnabod natur wahanol y ddarpariaeth, sef:<br>• Roedd y rhesymau tros bod dysgwyr yn gadael yn gynnar, yn gyffredinol, y tu hwnt i reolaeth y darparwr (yn gysylltiedig â ffactorau personol a chyflogaeth).<br>• Proffil y grŵp cleientiaid – angen llawer mwy o gefnogaeth ar y rheiny sy'n draddodiadol yn gyflawnwyr is.<br>• Y cyfnod hwy yr oedd dysgwr nodweddiadol yn gysylltiedig â darparwr.<br>• Y ffaith bod 'cwblhau' yn dibynnu ar gyflawni holl rannau'r fframwaith.<br>• Yn gyffredinol, roedd galw am fwy o gydnabyddiaeth i'r 'pellter a deithiwyd' mewn cyferbyniad ag asesiadau anhyblyg a seiliwyd ar gwblhau'r fframwaith. | Gofynnodd darparwyr am system o asesu a gydnabyddai'r gwahaniaethau rhwng darparwyr ôl-16:<br>• Adolygu cynnwys dysgwyr sy'n gadael yn gynnar wrth gyfrifo targedau.<br>• Adolygu'r hyn sy'n dynodi 'cwblhau' ar draws sectorau/lefelau; caniatáu mesur 'pellter a deithiwyd' yn hytrach na chwblhau'r fframwaith cyfan. |
| **Y cyfnod hwyaf ar gyfer ariannu:**<br>Teimlai rhai darparwyr bod y system hon o ariannu'n niweidiol, yn enwedig yn achos dysgwyr yr oedd angen cymorth ychwanegol arnynt. | Mewn rhai achosion bu model y Cyfnod Hwyaf ar gyfer Ariannu yn rhwystr i lwyddiant ar gyfer rhai dysgwyr, gan fod yn rhaid cwblhau holl elfennau fframwaith o fewn amser penodedig er mwyn cael eu hariannu gan ELWa. Roedd galw am esgusodiad arbennig yn achos dysgwyr a fyddai, gydag amser a chymorth ychwanegol, yn gallu cwblhau eu dysgu. | Gofynnodd darparwyr am system lle'r oedd digon o hyblygrwydd yn y model ariannu i'w galluogi i gynnig gwasanaeth o ansawdd gwell i'r dysgwyr hynny a oedd fwyaf angen cymorth. |

## 2.3 Themâu Allweddol sy'n Benodol i Addysg Bellach

| Mater/Maes Polisi | Sylwadau Manwl | Casgliadau |
|---|---|---|
| **Ymsefydlu**:<br>Yn aml, mewn AB, roedd y dysgwr wedi treulio llawer o amser y tu allan i'r amgylchedd dysgu. Roedd angen cyfnod o ailgynefino ac fe'i gwerthfawrogid yn fawr. | Teimlai darparwyr AB fod y gweithdrefnau ymsefydlu, yn gyffredinol, yn gadarn. Fodd bynnag, weithiau roedd achosion lle nad oedd dysgwyr rhan amser hŷn yn gweld unrhyw werth mewn sesiynau paratoi. Yn aml, roedd swyddi gan y dysgwyr hyn, yn ogystal â chyfrifoldebau y tu allan i'r gwaith. | Teimlai cynrychiolwyr ei fod yn hanfodol paratoi'r bobl hyn ar gyfer eu dysgu, er mwyn gwella'r cyfraddau cadw ac i sicrhau bod eu dewis o addysg yn iawn ar eu cyfer nhw. Roedd ymsefydlu ac eglurder cyngor yn allweddol i sicrhau bod dysgwyr yn deall yr holl lwybrau posibl a oedd ar agor iddynt wrth wneud penderfyniadau. Ystyrid bod eglurder cyngor yn allweddol ar gyfer yr holl grwpiau oedran (nid ar gyfer dysgwyr ifanc yn unig). |
| **Cefnogi'r dysgwr:**<br>Gweithredid systemau cefnogi i ddysgwyr, ond dibynnai'r rhain yn fawr ar alluoedd a sgiliau eu tiwtor. Cydnabuwyd bod y rhain yn amrywio ar draws tiwtoriaid ac nad oedd pob un wedi'u harfogi â'r hyder neu'r sgiliau i ddelio â dysgwyr â phroblemau ymddygiadol neu gymdeithasol. | Roedd mynediad at gyllid ar gyfer datblygiad staff yn amrywio. Er enghraifft, ni thelid tiwtoriaid rhan amser AB i fynychu sesiynau datblygu y tu allan i'w horiau addysgu. Fodd bynnag, tueddai'r tiwtoriaid hyn yn aml i fod yn delio â grwpiau yr oedd angen cefnogaeth ychwanegol arnynt (h.y. dysgwyr rhan amser sy'n oedolion) i'w hannog i barhau â'u haddysg neu i feithrin eu hyder.<br>Roedd dysgwyr ifanc rhwng 16 a 18 yn broblem benodol i ddarparwyr AB, gan eu bod yn aml yn y coleg o ganlyniad i gyrhaeddiad isel yn yr ysgol a diffyg cyfleoedd cyflogaeth yn eu hardal. Ystyrid hon yn broblem gynyddol ac roedd darparwyr yn gweld eu bod yn treulio mwy o amser yn delio â phroblemau cymdeithasol ac ymddygiadol y grŵp hwn nag yn eu haddysgu. | Mae datblygiad staff yn allweddol, a dylai ELWa ac Estyn gydnabod yn ehangach y dylai cefnogaeth fugeiliol ychwanegol, yn enwedig i'r dysgwyr iau, fod wedi'i thargedu ac yn broffesiynol. Ystyrid bod hyfforddi hyfforddwr yn hanfodol i gynyddu lefelau boddhad a lefelau cadw dysgwyr, ac i gynyddu boddhad athrawon/tiwtoriaid yn eu swydd. |

| Mater/Maes Polisi | Sylwadau Manwl | Casgliadau |
|---|---|---|
| **Arolygon dysgwyr yn y dyfodol**:<br>Trafodwyd meysydd cwestiwn a fyddai'n ddefnyddiol yn y fath arolygon. | Roedd gan ddarparwyr amrywiaeth o gynigion ar gyfer arolygon yn y dyfodol ac ymholiadau amdanynt, fel a ganlyn:<br><br>• Cynnwys cwestiwn am argymell, e.e. 'a fyddech chi'n argymell y coleg/cwrs hwn i'ch ffrindiau?'<br>• Cynnwys pwnc cyfleusterau.<br>• Ystyried blaenoriaethau dysgwyr wrth asesu'r bwlch rhwng eu disgwyliadau a'u profiadau gwirioneddol – pa ddisgwyliad yr oedd yn bwysicaf ei fodloni?<br>• Cynnwys cwestiynau sy'n gysylltiedig ag iechyd a diogelwch, er y tueddid cynnwys y rhain mewn arolygon mewnol gallai cynnwys y cwestiwn achosi problemau pe bai polisïau'n amrywio ar draws darparwyr.<br>• Cyfleoedd cyfartal – gwneud yr arolwg yn ddigon mawr i allu ystyried a oes profiadau gwahanol gan grwpiau gwahanol o ddysgwyr. Dywedodd rhai darparwyr y nodwyd hyn yn eu harolygon mewnol ar gyfer dysgwyr.<br>• Samplau mwy o faint i dynnu canfyddiadau o'r arolwg ar gyfer grwpiau penodol o ddysgwyr y mae darparwyr yn ymwybodol bod ganddynt broblemau, er enghraifft, cyfraddau cadw ar gyrsiau fel adeiladu.<br>• Cynnwys dysgwyr o dan 16 yn yr arolwg, o ystyried yr Agenda 14 –19.<br>• Dyheadau, beth mae dysgwyr am ei wneud ar ôl | Dylai ELWa ledaenu'r syniadau hyn ymhlith darparwyr sydd/a allai fod yn cynnal eu harolygon eu hunain. Dylai ELWa hefyd ystyried y meysydd hyn er mwyn eu cynnwys mewn unrhyw arolwg a gynhelir mewn perthynas â dysgwyr yn y dyfodol. |

| | | |
|---|---|---|
| | eu digwyddiad dysgu?<br>• Teimlid bod sylwadau air am air yn enwedig o bwerus a phwysig wrth gyfleu materion dyrys i rai gwneuthurwyr polisi nad oeddent mewn cysylltiad â'r dysgwr. | |

## 2.4 Themâu Allweddol sy'n Benodol i Addysg Oedolion a Chymunedol

| Mater/Maes Polisi | Sylwadau Manwl | Casgliadau |
|---|---|---|
| **Ymgysylltu â dysgwyr arfaethedig**: Mater allweddol oedd sut roedd darparwyr yn ymgysylltu â grwpiau cleientiaid arfaethedig. Tueddai dysgwyr i fod yn oedolion hŷn â diffyg hyder neu ddiffyg cymwysterau. | Roedd ymgysylltu â dysgwyr arfaethedig yn gofyn am amrywiaeth o ymagweddau, ond dim ond cyllid cyfyngedig a oedd ar gael at y diben hwn. Yn ogystal, mewn ardaloedd gwledig ceid yr her o ddod o hyd i 9 neu 10 o ddysgwyr i wneud cynnal cwrs yn ymarferol yn ariannol. Roedd yn allweddol cael gwybodaeth leol am y galw. | Ystyrid bod cymorth gan ELWa yn ddefnyddiol o ran ariannu mentrau marchnata a helpu yn y broses o ddarganfod y galw am wahanol gyrsiau. Ystyrid hefyd mai cyllid/cymorthdaliadau ychwanegol gan ELWa oedd yr unig ateb ar gyfer cynnal cyrsiau â nifer fach o ymgeiswyr. |
| **Cefnogi'r Dysgwr**: Gweithredid systemau i gefnogi dysgwyr, ond dibynnai'r rhain yn fawr ar alluoedd a sgiliau eu tiwtor. Roedd gan rai tiwtoriaid fwy o sgiliau yn y maes hwn nag eraill, ac roedd mynediad at ddatblygiad staff yn amrywio. | Tueddai'r tiwtoriaid hyn yn aml i fod yn delio â grwpiau yr oedd angen cefnogaeth ychwanegol arnynt (h.y. dysgwyr rhan amser sy'n oedolion) i'w hannog i barhau â'u haddysg neu i feithrin eu hyder. Fodd bynnag, yn gyffredinol ni thelid i diwtoriaid DOCh fynychu sesiynau datblygu y tu allan i'w horiau addysgu. | Ystyrid bod ymdrin â'r mater hwn yn allweddol i hyrwyddo ansawdd ymgysylltu gwell â dysgwyr, yn enwedig ar gyfer dysgwyr rhan amser mewn DOCh achrededig. |
| **Ansawdd addysg:** Mewn DOCh, roedd pryderon nad oedd dysgwyr yn sylweddoli eu bod yn derbyn adborth, ac y gallai hyn effeithio ar sgôr eu bodlonrwydd. | Cafwyd llai o gynnydd â chynlluniau dysgu unigol nag yn y sector AB (oherwydd amser ac felly materion ariannu). Yn wir, adroddwyd bod ychydig o 'wrthwynebiad gan diwtoriaid' tuag at ffurfioli gweithdrefnau yn y modd hwn ac y byddai cyflwyno'r ymagwedd hon yn gofyn am gymryd safle gofalus gyda rhai tiwtoriaid (yn ogystal â chyllid ychwanegol). | Fel y soniwyd eisoes, gwelwyd bod datblygiad tiwtoriaid yn bwysig i sicrhau bod dysgwyr yn cael cefnogaeth ddigonol ac i sicrhau bod tiwtoriaid yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau mewn arddulliau addysgu, ac ati. Roedd hwn yn gais arall am fwy o fewnbwn/arian/lwfans i 'hyfforddi'r hyfforddwr'. |

| Mater/Maes Polisi | Sylwadau Manwl | Casgliadau |
|---|---|---|
| **Arolygon dysgwyr yn y dyfodol**:<br>Trafodwyd meysydd cwestiwn a fyddai'n ddefnyddiol yn y fath arolygon. | Roedd gan ddarparwyr amrywiaeth o gynigion ar gyfer arolygon yn y dyfodol ac ymholiadau amdanynt, fel a ganlyn:<br>• Cwestiynau am strwythur cyrsiau a pha strwythurau fyddai'n gweddu orau i ddysgwyr (o ran amseru, pa mor aml ac ati).<br>• Nodi'r cyfnod rhwng meddwl am wneud cwrs a'i wneud mewn gwirionedd ac ymchwilio'r ysgogiad terfynol i ddysgu (ystyrid y byddai hyn yn help o ran marchnata).<br>• Cynnwys mesur o werth am arian.<br>• Am ba gyrsiau yr oedd awydd yn lleol? Cydnabuwyd, fodd bynnag, y gallai hyn fod yn anodd gan ddefnyddio dulliau arolwg, a'i fod yn gallach defnyddio technegau eraill i gasglu gwybodaeth e.e. gwaith estyn allan/adborth gweithwyr cymunedol. | Dylai ELWa ledaenu'r syniadau hyn ymhlith darparwyr sydd/a allai fod yn cynnal eu harolygon eu hunain. Dylai ELWa hefyd ystyried y meysydd hyn er mwyn eu cynnwys mewn unrhyw arolwg a gynhelir mewn perthynas â dysgwyr yn y dyfodol. |

## 2.5 Themâu Allweddol sy'n Benodol i Chweched Dosbarthiadau Ysgolion

| Mater/Maes Polisi | Sylwadau Manwl | Casgliadau |
|---|---|---|
| **Ymsefydlu**: Cynigiai ysgolion amrywiaeth o raglenni ymsefydlu, gan gynnwys sesiynau blasu a chyfweliadau. | Roedd ymdrechion i gynnwys rhieni yn ystod y cam hwn fel bod gan fyfyrwyr gefnogaeth ychwanegol ar adeg o ddewis a newid. Roedd llawer o fentrau yn defnyddio llawer o amser ac yn defnyddio amser y cwricwlwm; er bod darparwyr yn cefnogi'r dulliau, teimlai nifer mwyach na allent fforddio neilltuo adnoddau ar gyfer yr amser hwn yn y dyfodol. | Roedd cais am rannu arfer gorau. |
| **Dysgu galwedigaethol a chydweithio:** Roedd trafodaethau ynghylch a oedd yn ddichonadwy i ysgolion gynnig mwy o lwybrau galwedigaethol a'r angen cysylltiedig am gyfleusterau ychwanegol a fyddai'n dod i'w rhan o ganlyniad. | Teimlai rhai y dylai'r Chweched Dosbarth mewn Ysgolion barhau i ganolbwyntio ar lwybr academaidd, yn hytrach nag amrywiaethu, tra bod eraill yn frwdfrydig dros fwy o gydweithio. Roedd teimlad bod mwy o ysgolion yn defnyddio ymagwedd gydweithredol (er bod y materion logistaidd yn parhau). | Roedd galw am rannu arfer gorau'n well rhwng ac oddi mewn i grwpiau darparwyr o ran atebion creadigol ar gyfer cydweithio. |
| **Cefnogi'r dysgwr**: Yn gyffredinol, roedd darparwyr yn falch iawn o'r systemau roeddent yn eu gweithredu i gefnogi dysgwyr. Fodd bynnag, cafwyd llawer o sylwadau ynglŷn â faint o waith yr oedd athrawon yn ei wneud wrth gefnogi dysgwyr â phroblemau y tu allan i'r | Roedd cysondeb y cysylltiad rhwng y dysgwr a'r ysgol yn gadarnhaol ac yn cynorthwyo'r teimlad o berthyn. Roedd hyn hefyd yn helpu o ran cyrhaeddiad – rhoddwyd enghreifftiau lle'r oedd y gefnogaeth a gynigid mewn amgylchedd chweched dosbarth bach wedi dylanwadu'n gadarnhaol ar lefelau cyrhaeddiad myfyrwyr. Gweithredid strwythurau cefnogi (e.e. Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh)) ac roedd y rhain yn orfodol ond heb eu harchwilio yn yr arolwg. Teimlid bod y rhain yn effeithio'n fawr ar ddysgwyr a bod y rhain | Mae angen cynnal adolygiad o'r adnoddau a'r arian fel y gellir bodloni anghenion dysgwyr o ran cefnogaeth.<br><br>Hefyd, efallai y bydd mwy o rannu ar arfer gorau ymysg ysgolion mewn perthynas ag uchafu cefnogaeth i ddysgwyr (e.e. y ffordd orau i ddelio â materion iechyd meddwl) yn cynnig modelau newydd ar gyfer |

| | | |
|---|---|---|
| ysgol. Cyfeiriodd darparwyr at nifer o enghreifftiau o'r problemau a gâi myfyrwyr, gan gynnwys diffyg cefnogaeth rieniol ynglŷn â'u penderfyniad i aros ym myd addysg, pwysau ariannol a'r angen i gael gwaith i gefnogi eu haddysg ac ati. | yn agweddau cadarnhaol iawn ar y chweched dosbarth.<br><br>Roedd darparwyr yn ymroddedig i helpu myfyrwyr, ac roeddent yn gweithio ar sail defnyddio eu perthynas sefydledig â dysgwyr i nodi unrhyw broblemau'n gynnar. Fodd bynnag, roedd problemau fel diffyg cefnogaeth gan rieni a phroblemau iechyd meddwl yn dod yn amlycach ymysg myfyrwyr, gan ofyn am fwy o amser staff heb unrhyw arian ychwanegol i fodloni'r angen hwn. Soniodd rhai athrawon am y newidiadau a gynigiwyd o ran tâl athrawon (taliadau Cyfrifoldeb Addysgu a Dysgu) yr oeddent yn eu dehongli fel rhywbeth a effeithiai ar elfen fugeiliol rôl athrawon. Gwrthwynebwyd hyn, gan y teimlai llawer bod cefnogaeth fugeiliol yn rhan hanfodol o addysgu ac na ellid ei throsglwyddo'n gyfan gwbl i arbenigwyr. | delio â'r hyn sy'n cael ei weld fel her sy'n cynyddu'n ddi-baid. |
| **Arolygon dysgwyr yn y dyfodol**:<br>Trafodwyd meysydd cwestiwn a fyddai'n ddefnyddiol yn y fath arolygon. | Roedd teimladau cryf na ddylid cymharu mathau gwahanol o ddarpariaeth ôl-16 â'i gilydd. Teimlid na fyddai'r holl fuddgyfranogwyr yn deall eu cyd-destun neu'n gwerthfawrogi'r gwahaniaethau rhwng y gwahanol fathau o ddarpariaeth. Beirniadwyd ELWa am y modd y gwnaed y canlyniadau'n gyhoeddus. Roedd drwgdybiaeth bod ELWa am ddefnyddio'r canlyniadau i feirniadu'r ddarpariaeth chweched dosbarth.<br><br>Gan roi'r amheuon hyn o'r neilltu, roedd darparwyr yn gyffredinol yn cefnogi arolygon dysgwyr. Roedd nifer o awgrymiadau ar gyfer arolygon yn y dyfodol, ac roedd y rhain yn cynnwys: | Roedd darparwyr yn croesawu ymchwil cwsmeriaid ond roeddent yn anhapus ynghylch cymharu mathau gwahanol o ddarparwyr, a beirniadwyd ELWa am ledaenu canlyniadau'r arolwg. Hefyd, ymysg amrywiaeth o syniadau ynghylch cynnwys yr arolwg, awgrymodd darparwyr y byddai'n addas cynnal arolwg ymhlith rhieni ac i ddilyn myfyrwyr sy'n gadael yn gynnar mewn arolygon yn y dyfodol. |

| | | |
|---|---|---|
| | • Diwygio geirio un o'r mesurau. Teimlid nad oedd 'gwneud y pwnc yn ddiddorol ac yn bleserus i chi' yn fesur defnyddiol, gan y teimlai darparwyr bod 'pleserus' yn ddisgrifiad a oedd yn rhy gryf ac a fyddai'n arwain at raddio is.<br>• Archwilio diddordeb mewn dosbarthiadau a gynigid y tu allan i oriau ysgol mewn pynciau lleiafrifol fel Ffrangeg a Cherddoriaeth.<br>• Cydweithio – archwilio i ba raddau y byddid wedi effeithio ar ddewisiadau myfyrwyr ynghylch mynychu'r chweched dosbarth pe cynigid mwy o ddewisiadau pwnc iddynt trwy drefniadau ar y cyd.<br>• Yn fwy cyffredinol, i ba raddau yr oedd y dewis o bynciau a gynigid yn dylanwadu ar y penderfyniad i ddewis y chweched dosbarth; pa ffactorau eraill a allai fod wedi effeithio ar y dewis hwnnw?<br>• Archwilio argaeledd a chyfnodau aros ar gyfer cyngor am yrfaoedd, yn ogystal â'r ansawdd.<br>• Ceisio barn myfyrwyr am y strwythurau cefnogaeth a weithredir yn yr ysgol.<br>• Archwilio barn y myfyrwyr am ansawdd y cyfleusterau.<br>• Cwestiynau ynglŷn ag iechyd meddwl; i ba raddau y mae'r myfyrwyr yn teimlo dan bwysau/straen.<br>Roedd darparwyr yn awyddus y dylai arolygon gynnig canlyniadau yn ôl y lefel dysgu yn y dyfodol, h.y. sylfaenol, uwch, ac ati. | |

# 3. Dysgu yn y Gwaith

## 3.1 Trosolwg

Mae Dysgu yn y Gwaith yn cynnwys darpariaeth gan ddarparwyr hyfforddiant preifat a chyrsiau a gynigir gan golegau Addysg Bellach. Roedd y berthynas drionglog rhwng y darparwr, y dysgwr a'r cyflogwr yn cynnig heriau penodol i ddarparwyr DYYG a oedd yn wahanol i'r rheiny a brofwyd gan ddarparwyr ôl-16 eraill. Nid oedd cymhlethdod rheoli'r profiad dysgu i'r holl bartïon yn cael ei gydnabod bob tro. Teimlai'r holl ddarparwyr eu bod, yn amlach na pheidio, yn delio â grŵp cyrhaeddiad isel o ran gallu academaidd a chanddynt gymhelliant isel oherwydd problemau cymdeithasol.

Yn wir, daeth un cynrychiolydd â detholiad o ysgrifau portread i ddisgrifio dysgwyr nodweddiadol yn y grŵp hwn, yr oedd pob un ohonynt yn brwydro yn erbyn graddau amrywiol o broblemau cymdeithasol (rhai ohonynt yn ddifrifol iawn), a oedd yn amharu ar eu gallu i gyflawni.

Er hynny, roedd ymrwymiad anhygoel o gryf ymysg darparwyr i sicrhau bod dysgwyr yn cael cymaint o fudd ag sy'n bosibl o'r cyfleoedd sydd ar gael ac i weld cynnydd ymysg pawb yr oeddent yn ymwneud â nhw. Yn wir, lle nad oedd dysgwyr yn llwyddo mewn DYYG, gwnaed ymdrechion i'w cyfeirio at gefnogaeth sgiliau sylfaenol fel eu bod yn parhau i ymwneud â'r broses ddysgu.

Roedd y prif faterion i ddarparwyr yn y sector hwn yn ymwneud â pharch cydradd, biwrocratiaeth a monitro, ariannu a chred er bod y fframweithiau'n dda, bod angen mwy o hyblygrwydd.

## 3.2 Cyn Mynediad

### *3.2.1 Marchnata, Cyngor ac Arweiniad*

Cyflwynwyd canlyniadau Arolwg Cenedlaethol o Foddhad Dysgwyr yng Nghymru 2003, a oedd yn berthnasol i DYYG, i ddarparwyr. Felly, wrth ystyried y pynciau marchnata, cyngor ac arweiniad, atgoffwyd cynrychiolwyr o'r prif ffynonellau cyngor a ddefnyddiwyd gan ddysgwyr DYYG a sut roedd y rhain yn dylanwadu ar

benderfyniadau. Er gwybodaeth, y prif ffynonellau gwybodaeth a'u sgoriau o ran defnyddioldeb canfyddedig ar gyfer DYYG oedd:

| **Ffynonellau gwybodaeth** Sylfaen: Holl ymatebwyr DYYG (1000) | **%** | **Sgôr ansawdd cymedrig** (allan o 4) |
|---|---|---|
| Cyflogwr | 55 | 3.5 |
| Gyrfa Cymru | 43 | 3.4 |
| Rhieni neu deulu | 39 | 3.3 |
| Ffrindiau | 37 | 3.4 |
| Tiwtoriaid y darparwr | 36 | 3.6 |
| Ymgynghorydd gyrfaoedd yr ysgol | 33 | 3.4 |

Caniatawyd ymatebion lluosog. Mae sgoriau ansawdd yn ymwneud â defnyddioldeb pob ffynhonnell cyngor lle mae 1 yn cynrychioli 'ddim yn ddefnyddiol o gwbl' a 4 yn cynrychioli 'defnyddiol iawn'.

Dim ond un elfen o'r drafodaeth oedd ffynonellau cyngor; trafododd y cynrychiolwyr hefyd rôl ehangach rhieni ac ysgolion mewn gwneud penderfyniadau, dylanwad Gyrfa Cymru a'r ffyrdd yr oedd cyflogwyr yn ymwneud â'r cyfnod cyn-fynediad. Lle'r oedd yn bosibl, ceisiwyd datrysiadau i unrhyw broblemau canfyddedig, a nodir y rhain yn yr adrannau canlynol.

#### *3.2.1.1 Ysgolion a Rhieni*

Tueddai trafodaethau i ganolbwyntio ar ddenu dysgwyr ifanc i raglenni yn y gweithle. Ystyrid bod proffil DYYG mewn ysgolion yn isel, ac roedd llawer o drafodaeth ynghylch y gallu i ddylanwadu ar ddysgwyr ifanc (a'u rhieni) tra'u bod yn y system ysgol. Teimlai darparwyr y golygai diffyg parch cydradd rhwng y dewisiadau gwahanol i ddysgwyr 16 oed eu bod dan anfantais o ran denu mwy o ddysgwyr academaidd medrus i DYYG. Teimlai darparwyr bod tybiaeth sylfaenol ymysg athrawon, Gyrfa Cymru a rhieni bod gwneud prentisiaeth yn golygu bod rhywun yn 'tangyflawni'. Ystyrid bod ymdrin â'r ymagweddau hyn yn hanfodol i godi proffil y llwybr galwedigaethol i bobl ifanc.

Roedd teimlad bod proffil isel DYYG yn gysylltiedig â'r llwybrau a gymerwyd gan rieni ac athrawon mewn addysg a hyfforddiant; byddai llawer ohonynt ond yn gyfarwydd â'u profiadau academaidd personol.

*"Rwy'n credu bod ysgolion yn rhagfarnllyd - maent yn tueddu i wthio'r bobl llai galluog tuag at ddysgu yn y gwaith, a dyw hynny ddim yn iawn."*

*"Maent yn dod o'r… brifysgol, maent wedi gwneud eu gradd ac yn mynd yn syth yn ôl i addysgu."*

*"Does dim clem ganddyn nhw."*

*"Y gwirionedd yw bod gan rieni eu hanes eu hunain o ddysgu. Os yw rhieni wedi dilyn llwybr mwy academaidd eu hunain, maen nhw'n eithaf caeëdig ac rwy'n credu bod achos yma dros helpu rhieni yn ystod y cyfnodau cynnar."*

Fodd bynnag, roedd materion ariannu hefyd yn cymylu'r darlun, gyda darparwyr o'r farn bod y mecanweithiau ariannu presennol yn golygu ei fod er budd i'r ysgol gadw myfyrwyr yn y chweched dosbarth, hyd yn oed pan nad hwn, o bosibl, yw'r llwybr gorau i'r myfyriwr:

*"Rwy'n credu mai'r broblem… yw'r ffaith bod llawer iawn o athrawon ysgol yn rhoi'r cyngor cychwynnol ac yn enwedig os oes chweched dosbarth gennych mae'n sefyllfa 'penolau ar y seddi'… Yn anaml iawn y mae (darparwyr) yn gweld y bobl ifanc a fydd efallai'n mynd ymlaen i wneud Lefel A ac i'r brifysgol, ac eto nhw yw'r bobl rydyn ni'n chwilio amdanyn nhw, yn enwedig mewn peirianneg, felly mewn llawer o ffyrdd mae hynny'n rhywbeth negyddol yn hytrach na chadarnhaol. Rhaid cael athro ymroddedig iawn i ddweud "ie, paid ag aros yn fy chweched dosbarth lle r'yn ni'n mynd i gael mwy o arian am gael penolau ar seddi, ond cer i wneud peirianneg" neu beth bynnag yw."*

*"Rwy'n credu'i fod yn dod oddi wrth y llywodraeth mewn gwirionedd on'd yw e, am fod gennyn nhw ymgyrch fawr i gynyddu'r nifer sy'n aros yn yr ysgol, yn cymryd Lefel A, yn mynd i'r brifysgol;* (mae hyn*) yn uchel ar eu hagenda. Rwy'n credu i DYYG gael ei adael ar ôl. Rwy'n credu eich bod yn gwybod yn y Cynulliad ein bod wedi clywed llawer gan y gweinidog am y Chweched Dosbarth mewn Ysgolion… yn anaml iawn iawn y clywch nhw'n dweud unrhyw beth am DYYG."*

Teimlai rhai darparwyr y dylid cyflwyno'r holl ddewisiadau sy'n agored i blant ysgol iddynt ym Mlwyddyn 9, gydag asesiad teg o'r llwybrau gorau i mewn i alwedigaethau penodol. I rai, byddai hyn yn golygu dysgu yn y gwaith mewn cyferbyniad â'r llwybr academaidd traddodiadol o chweched dosbarth ac yna mynd i brifysgol. Mewn rhai achosion, teimlai darparwyr nad oedd manteision real iawn DYYG fel dewis rhatach i'r unigolyn gael dilyn addysg bellach yn cael eu pwysleisio ddigon:

*"Mae hwnna'n faes sy'n cael ei dan-werthu'n fawr wyddoch chi, ac yn enwedig yn y dyddiau hyn o dalu ffioedd a'r … ffaith eu bod yn cael eu talu wrth iddyn nhw hyfforddi, gallant fynd ymlaen i addysg uwch o hyd heb fod yn gyfrifol am ffioedd dysgu."*

*"Ry'n ni'n defnyddio astudiaeth achos … daeth person ifanc aton ni'n 16 oed ar Brentisiaeth Fodern (PF)…felly pan oedd yn 20 roedd y person hwn mewn cyflogaeth, yn amlwg yn cael cyflog da fel peiriannwr ac yn cael Tystysgrif Genedlaethol Uwch (HNC) ar Brentisiaeth Fodern. Yna, er mwyn ychwanegu ato cafodd ei noddi gan y cwmni i fynd i'r coleg am ddwy flynedd ar sail cael ei ryddhau am y dydd i ennill ei radd, felly erbyn iddo fod yn 22 roedd gradd ganddo; mewn cyferbyniad, roedd gan ei ffrindiau a aeth i brifysgol ddyledion o £12,000 ac roeddent yn chwilio am swyddi."*

Nodwyd nifer o feysydd ar gyfer gweithredu, gan gynnwys mynediad at ysgolion a dylanwadu ar y cyngor a gynigir mewn ysgolion ac i rieni (her llawer mwy). Cydnabuwyd y byddai'r fenter Llwybrau Dysgu 14-19 yn bwysig yn y broses hon, gan gynnwys athrawon, Gyrfa Cymru a hyfforddwyr dysgu. Yn gyffredinol, teimlai darparwyr y dylid annog amgylchedd o gydweithio ag ysgolion yn hytrach na chystadlu am bobl ifanc ac, yn wir, mewn rhai meysydd roedd hyn yn digwydd eisoes:

*"Ceir cystadleuaeth am ddisgyblion ac rwy'n credu mai'r hyn sy'n rhaid i ni ei wneud yw dod o hyd i amgylchedd lle …(*mae'r ysgol yn*) cydweithio â ni yn hytrach na chystadlu… diwedd y gân yw'r geiniog yn y pen draw felly mae'n rhaid i ni allu cydweithio fel nad oes unrhyw un ar eu colled…."*

*"Rwy'n gwybod y rhoddwyd llawer o gyngor lle'r oedd y person ifanc yn eilaidd ac all hynny ddim bod yn iawn, all hynny ddim bod yn iawn o gwbl, dim ffiars o beryg. Mae gynnon ni'r peth 'ma 'nawr … mae'n llyfryn o'r enw "Parch Cydradd" ac mae llawer o'r pethe sy' ynddo'n gadarn iawn, iawn ond dw'i ddim yn credu'i fod wedi mynd mor bell ag y dylai…mae hynny'n amlwg, oherwydd fel arall byddai pobl yn neidio ar y cyfle i ddilyn DYYG."*

*"Yn fy ngholeg i …mae gweinyddwr cyswllt ysgol gen i a fydd yn ceisio siarad er mwyn cael amser gydag athrawon a gweithio gyda phobl Blwyddyn 10 i geisio rhoi llawer o wybodaeth ac arweiniad iddyn nhw, yn cynnig sesiynau blasu, yn cynnig gweithdai a lleoliadau i roi teimlad gwirioneddol iddyn nhw o'r hyn y maen nhw'n mynd iddo a cheisio dyrchafu cydraddoldeb rhwng yr academaidd a'r galwedigaethol fel bod gennych amser gyda nhw i'w haddysgu."*

*"Ry'n ni'n darganfod 'nawr ein bod yn cael ein gwahodd i fynd i ysgolion yn llawer amlach; roedd cyfnod pan ro'n ni i gyd yn ymladd am yr un myfyrwyr rhwng 16-18 oed … ond mae'n ymddangos bod hynny'n newid â chymorth y gwasanaeth*

*gyrfaoedd ac… mae'n ymddangos bod llawer mwy o achlysuron 'nawr pan rwy'n siarad â darparwyr (*sydd*) wir yn mynd i mewn ac yn traddodi o fewn y cysylltiadau cyn 16 ac yn gweithio mewn partneriaeth mewn ysgolion, sy'n cael gafael ar y myfyrwyr pan fyddant yn iau ac yn dangos ystyr dewisiadau galwedigaethol iddyn nhw ac yn chwalu rhai o'r rhwystrau a'r ddelweddaeth negyddol sydd o bosib o'u hamgylch."*

*"Rydyn ni hefyd yn delio â phrentisiaid peirianneg ac …ry'n ni'n gwahodd … efallai 30 o ymgynghorwyr Gyrfaoedd ac yn dod â nhw i mewn am seminar ac yn rhoi gwybodaeth iddyn nhw am yr hyn ry'n ni'n ei wneud o ran recriwtio. Ac ry'n ni'n ceisio mynd i ysgolion gan ddefnyddio EBP, y Bartneriaeth Busnes Addysg, drwy ffug gyfweliadau a chynnal cyflwyniadau. Ond… mae angen i ni godi ymwybyddiaeth yr athrawon yn yr ysgolion am fanteision DYYG am ei fod yn sicr bod anghydbwysedd … nid yw'r bobl ifanc y cawn ni fynediad atynt … o'r safon Lefel A ry'n ni eu heisiau a'u hangen, ond maent yn bobl sy'n raddau C neu D ymylol yn y sefyllfa honno. Rhaid i ni ddod ynghyd gydag ELWa, a sefydlu un ymagwedd."*

Roedd rhai darparwyr yn gweld bod y broses o gyflwyno myfyrwyr ym Mlwyddyn 10 i brofiad gwaith wedi bod yn gynhyrchiol iawn i gyflogwyr a phobl ifanc ill dau.

*"Ry'n ni'n gweld bod profiad gwaith estynedig yn dda iawn, ac y bydd nifer o gyflogwyr yn cadw rhywun am, dyweder, bythefnos ychwanegol, ry'n ni'n cael adborth am Flwyddyn 10 yn yr ysgol sy'n dweud eu bod nhw'n dda iawn - a fedrwn ni eu cael am bythefnos arall ac ati. Ac wedyn maen nhw'n dweud bod y person yma'n wych, allwn ni eu cyflogi nhw?..Felly mae hynny'n profi'n rhywbeth da, ac mae'n cynhyrchu digon o leoedd ac yn wirioneddol hyrwyddo unigolion.."*

*"Yn y maes lle ry'n ni'n gweithio ceir llawer iawn iawn o fusnesau band un dyn … a'r peth sy'n fy nharo i yw eu bod yn teimlo na allant redeg eu busnesau a dysgu rhywun ar yr un pryd neu dreulio'r amser – pe deuai'r person hwnnw atynt ag ychydig o brofiad ymlaen llaw, er enghraifft eu bod yn gallu plygu piben neu rywbeth defnyddiol, efallai y bydden nhw'n meddwl eto am roi lleoliad hyfforddi iddynt."*

Fodd bynnag, roedd gan rai darparwyr atgofion llai cadarnhaol ynghylch gweithio gydag ysgolion:

*"Dechreuodd 15, gadawodd 3, am mai'r rhai a ddewiswyd i ddod oedd y rhai llai galluog ac yn llai tebygol o gael eu caniatáu i eistedd arholiad TGAU, mae'n wirioneddol siomedig ac rwy'n credu'n aml os ydych chi'n gofyn i'r plant eraill yn y flwyddyn honno, y bydden nhwythau wedi hoffi cael y cyfle i brofi DYYG. P'un a (*bod yr ysgol*) yn teimlo bod y plant hynny wedi bod yn ddrwg, maent bron yn cael eu gwobrwyo â diwrnod i ffwrdd o'r ysgol bob wythnos i gael gwneud ychydig o waith ymarferol arall, gwaith theori, mewn amgylchedd hyfforddi*

*oedolion, a phe bydden nhw'r math iawn o blentyn a fyddai'n dweud, ie, gallai hwn fod yn ddewis posib' i mi, a siarad â'i rieni amdano, chi'n gwybod gallai fod yn ffordd o dynnu'r rhieni yn wirioneddol i mewn i'r hyn y mae DYYG yn ei wneud."*

*"Cynhaliom noson yrfaoedd yn eitha' diweddar ac rwyf o hyd yn bryderus iawn iawn am nifer y bobl ifanc mewn ysgolion nad ydynt yn gwybod beth yw CGC; gallaf eich sicrhau, dim ond pa ddiwrnod oedd hyn – "Beth yw CGCau?", ac… roeddwn i'n meddwl y byddai pawb wedi gwybod am CGCau."*

Cododd rhai darparwyr bryderon am rwystr pellach i'w hymgyrchoedd marchnata: y system fudd-daliadau presennol. I rai teuluoedd ar incwm isel, roeddent yn ar eu hennill i raddau mwy os oedd eu plentyn yn aros mewn addysg amser llawn yn hytrach nag ymuno â rhaglen DYYG. Ystyrid bod hwn yn fater anodd i ymdrin ag ef o dan y systemau presennol, ond yn broblem arbennig mewn rhai ardaloedd yng Nghymru (codwyd y mater hwn yn benodol yn y gweithdy a gynhaliwyd yng Nghaerdydd).

*"Mae rhai pobl ifanc yn cael £30 yr wythnos am aros yn yr ysgol …dy'ch chi'n gwybod bod pobl ifanc gennym ni o hyd y gofynnir iddyn nhw wneud 5 niwrnod yr wythnos (*mewn DYYG *) am £45; mae 'na lawer o rieni a fydd yn colli …budd-daliadau os yw pobl ifanc yn mynd ymlaen i wneud hyn, ac mewn perygl o golli mwy nag y byddent yn ei ennill. Erbyn hyn maent hyd yn oed yn dweud bod teuluoedd gennych a fydd yn cael eu heffeithio'n wael oherwydd bod (eu plant yn) mynd ar hyfforddiant a'r bobl ifanc hynny yw'r craidd caled rydyn ni'n delio â nhw drwy'r amser."*

*3.2.1.2 Gyrfa Cymru*

Roedd ychydig o'r feirniadaeth o ysgolion hefyd yn cael ei chodi am Yrfa Cymru, yn enwedig o ran cefndiroedd addysgiadol ymgynghorwyr ac, felly, eu hargraff o DYYG:

*"Byddai'n ddiddorol, efallai, edrych ar gefndiroedd y math o bobl sy'n gweithio i Yrfa Cymru … un o'r materion pwysicaf y mae'n rhaid i DYYG ei wynebu yw nad yw mwyafrif y bobl sy'n mynd drwodd ac yn delio â phobl ifanc wedi dod drwy'r llwybr hwnnw, maent wedi dod trwy lwybr mwy traddodiadol ac academaidd ac felly nid yw'r cefndir ganddynt na theimlad go iawn am ba mor dda y gallai fod, a beth yw'r dewisiadau eraill."*

Roedd llawer o ddarparwyr a oedd yn feirniadol o Yrfa Cymru yn o ran y cyngor yr oeddent wedi'i roi i ddysgwyr a'u dealltwriaeth o'r fframweithiau. Derbyniwyd rhai myfyrwyr rhwng 16-18 oed gan ddarparwyr am fod Gyrfa Cymru wedi dweud

wrthynt fod cymhwyster Lefel 1 ganddynt, ond mewn gwirionedd dim ond rhan o'r cymhwyster hwnnw a enillwyd ganddynt (eto, priodolwyd hyn i'r ffaith nad oedd Gyrfa Cymru yn deall y systemau a weithredid).

*"Tybed a yw'r cyrff, fel ELWa neu Yrfa Cymru, yn wirioneddol ymwybodol o beth yw'r dystysgrif dechnegol hon, ei chynnwys… Os ydych yn cynnig cymhwyster da rhaid i safon eich cymhwyster gael ei osod fel ei fod yn deilwng o Lefel 2 neu'n deilwng o Lefel 3; os ydych chi'n mynd i gael pobl sy'n cael problemau gwirioneddol â rhifedd a llythrennedd nid yw'n rhywbeth y gallwch eistedd gyda nhw ar sail un-i-un ar eu cyfer, nid yw'r lefelau staffio na'r amser gennych i allu gwneud hynny."*

*"Er fy mod yn parchu Gyrfa (*Cymru*) yn fawr rwy'n meddwl weithiau wrth gyfweld â'r bobl ifanc …yn aml iawn teimlant eu bod wedi cael eu cyfeirio (*i gyfeiriad penodol*); efallai y byddant wedi crybwyll eu bod yn hoff o gwrs penodol, efallai eu bod wedi dweud eu bod yn hoff o blant felly cânt eu tywys yn orfodol mewn ffordd tuag at hynny ac rwy'n credu … bod problem nad oes ganddynt ddealltwriaeth wirioneddol o beth sy'n gysylltiedig â'r cwrs hwnnw, yn enwedig nawr mod i wedi cael trafodaeth â Gyrfa (*Cymru*) ac nad oeddent mewn gwirionedd yn deall y fframwaith cyfan hwn, sy'n cynnwys tystysgrifau technegol ar Lefel 2, sy'n weddol anodd."*

*"Bob blwyddyn rydym yn gweithio'n agos iawn â Gyrfaoedd, ond mae'n rhaid i ni nodi os ydych chi'n mynd i faes peirianneg ei fod yn well bod gennych 5 TGAU da fel y gallant ddilyn eu gwaith cwrs ac ati … ac nid yw rhai o'r ymgynghorwyr gyrfaoedd yn deall hynny a byddant yn anfon Joni bach atom, a dyw hynny ddim yn iawn mewn gwirionedd am y dylent wybod ymlaen llaw am ansawdd y bobl ry'n ni eu hangen ar ein cwrs."*

Ystyriai rhai darparwyr bod trosiant y staff yng Ngyrfa Cymru yn uchel a bod hyn wedi effeithio ar ansawdd y ddarpariaeth gwybodaeth:

*"Gyda'r swyddfeydd Gyrfaoedd yn ein hardal ni ry'n ni'n gweld bod y staff … yn newid mor gyflym yno."*

*"Yr hyn sy'n rhaid i ni ei wneud yw gwahodd staff Gyrfa (*Cymru*) … draw atom ni a gwneud cyflwyniad bob yn hyn a hyn o fisoedd am eu bod yn newid mor gyflym."*

#### *3.2.1.3 Cyflogwyr*

Her arall wrth farchnata rhaglenni DYYG oedd dwyn perswâd ar gyflogwyr am y manteision i'w busnesau o dderbyn Dysgwr yn y Gwaith. Teimlid bod cyflogwyr yn aml yn negyddol iawn ac yn amharod i archwilio'r manteision.

*"Yr ail agwedd yw codi ymwybyddiaeth cyflogwyr am fanteision hyfforddiant – mae'n ymosodiad fforch ddwbl on'd yw e? Rhaid i chi ddarbwyllo'r cyflogwyr o fanteision hyfforddiant a bod gennych ddarparwyr sy'n gallu darparu hyfforddiant o'r safon honno, ac mae'n rhaid i chi ddarbwyllo'r bobl ifanc bod dysgu yn y gwaith cystal ag academia hefyd. Felly, dy'ch chi'n gwybod, mae 'na fater marchnata pwysig yma."*

*"Rwy'n credu hefyd bod angen i chi esbonio i'r cyflogwr yn nhermau Buddsoddwyr mewn Pobl (BmP) … y gall fod yn gyfle gwych i ddod yn dra chrefftus ac yn erfyn datblygu iddyn nhw, felly rwy'n credu y gallech fod yn eu hannog i ddatblygu fel cwmni drwy'r rheolaeth, yr arweinyddiaeth, a'r datblygiad sy'n gysylltiedig â BmP, yn gysylltiedig â'r sgiliau yn y gweithlu ac ati. Ond ..rhaid bod y cyfrifoldeb ganddynt i ymrwymo i ni, ac rwy'n credu os oes gennych gyflogwr nad yw'n gwneud hynny, na ddylech fod yn ymwneud â nhw."*

Roedd ystyriaethau ariannol i gyflogwyr hefyd; roeddent am i'w gweithwyr ennill cymhwyster perthnasol yn y cyfnod lleiaf o amser. Roedd hyn yn fwy o bryder gyda Busnesau Bach a Chanolig (SMEau).

*"Cynhaliom arolwg bach gyda'n cyflogwyr a pham roeddent yn dewis gwahanol ddarparwyr i wneud hyfforddiant gwahanol … y rhai a oedd yn gwneud y (*gwaith*) mwyaf cost effeithiol ac yn y cyfnod lleiaf, dyna'r darparwyr yr oeddent yn eu dewis."*

*"Ie, dau gwestiwn maent wastad yn ei ofyn yw faint o amser mae'n ei gymryd a faint yr wythnos – dyna'r ddau gwestiwn maent am eu gwybod."*

*"Byddai rhai o'r sefydliadau mwy yn neidio ar y cyfle i'w wneud lle byddai sefydliadau* SMEau *llai yn ei weld yn fygythiad am eu bod yn mynd i golli'u staff pan eu bod yn gymwysedig ac maent yn mynd i adael i gael mwy o arian."*

*"Mae'n anodd i berson â phum gweithiwr i ddweud "iawn, rwy'n ddigon bodlon colli un rhan o bump o hynny"…mae'n ymrwymiad ac felly rhaid i ni ei esbonio'n ofalus iawn ymlaen llaw; mae gennym ymagwedd wahanol tuag at y bechgyn mawr bob tro."*

Hefyd, teimlwyd bod gan rai SMEau, yn syml, ddiffyg ymwybyddiaeth am y math o hyfforddiant a gynigid, a bod cyfarfodydd cychwynnol â'r cyflogwyr hyn yn aml yn datguddio llawer:

*"Pan ry'n ni'n dweud wrthynt y gallwn hyfforddi pobl am ddim ac ar y safle maent wedi'u syfrdanu; dewch i lawr i siarad â ni, ac mae hynny'n un peth yn fy marn i y dylai ELWa neu rywun arall efallai fod yn ei wneud yw cysylltu â'r mathau hyn o bobl a dweud bod hyn ar gael i chi."*

Fodd bynnag, i fwyafrif y darparwyr, roedd y system wedi bod yn broblemus o ran darbwyllo cyflogwyr bod holl rannau'r fframwaith yn berthnasol i'w busnes:

*"Ry'n ni'n cwrdd â nhw ac yn esbonio popeth ond dw'i ddim yn credu'u bod nhw'n deall yr ansawdd mewn gwirionedd, yr hyfforddiant sy'n gysylltiedig 'nawr â Phrentisiaethau Modern Sylfaenol (PMSau), maent o hyd yn ei weld fel yr hen CGC … Dw'i ddim yn credu'u bod nhw'n deall faint o waith y mae'n rhaid i'r bobl ifanc ei wneud eu hunain yn awr yn eu hamser eu hunain; … mae'n llawer anos llwyddo 'nawr nag yr oedd pan gyflwynwyd CGCau am y tro cyntaf."*

### *3.2.1.4 Atebion marchnata*

Teimlai darparwyr ei fod yn anodd diffinio'r ymagwedd 'orau' i farchnata: *'does dim "un maint sy'n ffitio pawb"'*. Fodd bynnag, ymddengys mai'r farn gyffredin oedd bod cysylltiad wyneb yn wyneb yn cael mwy o effaith na deunydd ysgrifenedig neu ddatganiadau yn y wasg (a oedd wedi bod yn llwyddiannus ar gyfer codi ymwybyddiaeth ond nid ar gyfer gwella dealltwriaeth a chwalu mythau am ansawdd hyfforddiant galwedigaethol). Yn aml, nid oedd cyflogwyr yn ymwybodol o'r cyllid ar gyfer DYYG neu'r llwybrau drwy'r rhaglenni, a chynigiai cysylltiad wyneb yn wyneb y cyfle i esbonio'r holl elfennau hyn.

I grynhoi, defnyddid amrywiaeth o ymagweddau marchnata gan ddarparwyr, fel a ganlyn:

- Galw diwahoddiad – roedd llawer o gyflogwyr yn rhy brysur ac ni fyddent yn mynychu sioeau. Galluogai galw diwahoddiad ddarparwyr i gyrraedd y person cywir ac i esbonio Prentisiaethau Modern ac ati a manteision rhaglenni.
- Mynychu sioeau pwysig, e.e. Sioe Môn
- Cynnal diwrnodau arddangos
- Trefnu diwrnodau agored mewn ysgolion / cynnal cyflwyniadau PowerPoint mewn ysgolion a cholegau
- Trefnu bod ystod o lenyddiaeth ar gael
- Postio hysbysebion a gwneud galwadau ffôn dilynol

Syniad arall a gynigiwyd gan un darparwr oedd defnyddio'r wasg leol i gyflwyno 'hanesion o lwyddiant', lle gellid dangos llwyddiant bobl ifanc lleol mewn dysgu yn

y gwaith. Byddai hyn yn codi proffil DYYG a gallai helpu chwalu cysylltiadau negyddol ymysg bobl ifanc a rhieni ynghylch dewis llwybr galwedigaethol.

Roedd awydd cryf i weld ymgyrch farchnata a yrrwyd gan ELWa i wneud iawn am yr anghydbwysedd presennol yn y dewisiadau a roddir i ddysgwyr ifanc. Yr allwedd i'r holl gynrychiolwyr yn y gweithdai oedd y dylai dysgwyr a rhieni gael mynediad at gyngor diduedd ac y dylai'r dysgwr aros yn ganolog drwy'r amser.

*"Rwy'n credu bod gan ELWa rôl i sicrhau bod parch cydradd a bod y dysgwyr yn cael y cyfle gorau iddyn nhw'n unigol, p'un ai 'i fod yn academaidd neu'n alwedigaethol neu beth bynnag, ond mae gan ELWa'r cyfrifoldeb hwnnw i sicrhau bod hyn yn digwydd."*

*"Rhaid cael ymgyrch farchnata gyfan sy'n ymdrin â'r ffaith bod llu o ffyrdd o gyrraedd math penodol o gyflogaeth. Felly addysgwch y rhieni; nid yw popeth yn troi o amgylch mynd i'r brifysgol, er enghraifft os ydych am fod yn bensaer …. Daeth teulu i'n gweld ..ac roeddent yn siomedig bod eu mab wedi methu o drwch blewyn cael y graddau yr oedd yn dymuno ac roeddent yn meddwl ei fod am fod yn bensaer, ac yn meddwl na fyddai'n gallu gwneud hynny ac meddwn i "peidiwch â bod yn wirion, gall fynd trwy lwybr galwedigaethol" a dywedont "wel, beth yw hynny?" felly ceir y math hynny o beth; rwy'n credu bod hwnna'n un sylfaenol, lle rwy'n credu bod yn rhaid i ELWa helpu."*

*"Rydyn ni i gyd yn rhoi'n hunain yn gyntaf ar hyn o bryd, yr hyn sy'n iawn i ni, yr hyn sy'n iawn i'r ysgol. <u>Rhaid</u> i'r person ifanc ddod yn gyntaf, mae'n anodd iawn pan ry'ch chi'n rhedeg busnes neu beth bynnag y bo ac rwy'n deall hynny yn achos ysgolion hefyd, ydw wir, ond d'yw hynny ddim yn ei wneud yn iawn, ddim o bell ffordd."*

### *3.2.2 Fframweithiau*

Roedd pynciau allweddol i'w trafod ynghylch fframweithiau yn gysylltiedig â chadw'n gyfoes â newidiadau, hyblygrwydd y cymwysterau (gan gynnwys mwy o drafodaethau â chyflogwyr), ac asesiadau.

Ar brydiau, cafwyd cyfradd newid gyflym yng nghynnwys rhaglenni dysgu ac ni fu hyn o gymorth; roedd darparwyr am gael sefydlogrwydd ac amser i raglenni cael 'ymsefydlu' cyn eu hadolygu ymhellach. Wedi dweud hynny, roedd awydd cryf am fwy o hyblygrwydd oddi mewn i fframweithiau, a theimlid y byddai hyn yn effeithio'n gadarnhaol ar ansawdd yr hyfforddiant.

*"Os ydych chi'n meddwl am yr holl ddysgwyr sydd yna a'r holl waith papur a phopeth y mae'n rhaid i chi eu newid bob tro mae'r (*fframweithiau'n*) newid."*

*"Dydyn nhw ddim yn rhoi gwybod i chi; eich cyfrifoldeb chi yw (*aros yn gyfoes*) â'r fframwaith ac mae gynnon ni ffeiliau 'Lever Arch' sy'n llawn gwybodaeth am y fframwaith; mae gynnon ni rhyw 3 neu 4 o ffeiliau 'Lever Arch sy'n llawn fframweithiau."*

*"Weithiau rwy'n credu nad ydym yn cael digon o rybudd gan ELWa o ran yr amserlen; pe baem yn cael gwybod yn gynharach bod hyn yn cael ei gyflwyno gallem baratoi'r dysgwyr … rhyw wythnos yw'r rhybudd arferol."*

Mewn ymateb i'r sylw diwethaf, dylid nodi bod Cynghorau Sgiliau Sector (CSS) yn gyfrifol am roi'r wybodaeth ddiweddaraf i ddysgwyr am unrhyw newidiadau yn y fframweithiau adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn.

Roedd galw am system debycach i system 'mynd a dod' ar gyfer holl rannau'r fframwaith, h.y. system sy'n caniatáu dyddiadau cychwyn hyblyg fel y gellid bodloni anghenion cyflogwyr a dysgwyr ar bob adeg o'r flwyddyn.

*"Os ydyn ni'n sôn am ddysgu gydol oes ac rydyn ni o hyd yn cynnal cyrsiau llinol, a ddylid newid o'r ddarpariaeth linol draddodiadol rhwng Medi-Mehefin i … ymagweddau modiwlaidd hyblyg?…Dylen ni fod yn siarad am foderneiddio ein system oni ddylen ni, yn hytrach na cheisio'i gyd-weddu neu ffitio â'r hyn sy'n bodoli eisoes."*

*"Byddai'n braf pe bai popeth yn fwy hyblyg a bod pawb yn gwerthfawrogi agweddau 'mynd a dod' DYYG ac y gallai'r cyrff dyfarnu neu'r Cyngor Sgiliau Sector edrych ar dystysgrifau technegol mwy modiwlaidd fel y gallai pobl ymuno pan a phryd roeddent am wneud hynny fel bod y dewis ganddynt."*

Fel y soniwyd eisoes, roedd problemau'n gysylltiedig â cheisio 'gwerthu' pecyn i gyflogwyr a dysgwyr nad oedd ar y naill blaid ei eisiau mewn gwirionedd; roedd llawer yn dymuno cael y CGC yn unig, ac ystyrid elfennau ychwanegol y fframweithiau (e.e. y dystysgrif dechnegol) yn llai pwysig. Felly, roedd denu cyflogwyr i 'brynu i mewn' yn broblematig mewn rhai achosion, ac yn y pen draw roedd yn effeithio ar y cyfraddau llwyddo.

*"Rwy'n credu mai'r gair hanfodol yma yw dewis, ynte? Mae'r dewis cyntaf yn arwain at foddhad gwell, mae'n anochel nawr yn y rhaglenni hyfforddiant hyn lle ceir fframweithiau y ceir rhannau nad ydynt mwy na thebyg, chi'n gwybod, na fyddent yn dewis eu gwneud oni bai bod math o ofyniad i wneud hynny"*

*“Maent am ddysgu sgiliau’r swydd ac maent yn teimlo mai CGC yw’r cymhwyster a fydd yn adlewyrchu hynny ac nid cymwysterau eraill yn y fframwaith hwnnw o reidrwydd. Ond nid yw’r hyblygrwydd yno i ni. Mae’n sefyllfa popeth neu ddim byd”*

*“Nid yw’r cyflogwr o angenrheidrwydd yn gweld y dystysgrif dechnoleg a’r sgiliau allweddol fel rhywbeth gwerthfawr.”*

*“Rwyf wedi cael galwadau ffôn gan gyflogwyr sy’n dweud yn benodol nad oeddent yn hapus pan ganfuont, yn sydyn, fod y dysgwr yn gwneud y sgiliau allweddol …mae’r darparwr wedi mynd ato, gwerthu CGC a’u cael i lofnodi cytundeb i ddilyn fframwaith ac yna mae’r cyflogwr yn ein ffonio ni yn flin, yn dweud …”Dw’i ddim am iddyn nhw wneud sgiliau allweddol, wnes i erioed ddweud” – oherwydd mai dyna oedd y camddealltwriaeth ar y cychwyn pan, rwy’n tybio, ei bod yn haws gwerthu’r CGC ar ei ben ei hun i’r cyflogwr.”*

Roedd teimlad bod y fframweithiau’n dibrisio’r CGC, gan fod pwyslais llawer mwy ar arholiadau a dysgu ymaith o'r gwaith erbyn hyn, mewn cyferbyniad â’r hyfforddiant traddodiadol, galwedigaethol wrth y gwaith. I ryw raddau roedd hyn yn gyrru dysgwyr i ffwrdd: soniwyd am enghraifft pobl hŷn mewn rhai sectorau lle’r oedd cymwysterau yn orfodol erbyn hyn (e.e. Gofal), ac er bod eu profiad hyd yn hyn yn eu gwneud yn gymwys ar gyfer y CGC, roedd ganddynt ddiffyg gallu academaidd i fodloni gofynion eraill y fframweithiau ar y lefel hwnnw.

Roedd ‘integreiddio fframweithiau’ yn ymadrodd y daethpwyd ar ei draws yn ystod rhai trafodaethau. Galwodd darparwyr am i’r holl bartïon (darparwyr hyfforddiant, cyflogwyr, CSSau, Gyrfa Cymru) gydweithio mewn meysydd galwedigaethol i wneud i’r fframweithiau weithio’n well i gyflogwyr a dysgwyr. Teimlwyd bod CSSau’n ymgynghori â darparwyr ym mwyafrif yr achosion, ond nid oedd yr ymgynghoriad hwn yn gyson o bell ffordd. Fodd bynnag, cyfaddefont fod hon yn broses gymhleth, sy’n gofyn am fuddsoddi amser ac arian.

*“Ceir cyflogwyr sydd wedi arfer â defnyddio Prentisiaethau Modern ac, yn gyffredinol, cânt eu defnyddio’n dda iawn; yna, mae gynnoch chi gyflogwyr nad ydyn nhw (*wedi arfer â defnyddio Prentisiaethau Modern*) ac mae wir yn anodd iawn darbwyllo’r rheiny; … unwaith yn rhagor, dyma lle mae’r Cyngor Sgiliau Sector efallai wedi dod i fodolaeth a gallant gychwyn ar ddyrchafu’r safonau’n wirioneddol… a dweud “edrychwch, ry’n ni’n disgwyl i bobl yn y diwydiant hwn gael safon sylfaenol o…” ac efallai y bydd hynny’n denu cyflogwyr.”*

*“Os cymerwch chi’r sgiliau modurol, er enghraifft, mae ELWa wedi rhoi blwyddyn a ¾ i’r MDF ac eto mae’r dystysgrif dechnegol yn cymryd 2 flynedd; nawr, os*

*ydyn nhw'n methu ac mae'n rhaid iddyn nhw ail-eistedd, sy'n gyfle ddwywaith y flwyddyn, mae hynny'n ychwanegu 6 mis arall, felly'r hyn ry'ch chi'n edrych arno mewn gwirionedd yw 2 flynedd a ½ ac mae hynny'n effeithio ar hyder y person ifanc, mae'n effeithio ar y fframwaith cyfan; nawr, siŵr Dduw, dylai'r Cyngor Sgiliau Sector fod yn siarad ag ELWa am hyn, felly ble maen nhw?"*

### *3.2.3 Cymorth gan ELWa*

Dywedodd nifer o ddarparwyr eu bod wedi drysu weithiau ynghylch y ffurflenni yr oedd angen eu llenwi a'r diffiniadau a ddefnyddid mewn rhannau o'r fframweithiau. Roedd rhai wedi siarad ag ELWa yn y gorffennol ond wedi cael cyngor a oedd yn gwrthdaro neu heb gael help o gwbl; eto, nid oedd y ffaith bod rhai o'r cymwysterau/gweithdrefnau/asesiadau yn newid mor gyflym, ond yn cymhlethu'r broblem.

Roedd galw ar i ELWa sicrhau bod eu holl ymgynghorwyr yn deall diffiniadau a pharamedrau'r fframweithiau fel y gallent esbonio'r rhain i ddarparwyr. Dylid cynnig gwasanaeth cyngor 'un safle' i ddarparwyr er mwyn lleihau'r angen am arwyddbyst ac i leihau oedi. Un enghraifft oedd y dryswch ynghylch statws cwblhau dysgwyr a oedd yn trosglwyddo rhwng rhaglenni neu rhwng darparwyr.

*"Nawr fedrwch chi ddim cael ateb. Felly ry'ch chi'n mynd i'r adran cwestiwn ac ateb ar y wefan. Sawl mis mae'n ei gymryd i gael ateb?"*

*"Does neb yn cefnogi'r bobl sy'n cefnogi'r dysgwr."*

Roedd awydd hefyd i ELWa gynnig mwy o gymorth ariannol i ddarparwyr a oedd yn cynnal prawf peilot o fentrau arfer gorau oddi mewn i fframweithiau, er enghraifft, y prawf peilot o bortffolios tystiolaeth ar sail fideo a thrafodaeth, sy'n lleihau'r llwyth gwaith papur ac y teimlir eu bod cael effaith gadarnhaol ar gadw dysgwyr.

### *3.2.4 Sefydlu mewn Hyfforddiant/Parodrwydd*

Roedd y rhan hon o'r drafodaeth yn cynnwys gweithdrefnau sefydlu a disgwyliadau'r dysgwyr am eu cyrsiau. Awgrymai darganfyddiadau Arolwg Cenedlaethol o Foddhad Dysgwyr yng Nghymru 2003 y bodlonwyd disgwyliadau o leiaf 75% o'r dysgwyr DYYG, yn enwedig o ran safon y gwaith a ddisgwylid (88%). Nid oedd agweddau eraill yn sgorio mor uchel, yn enwedig y rheiny a

oedd yn berthnasol i faint o gyfrifoldeb y byddai'n rhaid iddynt ei gymryd (80%) a therfynau amser y byddai'n rhaid iddynt eu bodloni (80%).

| **Disgwyliad**<br>Sylfaen: Holl ymatebwyr DYYG (1000) | **% yn dweud y bodlonwyd eu disgwyliad** |
|---|---|
| Safon y gwaith a ddisgwylid | 88 |
| Faint o waith | 82 |
| Strwythur yr hyfforddiant | 82 |
| Cynnwys yr hyfforddiant | 82 |
| Faint o gyfrifoldeb fyddai gen i | 80 |
| Faint o derfynau amser y byddai'n rhaid eu bodloni | 80 |
| Arddulliau addysgu, dulliau a ddefnyddiwyd | 80 |
| Mathau o bobl a oedd yn hyfforddi | 75 |

Teimlwyd bod y gweithdrefnau sefydlu yn briodol, o ran sgrinio unigolion a chyflogwyr ill dau, ac yna paratoi'r ddau ar gychwyn y rhaglen dysgu ynghylch beth i'w ddisgwyl. Symudodd y drafodaeth ymlaen i rannu arfer gorau o ran gweithdrefnau sefydlu.

*"Mae diwylliant yn DYYG sy'n mynd yn ôl llawer o flynyddoedd lle dy'ch chi'n gwybod bod yn rhaid i chi ei gael yn iawn o'r diwrnod cyntaf o ran eich strategaeth wreiddiol, am fod materion cytundebol sy'n eich wynebu. Ac mae hynny fwy na thebyg yn fwy perthnasol a chyffredin mewn DYYG nag … mewn sectorau eraill ôl-16."*

Yn gyffredinol, dilynai darparwyr hyfforddiant weithdrefn osodedig cyn cychwyn ar raglen hyfforddiant gyda chyflogwr/dysgwr y gellir ei chrynhoi fel:

- Archwilio cefndir cyflogwyr i wirio eu hymrwymiad i'r cwrs
- Cynnal gwiriad Iechyd a Diogelwch
- Ymweld â'r dysgwyr a siarad â nhw am eu disgwyliadau (gan ddilyn holiadur gosodedig) gyda'r nod o leihau'r gyfradd sy'n gadael hyfforddiant yn gynnar. Rhoi gwybod iddynt am broses y fframwaith.
- Anfon aseswr i mewn

Ar ôl i'r rhaglen gychwyn, ceid cysylltiad rheolaidd rhwng yr aseswr a'r cyflogwr a'r dysgwr. Yn ôl y drefn arferol, ceid adolygiad bob 2 fis lle byddai'r dysgwr yn

rhoi adborth am ei hyfforddiant a byddai'r cyflogwr hefyd yn cael cyfle i roi sylwadau.

Roedd pwysau cynyddol ar ddarparwyr i gyrraedd targedau o ran cadw dysgwyr, ac am y rheswm hwn caed ymdrech mawr i sicrhau bod y prosesau sgrinio a sefydlu yn gweithio. Roedd hyn yn enwedig mewn perthynas â chodi ymwybyddiaeth am ofynion y fframweithiau ymysg cyflogwyr ac unigolion a sicrhau eu hymrwymiad iddynt.

Rhannodd un darparwr arfer gorau ynghylch defnyddio profion 'dealltwriaeth ehangach' fel modd o asesu gallu dysgwyr, waeth beth fo'u cyrhaeddiad addysgol. Ar hyn o bryd, defnyddir y rhain gan y lluoedd arfog, a rhannodd y darparwr fanylion un system a gynigid.

Yn gyffredinol, teimlai darparwyr eu bod yn gweithio'n galed i wneud i'r system 'weithio' a bod hyn yn galw am fonitro'r cynnydd yn barhaus. Dyma oedd yr achos yn enwedig yn hanes cyflogwyr a oedd yn newydd i DYYG:

*"Rhaid sefydlu'r cleient yn ogystal â'r hyfforddai, does dim diben gwneud hanner y gwaith – rhaid i'r cyflogwr wybod beth yw eu sefyllfa a rhaid i ni roi llawlyfr iddyn nhw. …Cânt eu hadolygu bob wyth wythnos beth bynnag, felly … gallwch weld y cyflogwr a'r gweithiwr / hyfforddai yn y gweithle ac mae hynny'n gwrs sefydlu yn ei hun, mae'r broses adolygu'n mynd yn ei blaen, mae'n gyson, ond yw e? Mae'n fonitro (*ac yn*) adolygu cyson."*

*"O safbwynt cwmni newydd sy'n dod i'r blaen, (*rhaid*) i chi esbonio iddynt beth yw'r holl anghenion hyn, oherwydd os na wnewch hynny cyn iddynt gychwyn mae'n siŵr cyn wired â bod yr haul yn machlud y byddant yn gadael y rhaglen…Mae'n fanteisiol i ni sicrhau bod pawb yn deall y system, yn deall y byddant yn gwneud sgiliau allweddol, yn deall …bod yn rhaid iddynt wneud addysg bellach sydd weithiau'n fwgan i gwmnïau bach."*

## 3.3 Cymorth wrth ddysgu

### *3.3.1 Problemau*

Cododd Arolwg Cenedlaethol o Foddhad Dysgwyr yng Nghymru 2003 nifer o broblemau allweddol y mae dysgwyr DYYG yn eu hwynebu. Yn benodol, rhoddodd dysgwyr DYYG wybod am broblemau â:

- chydweddu'r cwrs ag ymrwymiadau gwaith (y soniwyd amdano gan 17%)
- cynnal safon y gwaith (16%)
- delio â phwysau arian (15%)
- cynnal cymhelliant personol (13%)
- neilltuo amser i'r cwrs ynghyd ag ymrwymiadau gartref (12%)

Cytunai'r darparwyr bod llawer o broblemau amrywiol, ac nad oedd un ateb yn unig; rhaid oedd delio â phroblemau'n unigol. Fodd bynnag, byddai aseswyr yn nodi dysgwyr â phroblemau ac, yn aml, golygai ffurfio perthynas agos rhwng y dysgwr a'r aseswr y gellid nodi problem yn gynnar a dod o hyd i ateb. Fel hyn, gwelwyd bod aseswyr yn allweddol i ganlyniad llwyddiannus.

*"Mae'n rhywbeth y dylai'r aseswr ei wybod … oherwydd os ydych yn gwneud eich gwaith yn iawn gall yr aseswr ddarllen y person ifanc ac os oes problem gellir ei nodi ar unwaith."*

*"Rwy'n cytuno â hynny am y dylai fod yn gyfrifoldeb i'r aseswr gael ei ddysgwr drwy'r fframwaith yn llwyddiannus."*

*"Rwy'n credu… bod mwyafrif (*yr aseswyr*) wedi bod yna felly mae ganddynt ddealltwriaeth well o beth mae'r bobl ifanc hyn yn ei brofi, lle ym maes addysg nid yw'r ddealltwriaeth honno, o angenrheidrwydd, ganddynt….Rydyn ni wedi bod yn y gweithle, wedi bod ym maes peirianneg, (*rydyn ni*) wedi wynebu'r materion hyn."*

*"Ac am ein bod yn gwmni bach… pan ddaw ein haseswyr yn eu holau byddwn yn ddieithriad yn siarad am waith, ac os oes pryder am unigolyn byddwn yn ei drafod yn agored ymysg yr holl staff (*i weld*) a oes unrhyw beth arall y gallwn ei wneud i helpu'r person ifanc hwnnw."*

Roedd darparwyr yn awyddus i gyfeirio at y ffaith mai eu grŵp dysgwyr nhw oedd yr unig un lle'r oedd y dysgwyr, yn gyffredinol, yn cael eu cyflogi a bod hyn yn cynnig heriau unigryw nad oedd yn rhaid i ddarparwyr AB a Chweched Dosbarth Ysgolion ddelio â nhw ar yr un raddfa. Felly, nid oedd dysgwyr yn delio ag astudio am gymwysterau'n unig, roedd ganddynt ofynion ychwanegol y fframwaith hefyd (e.e. sgiliau allweddol, tystysgrif dechnegol) ac, ar yr un pryd, roedd disgwyl iddynt gynnal swydd, gofalu am deulu, ac ati.

*"Mae'n wahanol pan ry'ch chi'n edrych ar AB; mae AB yn llinol, felly maent yn cychwyn ym mis Medi, maent yn gorffen ym mis Mai ac maen nhw'n mynd bant â*

*mwy na thebyg un, neu efallai ddau neu dri chymhwyster ond maent gyda ni rhwng 16-20 oed neu 18-22 oed. Neu maent yn dod yn bobl ifanc, ar ddechrau eu gyrfa ac yn ei adael mewn ffordd …yn fwy aeddfed ac mae'n rhaid i ni gadw eu diddordeb, rhaid i ni eu cadw'n frwdfrydig am bedair blynedd mewn peirianneg ac adeiladu, mae'n amser maith; … maent yn cweryla â'u cyflogwr, maent yn ffraeo, dydyn nhw ddim yn mynd i'r gwaith a'r holl broblemau hynny. Felly rwy'n credu ein bod ni'n gwneud gwaith eithriadol o dda mwn DYYG mewn gwirionedd!"*

Yn ogystal, teimlai darparwyr ei fod yn anos cyflawni'r fframwaith mewn rhai sectorau nag mewn rhai eraill. Er enghraifft, roedd Gofal yn sector lle ceid problemau â chadw dysgwyr. Roedd hyn yn sgil amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys proffiliau rhyw/oedran dysgwyr, symudiad gweithwyr rhwng swyddi, ac ati. Yn aml, roedd cyflawni'r fframwaith cyfan yn her, ond nid oedd y dysgwyr hyn yn cael gweithio'n gyfreithlon heb gymwysterau cydnabyddedig (CGCau).

Roedd sawl darparwr yn rhyfeddu at ganlyniadau'r arolwg a oedd yn cyfeirio at broblemau, yn enwedig ym meysydd llythrennedd a rhifedd; roeddent wedi disgwyl i gyfraddau'r dysgwyr a oedd yn cael y problemau hyn fod yn llawer uwch. Ysgogodd hyn ddadl ynghylch p'un a oedd dysgwyr mewn gwirionedd yn adnabod eu problemau a/neu a oeddent yn barod i gydnabod bod 'problem' ganddynt.

*"Byddent yn dweud 'na does dim problem gen i.'"*

*"Sy'n wahanol i nodi bod angen sgiliau sylfaenol arnoch…"*

*"Maent wedi cael blynyddoedd o ymarfer i ddelio ag ef."*

*"Ry'n ni'n gofyn i golegau sawl un y nodwyd bod angen cymorth sgiliau sylfaenol arnynt mewn grŵp blwyddyn, a sawl un sy'n ei gymryd, ac mae'r ail yn tueddu i fod yn isel iawn am ei fod yn ddewisol … allwch chi mo'u gorfodi."*

Yn ogystal â'r cyfathrebu rhwng y dysgwr a'r aseswr, gweithredwyd systemau i'r dysgwyr roi gwybod i ddarparwyr am eu problemau ac i ddarparwyr nodi problemau eu hunain. Amrywiai'r systemau, ond yn gyffredinol roeddent yn cynnwys y canlynol:

a. *Cyfathrebu â'r Cyflogwr*
   Os oedd dysgwr yn gyson yn peidio â bod yn bresennol yn y coleg er enghraifft, byddai darparwyr yn cysylltu â'r cyflogwr i ymchwilio a oedd y diffyg presenoldeb yn gysylltiedig â'r gwaith. Fel hyn, byddai'r cyflogwr yn parhau i fod yn ymwneud yn llawn â'r sefyllfa ac yn rhan o unrhyw ateb yr oedd angen ei ddatblygu.

b. *Gwahardd Dysgu Dros Dro*
   Gellid gwahardd addysg dysgwyr â chanddynt broblemau penodol (e.e. y rheiny a oedd yn cael problemau ariannol, neu'r rheiny na allai gael lle ar gwrs tystysgrif dechnegol ar adeg arbennig) dros dro. Yn dilyn dyddiadau adolygu y cytunwyd arnynt, gallai'r dysgwr ddychwelyd i'w raglen yn y dyfodol. Fodd bynnag, roedd teimlad nad oedd yr iaith dechnegol a ddefnyddiwyd yn yr achosion hyn (h.y. 'gwahardd' dysgwr') o gymorth, am fod ganddi arwyddocâd negyddol ac efallai y dylid datblygu ymadroddion mwy cadarnhaol.

c. *Gweithdrefn Gwyno*
   Roedd yr holl ddarparwyr yn gweithredu gweithdrefnau cwyno cadarn, a gallai eu dysgwyr, yn ogystal â'r cyflogwyr, gael mynediad at y rhain yn eang drwy ystod o fformatau. Er enghraifft, esboniwyd y rhain yn y cwrs sefydlu yn ogystal ag yn y llenyddiaeth a gynigid i'r ddwy blaid. Roedd teimlad y byddai dysgwyr a chyflogwyr yn defnyddio'r sianelu hyn pan oedd eu hangen. Ymchwiliwyd i'r cwynion a, lle'r oedd yn bosibl, byddai darparwyr yn gweithredu newidiadau os gallai hynny wella'r gwasanaeth ac os yr oedd yn ymarferol yn eu hamgylchedd hwy.

### 3.3.2 Cymorth i Ddysgwyr

Roedd darparwyr DYYG wedi ymrwymo i fodloni anghenion eu grŵp cleientiaid ac ennill llwyddiant i'w dysgwyr. Roeddent wedi gweithio'n galed i sicrhau y gweithredid systemau cymorth, ond cyfeiriai rhai o'r cynrychiolwyr yn y gweithdai bod yr anghenion cymorth yn amrywio yn ôl anghenion y dysgwyr unigol, a thrwy hynny roedd yn cynnig heriau gwahanol (ac, yn aml, cynyddol) i rai darparwyr. Er enghraifft, rhai o'r grwpiau anoddaf i'w rheoli oedd y rheiny o gefndir mewn diweithdra a oedd yn dysgu er mwyn cyflawni anghenion budd-daliadau; ond

roedd gan lawer o'r unigolion hyn broblemau cymdeithasol a oedd yn gofyn am strategaethau rheoli penodol.

Roedd Rhaglen Sefydliad Pacific yn un o'r mecanweithiau a oedd yn llwyddiannus ar gyfer y grŵp hwn. Dyluniwyd y cyfnod sefydlu estynedig hwn, a gyflwynwyd fesul cam, i ddatblygu hunan-barch a hyder a thrwy hynny gynyddu ymrwymiad dysgwyr i'w rhaglen.

*"Yr hyn a gynigir gennym yw rhaglenni camau Sefydliad Pacific sy'n rhaglen a Americaneiddiwyd yr ydym wedi bod yn ei chynnig ers llawer iawn o flynyddoedd erbyn hyn; daw pobl ddi-waith atom - yn ystod yr wythnos gyntaf ceir y cwrs sefydlu, ac yn yr ail wythnos ceir cwrs Sefydliad Pacific … mae'n dda iawn, iawn. Mae'n gwrs a gyflwynir, fel arfer, i grŵp o ryw 8 person; mae'n wych ar gyfer codi hunan-barch, hyder, cymhelliant ond yr hyn mae'n ei wneud yw dod â phopeth i'r amlwg mewn perthynas â rhwystrau unigolion… (*Wrth ystyried*) rhwystrau i ddysgu â phobl ddi-waith…rwy'n credu bod hwn yn grŵp anferth ar gyfer y dyfodol…ac, yn syml, does gennym ni mo'r adnoddau i ymdrin ag ef."*

Unwaith eto, gwelwyd bod y berthynas rhwng dysgwyr a hyfforddwyr/aseswyr yn allweddol. Yn aml, ffurfiwyd cysylltiadau agos, ac yn fynych dibynnai'r dysgwyr hyn ar eu haseswyr am gymorth ac anogaeth; teimlid bod mwy o fewnbwn ac adolygiadau un-i-un i'r dysgwyr hyn nag a ddarperid mewn AB. Fodd bynnag, tueddai ariannu i dra-arglwyddiaethu ar unrhyw drafodaethau am wella cefnogaeth. Roedd llawer o ddarparwyr am i ELWa adfer asesiad cychwynnol estynedig a ariennid (13 wythnos), heb unrhyw adlach ar ddarparwyr pe bai dysgwyr yn tynnu'n ôl yn ystod y cyfnod hwn.

Ystyrid bod mentoriaid yn y gweithle yn ddefnyddiol hefyd, a cheisiai llawer o ddarparwyr nodi unigolyn a allai berfformio'r rôl hon i ddysgwr newydd.

*"Rhoddir mentor i ddysgwr ar y cychwyn cyntaf un fel petai'n ymagwedd o'r crud i'r beth, ch'mod, mae ganddyn nhw berson sy'n … eu cefnogi nhw drwyddi draw."*

Er y teimlai mwyafrif y darparwyr nad eu swyddogaeth hwy oedd cynnig cyngor i ddysgwyr cytunai llawer bod hyn yn digwydd i raddau amrywiol, ac yn aml y cyfnod interim rhwng nodi problem a chanfod cymorth proffesiynol oedd y cyfnod mwyaf heriol.

*"Yn sicr, mae fy staff yn gynghorwyr yn ogystal ag yn diwtoriaid, oherwydd os oes problemau eraill ganddynt hefyd ry'ch chi'n treulio llawer iawn o amser yn rhoi cyngor."*

*"Mae gen i berson ifanc nawr sydd wedi dod i mewn ac mae wedi cael ychydig o broblemau â chyffuriau a'r holl bethau eraill, ry'n ni'n cyfeirio'r rheiny i'r cyfeiriad iawn at y person y mae angen iddynt ei weld, y rhai cymwysedig, ond rwy'n sôn am y cyfnod yn y cyfamser … yn bennaf mae'n achos o'ch bod chi'n cysylltu â'r person cymwys, y bobl broffesiynol, ac mae'n cymryd wythnosau iddyn nhw ddod i mewn, felly mae gennych chi'r cyfnod yn y cyfamser."*

*"Mae'r hyn a ddywedir wrthych yn eithaf brawychus weithiau."*

Yn gyffredinol, roedd gan golegau fynediad i wasanaethau cymorth canolog ond nid oedd y rhain mor hawdd mynd atynt i ddarparwyr hyfforddiant preifat. Datgelodd trafodaethau am newidiadau yn yr Agenda 14-19 a darpariaeth hyfforddwyr dysgu bod rhai darparwyr yn aneglur ynghylch sut y byddent yn cael mynediad at yr unigolion hyn:

*"I ble yr ewch chi i gael yr hyfforddwr dysgu yna? Rhaid i ni gael y wybodaeth hynna er mwyn tynnu arni."*

Disgrifiodd un darparwr sut roedden nhw'n sicrhau bod pob dysgwr yn ymwybodol o bwy i gysylltu â nhw pe bai problem ganddynt. Ar holiadur a anfonwyd i'r holl ddysgwyr dair wythnos ar ôl cychwyn eu rhaglen, roedd cwestiwn penodol ynghylch at bwy y byddent yn mynd petai angen cymorth arnynt. Ar sail yr ymateb i'r arolwg, roedd y darparwr yn gallu sicrhau bod personél allweddol yn ymwybodol o sut i ddelio â phroblemau. Yn ogystal, lle nad oedd dysgwyr yn gallu nodi rhywun i fynd atynt byddai'r darparwr yn nodi rhywun penodol ar eu cyfer, fel bod proses clir i'r holl ddysgwyr.

*"Mae'n eu hatal rhag tynnu'n ôl o'r rhaglen, felly mae'n ein helpu â'n cyfraddau gadael ac felly ry'n ni'n gweld os oes rhywun yn dychwelyd holiadur i ni nad yw wedi'i gwblhau…wedyn ry'n ni'n cytuno ar bwy y mae'n rhaid iddynt gysylltu â nhw os oes problem ganddynt ag amser i ffwrdd neu os oes problemau ganddynt sy'n ymwneud â hyfforddi; ry'n ni'n gweld hynny'n weddol effeithiol… Felly, dydyn ni ddim yn poeni os yw'n oruchwyliwr yn y gwaith neu beth bynnag ry'n ni'n eu galw yn SCCau, swyddogion cyswllt cyflogwyr, cyhyd â'u bod yn gwybod ac yn cydnabod bod rhywun y gallant fynd ato i siarad os oes problem ganddynt."*

Mater arall sy'n gysylltiedig â chymorth oedd y cyfle am adolygiad gan gyfoedion. Mae dysgwyr yn elwa ar gyfleoedd i gwrdd â dysgwyr eraill a rhannu eu profiadau. Gyda chyflogwyr llai ac, yn enwedig, sectorau llai (e.e. gweinyddiaeth fusnes) roedd y cyfleoedd i wneud hyn yn gyfyngedig, gan y treuliwyd mwyafrif amser hyfforddi'r dysgwyr yn y gweithle. Awgrymwyd y byddai cynnwys hyn yn y profiad dysgu yn fanteisiol i'r holl hyfforddeion.

Hefyd, cafwyd y mater parhaus o gadw mewn cysylltiad â'r dysgwr a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r cyflogwr. Roedd mwyafrif y darparwyr yn defnyddio system ddyddiadur gyda chyflogwyr gyda'r nod o fod mor hyblyg â phosibl, ond roedd yn anorfod bod weithiau broblemau gyda chyflogwyr heb fod ar gael ar y funud olaf. Unwaith eto, cyfathrebu oedd yr allwedd.

*"Mae'n fater o gyfathrebu â'r cyflogwr a'r unigolyn; ry'n ni'n sefydlu dyddiadur ar y cychwyn ac, yn amlwg, ry'n ni'n ceisio glynu at hynny mor agos â phosib' ond os ceir newidiadau, ailstrwythuro ac aildrefnu i gyd-fynd â hynny ac os nad yw'r cyflogwr am wneud hynny, maent yn dweud wrthych … mae'n ymwneud â chyfathrebu."*

*"Pan ry'n ni'n sefydlu'r CGC… ry'n ni'n rhoi dyddiadur llawn ac ry'n ni wastad yn cysylltu â'r cyflogwr ddau ddiwrnod ymlaen llaw i ddweud 'edrychwch, a yw hyn yn iawn, ac a oes unrhyw broblemau fel cyfrif stoc, a fydd yn iawn rhyddhau'r bobl os ydyn ni'n gwneud hynny' neu os yw'n sefyllfa lle maen nhw ar sifftiau...byddwn yn trefnu i'n haseswr ni fynd i mewn yn ystod sifft nos neu beth bynnag … Rydyn ni'n hyblyg iawn ac un o'r pethau allweddol yw ein bod yn gweithio'n agos iawn iawn â'r cyflogwyr ar y materion hyn."*

*"Dyna lle mae pwysigrwydd y mentor (*yn dod i'r amlwg*)…oherwydd os dwi'n ffonio cwpl o ddyddiau ymlaen llaw er 'mod i eisoes wedi trefnu apwyntiad ymhell cyn hynny ac yn dweud 'gofalwch fod gan yr holl bobl ifanc hyn eu llyfrau log a bod eu croesgyfeiriadau'n barod ganddyn nhw', fel bod y cyflogwr yn gwybod beth sy'n bwysig hefyd a'i fod yn gwybod pwy sydd heb fod yn bresennol neu fel arall, does dim modd colli; mae'n cynnwys pawb."*

### *3.3.3 Y Rhai sy'n Gadael yn Gynnar*

Roedd canlyniadau Arolwg Cenedlaethol o Foddhad Dysgwyr yng Nghymru 2003 yn dangos bod 21% o ddysgwyr DYYG wedi meddwl o ddifrif am adael eu cwrs. Roedd consensws ymysg yr holl ddarparwyr eu bod yn gweithio'n ddiwyd i gadw dysgwyr; roedd hyn yn effeithio'n uniongyrchol ar eu mesuriadau perfformiad.

*“Rhaid i chi ei gael yn iawn o’r diwrnod cynta’n deg.”*

*“Rhaid i chi gael trefn o asesu cychwynnol gadarn iawn.”*

Roedd cytuno bod cefndiroedd dysgwyr a gweithwyr, ar y cyfan, yn cael eu harchwilio’n drwyadl. Tueddai problemau godi ar ôl i gyflogwyr lofnodi i fod yn rhan o raglen am fod ganddynt, fel a drafodwyd eisoes, ddiddordeb mewn rhan o’r fframwaith yn unig (e.e. y CGC) a gallai hyn arwain at broblemau i rai dysgwyr o ran cwblhau’r rhaglen. Barnwyd bod hyn yn fwy o broblem â chyflogwyr llai a’r rheiny a oedd yn newydd i raglenni DYYG.

Teimlai rhai darparwyr y gallai baich y ddogfennaeth/gweinyddu ar gyflogwyr gyfrannu at nifer y rhai a oedd yn rhoi’r gorau iddi hefyd. Efallai y byddai’r ‘cofrestru’ cychwynnol yn cymryd rhwng 4 awr a diwrnod, ond ni fyddai cyflogwyr yn ymrwymo i’r cyfnod hwn bob tro (“*mae amser yn gostus”*). Am yr un rheswm, gallai mynediad i ddysgwyr fod yn anodd os nad oedd cyflogwyr yn fodlon eu rhyddhau o’u gweithlu er mwyn eu hasesu.

Fodd bynnag, roedd consensws cyffredinol hefyd bod dysgwyr a oedd yn gadael eu rhaglenni, yn gyffredinol, yn gwneud hynny am resymau y tu hwnt i ddylanwad y darparwr. Nodwyd y rhesymau canlynol:

- Y dysgwr yn symud o’r ardal
- Y dysgwr yn symud i swydd arall (yn gyffredin mewn sectorau fel lletygarwch)
- Rhesymau personol e.e. beichiogrwydd

*“Does gennym ni ddim rheolaeth dros (*ddiswyddiad*), ry’n ni’n ceisio dod o hyd i waith arall iddyn nhw ond unwaith eto ry’n ni’n delio â gweithgynhyrchu; mae’n un o’r sectorau tlotaf.”*

*“Ond dy’ch chi byth yn mynd i’w gael yn union gywir. Roedd y person ifanc ‘ma ar y marc gyda’i holl alluoedd academaidd, roedd yn ymddangos fod ei agwedd yn iawn, roedd ei gwestiynau’n iawn, roedd ei frwdfrydedd yn ymddangos yn iawn ac ar ôl chwech mis daeth aton ni a dweud “’drychwch, dw’i ddim am ei wneud e rhagor, dim ond am fod mam a dad am i mi ei wneud roeddwn i’n ei wneud”. Ch’mod, allwch chi ddim paratoi ar gyfer hynny.”*

Teimlai darparwyr eu bod yn gwneud popeth posibl i gadw cysylltiad â'r dysgwyr a oedd yn gadael yn gynnar *("rydyn ni bron â bod yn eu dilyn nhw!")*, a throsglwyddo eu haddysg i gyflogwr gwahanol lle roedd yn bosib'.

*"Rwy'n credu yn y pen draw eich bod chi yna ar eu cyfer nhw; y prif reswm y mae pobl yn gorffen yn gynnar … diswyddiad neu newid gwaith; os ceir newid gwaith yna bydden ni'n eu holrhain ac ry'n ni wedi cael tipyn o lwyddiant mewn cwblhau CGCau mewn cyflogaeth wahanol, mewn diwydiant tebyg neu gwmni gwahanol a chanlyniad arall i hynny yw ein bod wedi cael cyfleoedd pellach i gymryd mwy o hyfforddeion."*

Roedd dysgwyr a oedd yn gadael yn gynnar yn broblem benodol i ddarparwyr DYYG o ran cyrraedd eu targedau. Golygai'r ffaith bod y rhesymau dros adael yn gynnar, yn aml, y tu hwnt i'w rheolaeth, a'u bod yn delio â grŵp o ddysgwyr a oedd yn fynych dan bwysau gwahanol i'r rheiny mewn AB neu Chweched Dosbarth mewn Ysgolion, bod llawer o ddarparwyr o'r farn fod y system bresennol o gyfrif dysgwyr a oedd yn gadael yn gynnar yn erbyn eu targedau, yn annheg.

*"Cofrestron ni 12 mewn cwmni … ac yna aeth y cwmni ar dân; …roedd gynnon ni gontract â nhw … methu parhau â'r hyfforddiant, yna cawsant eu gwahardd rhag gweithio tan aeth y ffatri yn ei hôl, ond cawsant eu cyfrif fel dysgwyr a oedd wedi gadael yn gynnar, beth alla' i 'i wneud?"*

### *3.3.4 Dysgwyr Ifanc*

Fel grŵp cyffredinol, roedd y rheiny rhwng 16 – 18 oed yn fwy tebygol na'u cymheiriaid hŷn o fod wedi cael problemau penodol mewn cysylltiad â chamddefnyddio cyffuriau a bod yn ddigartref. Roeddent yn rhy ifanc i gael budd-daliadau diweithdra ond roedd llawer ohonynt yn dilyn DYYG er mwyn bod yn gymwys am fudd-daliadau eraill. Wrth ddelio â'r grŵp hwn, roedd staff yn treulio llawer o amser yn delio â phroblemau cymdeithasol neu ymddygiadol yn hytrach nag addysgu. Roedd angen cymorth ar staff wrth ddelio â'r dysgwyr hyn, ac yn gyffredinol darparwyd hwn gan eu cydweithwyr.

Ymddangosodd gwrywod rhwng 16 – 18 oed yn grŵp problemus penodol i rai darparwyr yn ystod y grwpiau trafod. Cydnabuwyd gan lawer ohonynt ei fod yn fwy anodd i gael sylw'r grŵp hwn na merched o'r un oedran. Nid oedd llawer o fentrau penodol yn cael eu gweithredu, ac eithrio ceisio adeiladu cysylltiadau

cryf, hyder ac ymddiriedaeth (sy'n dangos pwysigrwydd y berthynas rhwng aseswr a dysgwr), ond soniodd sawl darparwr am bwysigrwydd dod o hyd i'r cyflogwr 'cywir' ar gyfer lleoliadau. Tueddai'r rhain fod yn gyflogwyr a oedd yn fodlon dyfalbarhau â'r dysgwr a'i annog, ac felly nodweddion cyflogwyr oedd yn bwysig a'u gallu i ymddwyn fel patrwm o ymddygiad neu i gyflawni swyddogaeth dadol ar gyfer y dysgwr hwnnw.

Teimlwyd bod problemau'r grŵp hwn, yn gyffredinol, yn gysylltiedig â'u profiadau yn y cartref, yn yr ysgol ac ymysg eu cyfoedion. Roedd llawer o'r dysgwyr yn y grŵp hwn yn unigolion di-waith y drydedd genhedlaeth, ac felly roedd prinder patrymau cadarnhaol o ymddwyn ar eu cyfer. Er gwaethaf eu hymroddiad a'u hymrwymiad, amlygodd rhai darparwyr eu bod yn ei chael yn anodd delio â rhai o'r problemau a ddaethai i ran y bobl ifanc hyn.

Profiad rhai darparwyr oedd bod gwrywod ifanc yn llai adeiladol o ran cynnig adborth o'u cymharu â'r merched, a bod hyn yn ei wneud yn fwy anodd delio â'u materion penodol:

*"Gan mwyaf, mae adborth (*y merched*) wastad yn adeiladol, lle bydd y gwrywod yn canfod problem ac yn dweud "atebwch chi'r broblem neu beth bynnag"; o leiaf pan fydd y merched yn darganfod problem maent yn dweud "pam na wnawn ni hwn fel hyn?""*

Roedd dysgwyr aflonyddgar yn bwnc a godwyd mewn rhai grwpiau, ac yn aml roedd yn gysylltiedig â dysgwyr gwryw ifanc â chanddynt broblemau cymdeithasol ehangach. Weithiau, roedd y dysgwyr hyn wedi cael eu gwahardd o'r ysgol:

*"Mae'r darparwyr hyfforddiant yn gofalu am y dysgwyr 14,15,16 oed sydd wedi'u gwahardd o'r ysgol ond does unman i'r darparwr hyfforddiant eu gwahardd ohono. Mae'n edrych yn debyg mai dyna lle maen nhw'n mynd yn y pen draw."*

Gwelwyd y problemau a wynebid gan ddysgwyr gwryw ifanc yn rhywbeth yr oedd angen ei drafod yn llawer ehangach, ac roedd canllawiau arfer gorau yn faes y byddai rhai darparwyr a oedd yn delio â dysgwyr ifanc yn cael budd ohono.

### 3.4 Ansawdd yr Hyfforddiant

Roedd y sgoriau boddhad cyffredinol o Arolwg Cenedlaethol o Foddhad Dysgwyr yng Nghymru 2003 ar gyfer DYYG yn gadarnhaol tu hwnt. Roedd mwy nag un o bob pump (22%) yn hynod fodlon ag ansawdd yr addysg ac roedd 92% yn gyffredinol yn fodlon. Teimlai darparwyr y gallai hyn fod yn gysylltiedig â dewis pendant a wnaed gan rai dysgwyr:

*"Maent yn mynd i Chweched Dosbarth Ysgol am fod eu rhieni wedi dweud wrthyn nhw "rwyt ti'n mynd". Felly, ar ôl iddyn nhw fynd yno maen nhw'n gweld yn ddiweddarach na allan nhw mo'i ddioddef ond yn achos DYYG maen nhw'n mynd i mewn â'u llygaid ar agor."*

Yn gyffredinol, nid oedd fawr o syndod pan gyflwynwyd y canlyniadau. Yn wir, teimlai rhai darparwyr bod y darganfyddiadau'n cydberthyn yn dda â'u harolygon mewnol eu hunain o ddysgwyr. Er enghraifft, credai darparwyr y golygai'r broses asesu cychwynnol eu bod yn perfformio'n weddol dda o ran deall y dysgwr, sut yr hoffent ddysgu, a'r cyflymder dysgu a oedd yn well ganddynt.

*"Mae gynnon ni broses asesu cychwynnol, mae gynnon ni holiadur arddull dysgu ac ry'n ni'n dadansoddi hwn i weld sut maen nhw'n hoffi dysgu orau ac ry'n ni'n trafod hynny â'r dysgwr."*

Ystyriwyd bod dod o hyd i atebion i'r materion sy'n ymwneud â recriwtio a chadw hyfforddwyr ac aseswyr yn allweddol i wella lefelau boddhad yn y dyfodol. Fodd bynnag, yn yr un modd â phynciau eraill a drafodwyd, roedd cwestiynau am ariannu yn tanategu cynnydd pellach.

Yn ogystal, teimlid yr effeithid yn negyddol ar brofiadau dysgwyr weithiau gan fod ymrwymiad eu cyflogwr yn pylu. Er enghraifft roedd rhai cyflogwyr, wrth wynebu pwysau eu busnes, yn anfodlon rhyddhau eu gweithlu ar gyfer asesiadau neu hyfforddiant, gan amharu ar eu gallu i ddatblygu.

*"Os aiff (*ein haseswyr*) i mewn i wneud (*asesu*) yn y gwaith, hyd yn oed os y trefnwyd dyddiad, os aiff rhywbeth o'i le mae'r cyflogwr yn eu hanfon oddi yno; peidiwch â'u cadw yno os oes argyfwng; anfonwch nhw ymaith ac ail-drefnu am na fyddai ond yn niweidiol i'r canlyniad mewn gwirionedd; arsylwi yw'r allwedd …Ac mae'n fwy hanfodol erbyn hyn, nawr bod nodi'r cyfnod hwyaf sy'n bosibl … allwn ni ddim fforddio aros o gwmpas."*

Ynglŷn â mater tebyg, cwynodd rhai darparwyr y gallai'r amser yr oedd arnynt ei angen i gynnal profion achosi problemau â chyflogwyr. Roedd gan ddysgwyr hawl cytundebol i gael amser i ffwrdd i astudio ac i sefyll arholiadau, ond gallai hyn fod yn anodd ei reoli lle'r oedd dysgwyr yn gweithio sifftiau. Codwyd y cwestiwn ynghylch cyfrifoldeb pwy oedd dod i gytundeb ynghylch yr amser hwn â'r cyflogwr – y dysgwr neu'r darparwr? Profiad rhai darparwyr oedd er bod cyflogwyr yn cofrestru ar gyfer yr ymrwymiad hwn, pan ddoi'r amser astudio, roeddent yn anfodlon rhyddhau eu hyfforddeion. Os nad oedd y broses hon yn cael ei rheoli'n sensitif, roedd darparwyr mewn perygl o golli cyflogwr ar gyfer cytundebau hyfforddi yn y dyfodol, neu hyd yn oed beryglu cyflogaeth dysgwyr.

Felly, wrth ddatblygu pethau, fe'i hystyriwyd yn bwysig bod cyflogwyr yn rhan o'r broses, fel y gallent ddeall anghenion y dysgwyr.

Defnyddiwyd y dechneg ystadegol o atchwelyd i nodi meysydd o'r arolwg a allai effeithio'n gadarnhaol ar lefelau boddhad dysgwyr yn y dyfodol.

Amlygodd y dechneg hon agweddau gwahanol addysgu a'u pwysigrwydd o ran y sgôr boddhad cyffredinol. Trwy blotio'r elfennau gwahanol hyn yn erbyn sgoriau perfformiad pob elfen addysgu (h.y. fel y'u graddiwyd gan ddysgwyr) gellid nodi'r meysydd hynny a fyddai'n cael yr effaith mwyaf ar foddhad dysgwyr yn y dyfodol.

Rhestrir y meysydd blaenoriaeth ar gyfer gweithredu isod, ac roedd y rhain yn ffurfio sylfaen y drafodaeth am sut i wella graddau boddhad yn y dyfodol:

- Gosod targedau clir
- Defnyddio'r sesiynau'n dda
- Y cymorth y maent yn ei roi i chi
- Adborth cyflym a rheolaidd
- Gwneud y pwnc yn ddiddorol ac yn hawdd i'w fwynhau

Wrth sôn am adborth, roedd teimlad er bod rhai aseswyr yn ymdrechu i sicrhau bod dysgwyr yn ymwybodol o'u cynnydd eu hunain, efallai nad oedd rhai dysgwyr (yn enwedig y rheiny â gallu is) yn adnabod hyn fel 'adborth' ynddo ei hun.

*"Rwy'n credu y byddai prentis Lefel 3 yn deall os yw'n cael adborth, ond pe baech yn siarad â rhywun ar Lefel 1 am adborth efallai na fydden nhw'n deall eich bod, mewn gwirionedd, yn rhoi adborth."*

*"Rwy wedi bod yno pan ry'n ni wedi gwneud ansawdd neu archwiliad, aeth yr aseswr i mewn o 'mlaen i a dweud dwi'n mynd i gynnal proses adolygu (*wrth yr*) ymgeisydd. Es i i mewn ar ei ôl a gofyn iddyn nhw "a ydych chi wedi cael eich adolygu?","Na", "Dw'i newydd eich gwylio'n cael eich adolygu", "Na, dw'i erioed wedi cael adolygiad". Ac roedden nhw wedi llofnodi cofnod yr adolygu a dweud eu bod wedi cael eu hadolygu … doedden nhw ddim yn amgyffred y peth o gwbl."*

*"Mae natur CGCau yn rhoi cysyniad adborth iddyn nhw … Y ffaith yw efallai na fyddant yn sylweddoli hynny ar gyfer yr arolwg."*

Fodd bynnag, cytunai rhai darparwyr y gallai aseswyr, mewn rhai achosion, wneud mwy i gynnig adborth cyflym.

*"Mewn rhai achosion byddai'r aseswyr yn cynnal asesiadau ond fydden nhw ddim, o angenrheidrwydd, yn rhoi adborth i'r dysgwr tan iddyn nhw fod wedi ysgrifennu'r asesiad hwnnw mewn gwirionedd … efallai ein bod yn gwerthfawrogi bod yn rhaid (*i aseswyr*) fynd yn ôl ac ysgrifennu dogfennaeth asesu ond (*y dylen nhw*) yn syml roi digon o adborth iddyn nhw (*ar unwaith*), ac efallai mai dyna un o'r rhesymau yr ymddangosodd yn gryf o ran adborth ar yr arolwg."*

O ran gosod targedau, rhannai darparwyr arfer gorau am y modd roeddent yn rheoli'r broses hon. Yn gyffredinol, cytunwyd bod gosod targedau 'byr, sydyn' yn ffordd dda o sicrhau bod dysgwyr yn gallu dilyn eu cynnydd eu hunain, a bod hyn hefyd yn gwneud y broses yn hawdd i'w reoli i'r aseswr. Fodd bynnag, roedd yn broses ddwyffordd ac roedd angen i'r ddwy ochr gymryd cyfrifoldeb:

*"(*Gyda'r*) CGC mae'n rhaid i chi gael cymhwysedd dair gwaith ar hyd y ffordd … bydd aseswr da yn ceisio trosi hynny yn dargedau byr, sydyn fel eu bod yn gwybod ymhle y maen nhw drwy'r amser…Rwy'n credu ei fod yn wirioneddol bwysig i ddysgwyr; os ydyn nhw'n rhoi pedair blynedd o'u bywyd i hyfforddiant, maen nhw'n haeddu cael gwybod yn union sut maen nhw'n gwneud a beth yw eu sefyllfa ar unrhyw adeg benodol."*

*"Cyhyd â bod yr aseswr yn rhoi gwybod iddyn nhw yn union beth a ddisgwylir ganddyn nhw erbyn adeg benodol, gan osod cynlluniau gweithredu bach iddyn nhw i'w gwneud ac yna ymweld â nhw yn rheolaidd, gan ddangos iddyn nhw eu bod yn cyflawni ac os nad ydyn nhw'n cyflawni gofyn iddyn nhw beth yw'r*

*rheswm a gofyn i'r cyflogwr pam nad ydyn nhw o'r farn ei fod yn bosibl gwneud hyn …Dyna beth yw adolygu a monitro'r cynnydd."*

*"Rhan o fy rôl (*fel rheolwr contractau*) yw sicrhau bod pawb yn cael ei ddilyn …ond nid yw offer gweinyddu'n ddigon … rhaid i'r aseswr fod yn gwbl gyfrifol ac yn cadw rheolaeth ac yn llwyr gyfrifol am ei ddysgwyr penodol ef."*

*"Rwy'n credu bod yn rhaid iddo fod yn rhywbeth dwyffordd; …(*rhaid*) i'r person ifanc fod am ei yrru hefyd."*

Rhan allweddol o'r broses hon, fodd bynnag, oedd sicrhau bod y dysgwyr a'r cyflogwyr yn deall sut oedd rhannau gwahanol o'r fframwaith yn cyd-fynd.

*"Yr hyn sy' wedi dod yn bwysicach … yn enwedig ers cyflwyno'r dystysgrif dechnegol, yw bod y dysgwr a'r cyflogwr yn deall y cysylltiad – y rheswm dros wneud y dystysgrif dechnegol, sut mae'n effeithio ar y CGC …Maen nhw'n dod i'r coleg i'r dosbarth hwn, maen nhw'n gwneud y BTEC neu beth bynnag ac yn dweud "beth ddiawl ydw i'n 'i wneud yma – byddai'n well gen i fod 'nôl yn y gwaith yn gwneud beth rwy'n 'i wneud" – ond mae'n wirioneddol bwysig bod … yr aseswr yn sicrhau bod y cyflogwr a'r dysgwr yn deall y cysylltiad rhwng hyfforddiant wrth y gwaith a hyfforddiant ymaith o'r gwaith ac rwy'n credu mai rhywbeth y mae Estyn wedi ei ddarganfod yw, fel darparwyr, ein bod ni'n gallu gwneud hynny'n dda iawn."*

Wrth ystyried cefnogaeth, fel a drafodwyd eisoes, teimlai darparwyr eu bod yn cynnig llawer iawn o gymorth o fewn eu cyfyngiadau ariannol presennol. Fodd bynnag, awgrymwyd na fyddai rhai dysgwyr, yn syml yn deall cysyniad cefnogaeth, hyd yn oed pan oedd ar gael iddynt yn eang:

*"Os …nad yw rhywun yn cyflawni neu fel ry'ch chi'n dweud na roddir gwybod iddyn nhw eu bod yn cyflawni, dydyn nhw ddim yn dod atom ac yn dweud "na, dw'i ddim yn cael llawer o gefnogaeth"…. Os nad ydyn nhw'n cyflawni efallai y byddan nhw'n ei chael yn ddiawledig o anodd, ry'ch chi'n gwybod, mae'n rhaid i chi gadw llygad barcud amdano."*

## 3.5 Rheoli Hyfforddiant

Roedd y rhan hon o'r drafodaeth yn cynnwys materion rheoli sy'n gysylltiedig â hyfforddiant. Crynhoir sgoriau Arolwg Cenedlaethol o Foddhad Dysgwyr yng Nghymru 2003 ar gyfer rheoli hyfforddiant dysgwyr DYYG isod. Y rhain oedd sylfaen y drafodaeth.

| **Agwedd ar y Rheolaeth**<br>Sylfaen: Holl ymatebwyr DYYG (1000) | **% y dysgwyr yn sgorio 9 neu 10 allan o 10** |
|---|---|
| Gweld yr un aseswr drwyddi draw | 55 |
| Aseswyr yn bresennol fel a drefnwyd | 51 |
| Helpu pobl i ymsefydlu | 45 |
| Digon o hyfforddwyr/aseswyr ar gael | 44 |
| Cynnig cefnogaeth ar gyfer problemau | 43 |
| Rheoli amserlenni | 41 |
| Rhoi gwybod am newidiadau | 34 |

### *3.5.1 Cydnabod a Gwobrwyo Aseswyr*

Mae diffyg adnoddau, yn enwedig ar ffurf staff, yn effeithio ar ansawdd yr hyfforddiant a chysondeb yr hyfforddiant/asesu. Cwynai rhai darparwyr bod cytundebau'n rhy fyr. Golygai'r ffaith eu bod ond yn gallu cynnig cytundebau tymor byr i'w staff eu hunain eu bod yn colli pobl dda i swyddi a oedd yn cynnig mwy o sicrwydd.

*"Mae'n amlwg ein bod ni'n ymdrechu i gael yr adnoddau gorau a'r arbenigwyr gorau yn y maes hwn ac mae'n anodd gyda golwg ar y broses gontractio sydd ar sail flynyddol hefyd, a hyd yn oed yn llai na hynny ar adegau pan fydd pobl am gontractau pedwar mis. Mae'n hynod o anodd i reolwyr gynllunio ymlaen ac adeiladu'r adnoddau hynny."*

Ar hyn o bryd nid oes cydraddoldeb cyllid, yn enwedig mewn perthynas â hyfforddi a datblygu staff. Rhoddir ffrwd ariannu wahanol i'r sector AB ar gyfer datblygu staff nad oes gan ddarparwyr DYYG preifat fynediad ati (daw eu cyllid hwythau drwy grantiau dysgwyr). Yn ogystal, roedd darparwyr am wybod i ba lefel y disgwylid iddynt hyfforddi eu staff, a gofynnont am arweiniad gan ELWa a'r CSSau.

*"Mae'r safonau cymhwyso sy'n ofynnol yn ormodol. Er enghraifft, erbyn hyn dylai'r holl athrawon feddu ar gymhwyster addysgu ac … mae hynny'n gwthio'r gost i fyny ar gyfer AB a DYYG. Mae'r gost o dalu premiwm am diwtoriaid dwyieithog ar gyfer … mae'r rhain yn faterion dyddiol a fydd yn effeithio ar… recriwtio staff o ansawdd uwch."*

Teimlwyd bod hyfforddwyr ac aseswyr yn cael eu talu'n wael a bod ganddynt swyddi llawn pwysau. Ystyriwyd bod hyn yn effeithio ar recriwtio staff a'u cadw.

Yn wir, mewn rhai sectorau (e.e. plymio), gallai aseswyr ennill mwy o arian trwy wneud y swydd ei hun. Teimlwyd y gallai mynediad gwell i hyfforddiant a datblygiad ddenu staff posibl. Yn gyffredinol, cytunai darparwyr bod eu staff o dan lawer o bwysau, o ran cyrraedd targedau ar y naill law a delio â grŵp dysgwyr a chanddynt, yn aml, yr angen am gefnogaeth fugeiliol mewn ffordd nad oedd ei hangen ar grwpiau eraill, ar y llaw arall.

*"Mae angen grŵp cymorth arnon ni!"*

Credai cynrychiolwyr yn y gweithdai bod angen cyfuniad o'r atebion canlynol:

- Cynnal adolygiadau/cymariaethau cyflog ar raddfa genedlaethol
- Dylid cynnig datblygiad proffesiynol parhaus
- Mae cynlluniau mentora yn ffordd dda o galonogi staff
- Rhaid lleihau lefelau'r weinyddiaeth/biwrocratiaeth fel y gall hyfforddwyr/aseswyr dreulio mwy o amser gyda'r dysgwr

*"Mae aseswyr …erbyn hyn yn treulio llai o amser yn asesu a mwy o amser ar faterion gweinyddol nag yr oedden nhw dair blynedd yn ôl."*

*"Lle mae unigolyn yn mynd i ddioddef, lle ry'ch chi'n cael diffyg cynnydd ac ati, mae'n amlwg yn un o'r meysydd allweddol o ran sicrhau nad yw dysgwyr yn rhoi'r gorau iddi ac yn ennill eu cymwysterau ar gyflymder priodol … Yn ein hachos ni, mae gennym nifer o senarios, mae gennym swyddogion cyswllt sydd hefyd yn gweithio fel mentoriaid …mae gennym gefnogaeth hefyd o ran … aseswyr sy'n mynd i mewn i'r gweithle i gasglu'r … dystiolaeth ac sydd hefyd yn gwneud y sgiliau allweddol yn yr un ffordd."*

### *3.5.2 Arolygu ac Asesu*

Roedd teimladau cryf bod y systemau presennol ar gyfer arolygu ac asesu darparwyr DYYG yn llym. Seiliwyd cyfraddau llwyddiant ar gwblhau'r fframwaith, gyda'r rheiny a oedd yn gadael yn gynnar yn effeithio'n negyddol ar y ffigurau. Fel yr amlygwyd eisoes, teimlai darparwyr bod llawer o'r rhesymau tros fod dysgwyr yn gadael rhaglenni, y tu hwnt i ddylanwad y darparwyr hyfforddiant. Felly, ystyriwyd bod caniatáu cynnwys ystadegau'r rheiny a oedd yn gadael yn gynnar mewn unrhyw fesur llwyddiant yn anghyfiawn.

Teimlwyd bod system y Cyfnod Hwyaf ar gyfer Ariannu a sefydlwyd gan ELWa yn niweidiol mewn rhai meysydd ac yn effeithio ar ansawdd y ddarpariaeth

gwasanaethau. Yn benodol, dyma'r achos â dysgwyr yr oedd angen cefnogaeth ychwanegol arnynt. Wrth gyfyngu'r ffrâm amser o ran ariannu, roedd yn anos llwyddo gyda'r dysgwyr hyn, a oedd drwy hynny'n arwain darparwyr i ofyn p'un a oedd y system yn eu caniatáu i gynnig y gwasanaeth gorau posibl. Roedd galw am system lle byddai esgusodiadau arbennig yn cael eu caniatáu:

*"Dyma lle, rwy'n credu, y dylid cael esgusodiad arbennig; …er enghraifft, mae gen i fachgen nawr a chanddo dyslecsia ac roedd rheolwr y cyflogwr yn mynd i gael gwared arno ond d'yw e ddim erbyn hyn, mae'n mynd i weithio gydag ef waeth beth a ddaw er mwyn iddo lwyddo yn ei brentisiaeth. Nawr, bydd y bachgen hwnnw'n cymryd mwy o amser na'r cyfnod hwyaf a ganiateir ond, yn y pen draw, byddwn yn gweithio gydag e' a dyma lle y dylen ni fod yn cael cyflwyno achos arbennig."*

*"Tan fis Gorffennaf y llynedd roedd gynnon ni gyfleuster â'n rheolwyr o ELWa; gallen eu ffonio a dweud bod achos ac a fedrwn ei drafod, a bydden nhw'n dod draw neu bydden ni'n mynd atyn nhw a'i drafod a gallen nhw gyfweld â'r hyfforddai os oedd angen; mae'r rheolau presennol yn ddigyfnewid, ni ellir plygu'r rheolau o gwbl; os anfonwn ni gwestiwn at ELWa, daw'r ateb yn ôl, edrychwch ar adran hon a hon, dyna'r ateb."*

*"Roedd gen i fachgen y llynedd - enillodd wobr Prentisiaeth Fodern y flwyddyn, roedd yn hollol ddyslecsig ond cymerodd chwe blynedd i mi ei gael drwy Lefel 3, nawr, gyda'r system sydd gynnon ni erbyn hyn, fyddai dim gobaith wedi bod ganddo."*

Yn ogystal, oherwydd proffil presennol dysgwyr yn y gwaith, roedd darparwyr o'r farn ei fod yn hanfodol bod asesiadau o'u gwasanaeth yn ystyried y 'pellter a deithiwyd' gan ddysgwyr, yn hytrach na'u mesur yn unig ar sail nifer y dysgwyr a oedd yn cwblhau'r fframwaith. Roedd yn amlwg bod y grŵp hwn o ddarparwyr yn ymdrechu'n fawr i fodloni anghenion eu dysgwyr a'u cefnogi, ond teimlai llawer nad oedd hyn yn cael llawer o gydnabyddiaeth.

Wrth drafod achos dysgwr â chanddo anghenion arbennig: *"Mae rhywun gennych .. sydd wedi mynd i'w gragen yn llwyr ac yn raddol ry'ch chi'n eu gweld nhw'n dod allan o'u hunain, yn cael eu tynnu allan yn y gweithle. I ni mae hynny'n gynnydd ac mae'r ffaith y gallan nhw ddal bws erbyn hyn yn lle cael eu cludo i'r gwaith, mae hynny'n gynnydd ond a yw'n gynnydd yng ngolwg ELWa?"*

Mater arall o ran asesu'r ddarpariaeth yn deg oedd y ffaith bod y darparwyr hyn nid yn unig yn rhyngweithio â dysgwyr (ac â rhieni mewn grwpiau oedran penodol), ond â chyflogwyr hefyd. Felly, mewn gwirionedd roedd dau grŵp o

gleientiaid ganddynt ac roedd hyn yn eu gwneud yn wahanol i ddarpariaeth prif ffrwd Chweched Dosbarth Ysgolion a cholegau AB. Heblaw hynny, seiliwyd llwyddiant dysgwyr mewn AB ac mewn Chweched Dosbarth ar ennill cymwysterau yn hytrach na chwblhau fframwaith aml-elfen, a golygai hyn na ellid gwneud cymhariaeth tebyg â'i debyg ar draws mathau gwahanol o ddarparwyr.

*"Mae hynny'n rhoi mater arall i chi mewn gwirionedd, y gwahaniaeth rhwng darparwyr DYYG a cholegau lle mae rhywun yn y coleg ac yn mynychu coleg a, cyhyd â'u bod yno, ystyrir bod hynny'n gynnydd lle gyda'r prif ddarparwr rhaid i ni gyflwyno tystiolaeth eu bod yn datblygu, nid yw'n ddigon eu bod yn mynychu'n unig."*

*"Yn DYYG, os nad ydych chi'n cael y sgiliau allweddol, dy'ch chi ddim yn cael eich cyfle… allwch chi ddim methu unrhywbeth felly mae'r gofynion yn llawer iawn on'd ydyn nhw mewn gwirionedd?"*

Mewn rhai sectorau, yn enwedig adeiladu, teimlai darparwyr nad oedd fframweithiau presennol wedi'u dylunio yn y ffordd orau, a'u bod yn cael beirniadaeth annheg gan Estyn:

*"Lle mae rhai llwybrau gennych, unwaith yn rhagor y llwybrau tra chrefftus fel adeiladu, lle mae'n rhaid i bobl, yn llythrennol, gychwyn ar Lefel 1 am fod yn rhaid iddyn nhw gael y sgiliau sy'n angenrheidiol yn y diwydiant ac eto ry'n ni'n cael ein beirniadu… am fod gennym, efallai, berson sy'n ennill cymhwyster sydd islaw eu safonau neu eu gallu ac maen nhw'n cwestiynu a ydych wedi'u cofrestru ar gyfer y cymhwyster cywir, ac ry'ch chi'n cael llawer o bethau'n tarfu ar rywun ynghylch y maes hwnnw ac yn enwedig lle nad yw cyflymder yr addysg yn ddigon cyflym a gall yr unigolion eu hunain ddiflasu… Mae cwpwl o faterion y mae gwirioneddol angen edrych arnyn nhw eto … rwy'n credu mewn helpu Estyn i ddeall yn benodol bod yn rhaid i bobl ddilyn y llwybr hwnnw i allu ennill y sgiliau angenrheidiol yn y diwydiant ei hun."*

Galwyd am system asesu a oedd yn cydnabod yr holl wahaniaethau hyn.

Pwnc arall a godwyd mewn perthynas ag asesu oedd y ffaith nad yw ELWa yn cymryd llawer o ddiddordeb mewn gwirio addysgu a wneir gan wirwyr allanol annibynnol. Wrth asesu ansawdd, teimlwyd y dylid ymgorffori'r systemau gwirio hyn, yn hytrach na chreu systemau newydd a fyddai'n golygu gwaith papur ychwanegol i ddarparwyr.

# 4. Addysg Bellach (AB) a Dysgu Oedolion a Chymunedol (DOCh) Achrededig

## 4.1 Trosolwg

Yn ystod y gweithdy AB/DOCh, cynhaliwyd tri grŵp trafod - dau ar gyfer AB ac un ar gyfer DOCh. Er bod yr olaf wedi'i neilltuo i ddarparwyr rhaglenni Addysg Oedolion a Chymunedol yn unig, cynhwysai'r grwpiau trafod AB gymysgedd o gynrychiolwyr colegau â phrofiad o gyrsiau AB 'traddodiadol' a rhaglenni dysgu yn y gwaith, ill dau. I gynorthwyo dealltwriaeth, mae'r adran hon yn cynnig crynodeb o faterion sy'n perthyn i ddarparwyr cyrsiau AB a DOCh traddodiadol, ond dylid eu darllen ar y cyd â'r adran am DYYG er mwyn gwerthfawrogi'r ddadl ehangach.

Dylid nodi mai diffiniad DOCh achredededig a gynhwyswyd yn yr ymchwil oedd:

*Darpariaeth a ddarparwyd gan golegau AB… yr oedd ychydig ohoni'n cael ei hetholfreinio i ddarparwyr eraill … ac yn yr achosion hyn roedd dysgwyr yn graddio'r darparwr ac nid y coleg.*

## 4.2 Cyn-fynediad

### *4.2.1 Marchnata, Cyngor ac Arweiniad*

#### *4.2.1.1 Addysg Bellach*

Elfen allweddol o'r ddadl am faterion cyn-fynediad oedd y ffynonellau cyngor a ddefnyddid gan ddysgwyr. Atgoffwyd darparwyr o ganlyniadau Arolwg Cenedlaethol o Foddhad Dysgwyr yng Nghymru 2003 o ran y ffynonellau cyngor a nodwyd gan ddysgwyr (a gyflwynir isod er mwyn cyfeirio atynt), a gofynnwyd iddynt roi sylwadau ar y rhain fel rhan o'r drafodaeth ehangach.

| **Ffynonellau cyngor** Sylfaen: Holl ymatebwyr AB (4707) | **% a oedd yn eu nodi** |
|---|---|
| Tiwtoriaid yn y coleg | 40 |
| Ffrindiau | 36 |
| Swyddfa dderbyn y coleg | 27 |
| Rhieni neu deulu | 25 |
| Cyflogwr | 24 |
| Athrawon yn yr ysgol | 22 |
| Gyrfa Cymru | 21 |
| Ymgynghorydd gyrfaoedd yn yr ysgol | 20 |
| Gwasanaeth Learndirect | 7 |
| Gwefan Learndirect | 4 |

Roedd darparwyr yn awyddus i wahaniaethu rhwng profiadau gwahanol y dysgwyr o oedrannau gwahanol ar gyrsiau o fathau gwahanol. Er enghraifft, roedd dysgwyr iau yn symud drwy'r system lle mae'r dysgwyr hŷn yn dychwelyd i addysg; tueddai dysgwyr amser llawn i gael eu gyrru gan gymwysterau, lle'r oedd hynny'n dueddol o fod yn llai gwir ar gyfer dysgwyr rhan amser.

Ar gyfer y grŵp oedran iau, roedd teimlad mai dim ond symud drwy'r system addysg gyda'u grŵp o gyfoedion y maent; roeddent yn teimlo'n aml nad oedd unrhyw beth arall iddynt ei wneud, neu roedd eu rhieni am iddynt aros mewn addysg fel y gallent barhau i dderbyn budd-daliadau plant:

*"Os ydych chi'n siarad am ddysgwyr sy'n gadael yr ysgol, yn 16 oed, mae'n wahanol iawn i berson sy'n 30 neu'n 50 mlwydd oed…gyda rhywun 16 oed neu 18 oed (*mae yna*) symud ymlaen tuag at gael Prentisiaeth Fodern a symud ymlaen i'r brifysgol, ac mae hynny'n ysgogiad mawr …(*mewn rhai achosion teimlant*) nad oes unrhyw beth arall iddyn nhw ei wneud neu mae mam neu dad am gael budd-daliad plant."*

*"Mae ar bawb angen cymwysterau erbyn hyn lle rhai blynyddoedd yn ôl doedd dim o'u hangen nhw cymaint ond nid dyna fel y mae hi erbyn hyn."*

Fodd bynnag, ysgogodd y cyngor a roddir i fyfyrwyr yn yr ysgol lawer o ddadlau ynghylch p'un a oes parch cydradd rhwng y dewisiadau amrywiol ar gyfer dysgu ôl-16. Cydnabuwyd bod llawer o rwystrau, ac nid y lleiaf o'u plith oedd argraff

cynhenid bod llwybr academaidd yn well – yn enwedig o ystyried y pwyslais y mae'r llywodraeth yn ei roi ar hyn trwy dargedau ar gyfer myfyrwyr sy'n mynd trwy'r brifysgol, yn ogystal â'r pwyslais a roddir arno gan rieni a'r cyfryngau.

Roedd rhai darparwyr yn ansicr am y cyngor a roddid gan Gyrfa Cymru (yn yr ysgol neu'r tu allan i'r ysgol) a ph'un a oedd hyn yn ddigon cytbwys. A roddid cyngor i fyfyrwyr am yr holl lwybrau a oedd ar gael iddynt, neu gyngor am y llwybrau hynny a oedd yn cyd-fynd â'u syniadau amwys ynghylch beth roeddent am ei gael yn y dyfodol yn unig? Roedd darparwyr am gael mwy o fynediad at ddisgyblion ysgol a chael mynediad at yr holl fyfyrwyr (nid y rheiny a oedd yn fyfyrwyr aflonyddgar neu lai galluog yn unig), er mwyn gallu cyflwyno'r ystod lawn o ddewisiadau iddynt mewn ffordd ddiduedd.

*"(*Rydym am gael*) mynediad uniongyrchol… rhestrau neu rywbeth fel'na am ein bod ni'n deall ei bod yn rhagfarnllyd yn yr ysgol, nid dyna'r amgylchedd iawn, ry'ch chi'n cael athrawon gyrfaoedd yn edrych dros eu hysgwyddau wrth iddyn nhw gynghori pobl a phethau felly, oherwydd y pwysau ar staff ac ati, ac yn aml maen nhw'n hirdymor, maen nhw yno am gyfnod hir mewn un ysgol benodol; os ydyn nhw'n Lefel 3 mae ar lawer ohonyn nhw ofn dweud unrhyw beth am y coleg. Y rheiny ar Lefel 1 a Lefel 2, os ydyn nhw'n achosi helynt mewn ysgolion, dim trafferth "a wnewch chi gael gwared arnyn nhw os gwelwch yn dda", ond Lefel 3…"*

*"Rwy'n gwybod bod llawer o ffynonellau gwybodaeth ond p'un a yw'r ffynonellau'n cynrychioli AB yn gywir sy'n gwestiwn arall."*

*"Yn aml, mae'r dewis o Lefelau A yn ehangach mewn AB."*

Roedd teimlad bod Chweched Dosbarth Ysgolion yn aml yn cael eu gweld yn ddewis gwell gan rieni am resymau sy'n gysylltiedig â gofal bugeiliol, disgyblaeth, ac ati. Fodd bynnag, i rai cynrychiolwyr roedd hyn yn codi'r cwestiwn pam mai'r rheiny a oedd yn llai galluog yn academaidd (ac felly'r rheiny yr oedd angen y gefnogaeth fwyaf arnynt) a dueddai fynd i AB yn y pen draw. Roedd chwalu'r myth bod chweched dosbarth yn 'well' yn her ar lefelau cenedlaethol a lleol ill dau. Cytunwyd y byddai'r Agenda 14 – 19 cydweithredol yn cael effaith ac y byddai'n rhoi mwy o wybodaeth i fyfyrwyr a rhieni:

*"Rwy'n amau fwy a mwy y bydd yr agenda cydweithredol 14-19 a materion cyllid yn cychwyn dod ynghyd ar hyn."*

*“Dyna lle mae’r holl agwedd gydweithredol yn dod i mewn, lle gallai plentyn fod yn ceisio am ddwy Lefel A mewn ysgol ac un, neu efallai ddwy, mewn coleg, ond dyna’r ddadl … Rwy’n credu eu bod yn ymwybodol o’r dewisiadau sydd ar gael ac efallai’r pryder ar hyn o bryd yw eu bod, mewn gwirionedd, yn ymwybodol ohonyn nhw, ac nad yw’r rhieni.”*

Fodd bynnag, roedd rhai darparwyr eisoes wedi cychwyn ar y broses hon a chanfod bod rhoi mynediad i’r coleg i fyfyrwyr tra eu bod o hyd yn yr ysgol yn cael effaith gadarnhaol.

*“Ry’n ni wedi sefydlu perthynas dda iawn â rhai ysgolion; pan eu bod nhw’n dod i mewn un diwrnod yr wythnos am ryw flwyddyn neu maen nhw’n mynd i gyrsiau blasu am wythnos neu ddwy tua diwedd y flwyddyn ysgol; gall hynny wneud gwahaniaeth mawr am fod y myfyrwyr yn cael blas ar y coleg.”*

*“Rwy’n credu bod yn rhaid i chi weithio â’r ysgolion yn eich ardal … mae’n haws dweud na gwneud, rwy’n gwybod, ond os gallwch chi adeiladu cysylltiadau ac os nad ydych yn gystadleuol rwy’n credu mai dyna’r unig ateb.”*

Roedd darparwyr hefyd yn cydnabod bod chweched dosbarth yn well i rai myfyrwyr a bod AB yn gweddu’n well i eraill. Mewn geiriau eraill, roedd cadw anghenion dysgwyr yn ganolog i unrhyw benderfyniadau’n hanfodol. Yn ogystal â hynny, cydnabuasant fod dewis mynd i’r coleg yn gam mawr i rai myfyrwyr a oedd yn golygu gadael lleoliad cyfarwydd, er bod hyn yn baratoad da i’r dyfodol i rai:

*“Rwy’n anghofio pa mor ansicr mae pobl 16 a 15 oed, mae gadael cyfleustra’r ysgol ar ddiwedd eich stryd i deithio 5 milltir i lawr y ffordd i’ch coleg AB yn gam mawr iawn mewn gwirionedd, llawer o bobl nad y’ch chi’n eu hadnabod, llawer o athrawon nad y’ch chi’n eu hadnabod.”*

*“Rhaid i mi ddweud ei fod yn eu paratoi’n dda ar gyfer mynd i’r brifysgol hefyd am eu bod yn dod yn annibynnol ac yn hyderus trwy gymryd y cam hwnnw’n gynharach yn 16 oed, felly pan fônt yn cyrraedd 18 ac yn symud oddi cartref, mae’n gam haws iddyn nhw,”*

Wrth drafod defnyddioldeb yr amrywiol ffynonellau cyngor eraill, crybwyllodd llawer o ddarparwyr ddiwrnodau agored fel ffyrdd defnyddiol o gwrdd â phobl ifanc a rhieni, a chwalu’r mythau bod AB yn gweddu i’r rheiny sy’n llai galluog yn academaidd yn unig:

*"Gallan nhw ddod gyda rhieni a/neu ffrindiau ac edrych ar y lle a'r cyfleusterau a'r adnoddau sydd yno a theimlo'n gyfforddus yn yr amgylchedd hwnnw ac yna maen nhw am holi mwy am ba fath o gyrsiau sydd ar gael; weithiau dydyn nhw ddim yn gwybod pa gwrs maen nhw am ei wneud, y cymwysterau. Maen nhw'n edrych i weld beth sydd ar gael."*

*"Rwy'n credu mai pwysigrwydd diwrnodau agored yw eu bod … yn wiriad hefyd i sicrhau eu bod yn iawn iddyn nhw a hefyd i archwilio meysydd eraill, efallai, i sicrhau bod y wybodaeth yn iawn i'r bobl ifanc, felly rwy'n credu eu bod yn bwysig…yn enwedig i rieni."*

*"Unwaith y daw (*rhieni*) i'r coleg mae eu disgwyliadau'n sicr yn codi ynghylch coleg â'u syniadau am y coleg, yn enwedig am eu bod yn adnabod coleg fel y 'tec' 20 mlynedd yn ôl neu beth bynnag, felly'r peth yw eu cael i ddod yno."*

Fodd bynnag, roedd gan un darparwr farn wahanol:

*"Rwy' wedi gweld bod pobl ifanc eisoes wedi cael cyngor gan eu hathrawon gyrfaoedd, chweched dosbarth, rhieni … ac maen nhw'n tueddu i ddod i mewn …â syniad gweddol benodedig o'r hyn maen nhw ei eisiau …. I'r myfyrwyr hŷn rwy'n cytuno bod y diwrnodau agored yn ddefnyddiol ac ry'n ni'n tueddu i fynd trwy lawer mwy o gyngor am nad ydyn nhw wedi cael mynediad, efallai, at swyddogion gyrfaoedd ac mewn gwirionedd ry'n ni mwy na thebyg yn cyfeirio cryn dipyn yn ôl at yr ymgynghorwyr proffesiynol o ddiwrnodau agored."*

Teimlai darparwyr bod gan ELWa rôl ddefnyddiol mewn ymdrin â materion ynghylch parch cydradd. Awgrymwyd y gallai meysydd Consortia Cymunedol dros Addysg a Hyfforddiant (CCAH) roi i'r holl fyfyrwyr 15 oed becynnau sy'n disgrifio'r dewisiadau sydd ar gael yn eu hardal. Yn ogystal â hynny, teimlent fod galw am ymgyrch farchnata AB ymysg rhieni, gan gyfeirio at y ffaith bod perfformiad, yn aml, cystal mewn colegau AB ag yr oedd mewn chweched dosbarth yn yr ysgolion lleol (er gwaetha'r ffaith eu bod yn tueddu i ddenu myfyrwyr â gallu is). Gallai hyn hefyd dawelu meddwl rhieni o ran eu pryderon am reoli dysgu mewn colegau, er enghraifft, lefelau rhyddid, strwythur dysgu, disgyblaeth, gofal bugeiliol.

Awgrymwyd hefyd y gallai ELWa helpu hwyluso cyfleoedd fel rhai '*Milkround*', i golegau, yn enwedig lle'r oedd eu perfformiad yn debyg i'r hynny a gafwyd yn yr ysgol leol. Yn gyffredinol, roedd darparwyr yn dymuno bod dysgwyr yn aros yn ganolog a bod mwy o sesiynau gwybodaeth un i un yn cael eu hwyluso ar eu cyfer.

### *4.2.1.2 Dysgu Oedolion a Chymunedol*

Atgoffwyd darparwyr DOCh am y ffynonellau cyngor a nodwyd gan ddysgwyr yn Arolwg Cenedlaethol o Foddhad Dysgwyr yng Nghymru 2003, fel a ganlyn:

| **Ffynonellau cyngor**<br>Sylfaen: Holl ymatebwyr AB (508) | **% a oedd yn eu nodi** |
|---|---|
| Ffrindiau | 31 |
| Tiwtoriaid yn y coleg | 22 |
| Rhieni neu deulu | 14 |
| Swyddfa dderbyn y coleg | 13 |
| Athrawon yn yr ysgol | 7 |
| Cyflogwr | 6 |
| Gyrfa Cymru | 6 |
| Ymgynghorydd gyrfaoedd yn yr ysgol | 2 |
| Gwasanaeth Learndirect | 5 |
| Gwefan Learndirect | 2 |

Gwahoddwyd darparwyr i roi sylwadau am y canlyniadau hyn fel rhan o'r ddadl ehangach am faterion cyn-fynediad. Fodd bynnag, canolbwyntiai'r drafodaeth ei hun yn bennaf ar faterion cyrraedd ac ymgysylltu â dysgwyr DOCh posibl.

Yn y sector DOCh y brif broblem oedd rhoi gwybod i bobl am yr hyn a oedd ar gael, yn enwedig cyrraedd y grwpiau hynny yr oedd yn hysbys eu bod yn wirioneddol yn cael budd o'r math hwn o addysg, h.y. y rheiny â'r lleiaf o hyder a'r lleiaf o gymwysterau. Fodd bynnag, roedd yr adnoddau ar gyfer marchnata/rhoi gwybodaeth am DOCh yn gyfyngedig iawn. Soniwyd am Gyrfa Cymru ar-lein fel ffynhonnell gyfeirio ddefnyddiol i diwtoriaid a oedd, er enghraifft, yn chwarae rôl ymgynghorol, ac i ddysgwyr â chanddynt fynediad at gyfrifiadur. Fodd bynnag, nid oedd yn helpu â chyrraedd pobl dan anfantais a'r rheiny nad oeddent yn argyhoeddedig.

I ymateb i'r broblem hon arferai Cyngor Caerdydd anfon taflenni i bob cartref ond roeddent wedi rhoi'r gorau i'r arfer, yn rhannol oherwydd cyllid, ac yn rhannol am fod pryderon ynghylch pa mor effeithiol ydoedd. Er enghraifft, un pryder oedd a

oedd y taflenni'n cyrraedd y bobl gywir ar yr adeg gywir (h.y. pan oeddent yn ystyried addysg ac felly a oedd y neges yn fwy perthnasol iddyn nhw)?

Nodwyd bod cyrraedd ardaloedd gwledig yn broblem benodol, nid yn unig o ran cynhyrchu diddordeb ond hefyd mewn cynhyrchu digon o ddiddordeb i wneud dosbarth yn ddichonadwy. Yn aml, roedd yn anodd dod o hyd i 9 neu 10 person ar gyfer dosbarth. Roedd hyn yn amlwg pan oedd un darparwr yn cael ei arolygu a dywedodd yr arolygwr ei bod yn ymddangos bod yr un bobl yn bresennol yn y dosbarthiadau hyn bob blwyddyn. Cyfeiriodd y darparwr at y ffaith mai dim ond 300 o bobl a oedd yn y dalgylch ac felly roedd yn debygol o gael ychydig o ailgylchu ac y byddai hyn yn amlycach yn eu hardal nhw nag mewn dinas.

Ystyriwyd bod sesiynau blasu yn ffordd dda o greu diddordeb mewn ardaloedd trefol a gwledig fel ei gilydd. Fodd bynnag, cyfeiriwyd at y ffaith y cynhelid sesiynau blasu fel arfer yn ystod Wythnos Addysg Oedolion fis Mai a chwestiynwyd amseru'r rhain, gan y byddai'n rhaid i unrhyw un y prociwyd eu diddordeb aros tan fis Medi cyn gallu cofrestru.

Pwysleisiai'r holl ddarparwyr yn y sesiwn hon bwysigrwydd cael arweiniad gan gymunedau unigol ynghylch pa gyrsiau yr oedd eu hangen.

Roedd rhai cynlluniau estyn allan da, er enghraifft, y cynllun a gynhaliwyd gan Gymdeithas Addysg y Gweithwyr (WEA) a oedd yn defnyddio gwirfoddolwyr a weithredai fel eiriolwyr allan yn y gymuned. Roedd hwn yn fodel cynaliadwy iawn – wrth i eiriolwyr symud ymlaen deuent o hyd i rywun arall i gymryd eu lle a chynigient wybodaeth ddefnyddiol am anghenion y gymuned. Nid oedd fforymau dysgwyr yn cael eu hystyried yn ddefnyddiol i'r un graddau am fod y rhain yn gofyn am fyfyrwyr a oedd yn rhoi cryn dipyn o'u hamser, ar ben yr amser roeddent yn ei dreulio ar eu cyrsiau, i ddod i drafod materion/anghenion dysgu yn y gymuned. Ystyrid bod y fforymau hyn hefyd yn anghynrychioladol, h.y. eu bod yn cynrychioli'r rheiny a argyhoeddwyd ond nad oeddent yn helpu llawer o ran cyrraedd y rheiny a oedd yn anodd eu cyrraedd.

Crybwyllwyd Rhwydwaith Dysgu Sir Gaerfyrddin fel enghraifft o arfer da, am fod darparwyr yn mynd allan i'r gymuned i gasglu gwybodaeth ynghylch anghenion

dysgu ac i ymateb i’r rhain. Dim ond am eu bod wedi ymuno â’i gilydd a chyfuno eu hadnoddau yr oedd hyn yn bosibl.

Cyfeiriwyd at werth dysgu mewn perthynas â phrosiect mewn cyferbyniad â dilyn fframwaith gosodedig hefyd, h.y. adeiladu amrywiaeth o addysg i mewn i brosiect nad oedd o angenrheidrwydd yn cynnwys nod addysgu traddodiadol. Er enghraifft, Theatr Ieuenctid Gwent lle’r oedd cyfranogwyr yn cael hyfforddiant gan diwtoriaid WEA ac yn ennill cymwysterau mewn meysydd fel rheoli llwyfan a sgiliau sain/goleuo. Crybwyllwyd y Ffermwyr Ifanc hefyd; roeddent am ennill sgiliau i redeg eu pwyllgorau’n gywir ac agorodd hyn y drws i ddarparu ystod o addysg, o sgiliau TG i sgiliau rhyngbersonol.

### *4.2.2 Sefydlu mewn Hyfforddiant/Parodrwydd*

#### *4.2.2.1 Addysg Bellach ac Addysg Oedolion a Chymunedol*

Dangosodd Arolwg Cenedlaethol o Foddhad Dysgwyr yng Nghymru 2003 y bodlonwyd disgwyliadau cyfrannau uchel o ddysgwyr mewn AB a DOCh o ran eu haddysg, a roddai arwydd o ba mor dda roeddent wedi’u paratoi cyn cychwyn ar eu cyrsiau. Ysgogodd hyn drafodaeth ynghylch gweithdrefnau sefydlu i ddysgwyr a ph’un a oedd lle i wella yn y maes hwn.

| **Disgwyliad** | **% sy’n dweud y bodlonwyd eu disgwyliadau** Sylfaen: Holl ymatebwyr AB (4707) | **% sy’n dweud na fodlonwyd eu disgwyliadau** Sylfaen: Holl ymatebwyr DOCh (508) |
|---|---:|---:|
| Safon y gwaith a ddisgwylid | 86 | 87 |
| Faint o waith | 79 | 84 |
| Strwythur y cwrs | 79 | 82 |
| Cynnwys y cwrs | 84 | 85 |
| Faint o gyfrifoldeb fyddai gennyf | 72 | 65 |
| Faint o derfynau amser y mae’n rhaid eu bodloni | 73 | 65 |
| Arddulliau addysgu, dulliau a ddefnyddiwyd | 79 | 85 |
| Mathau o bobl a oedd yn hyfforddi | 70 | 74 |

Cytunai darparwyr bod dysgwyr mewn AB, yn gyffredinol, wedi'u paratoi'n dda ar gyfer eu cyrsiau. Roedd proses o siarad â myfyrwyr cyn iddynt gyrraedd yn ogystal â phroses sefydlu ffurfiol wrth iddynt gyrraedd. Ystyriwyd bod y gweithdrefnau hyn yn allweddol o ran cadw myfyrwyr ar gyrsiau am eu bod yn lleihau'r tebygolrwydd y byddai gan ddysgwyr ddisgwyliadau afrealistig.

*"Mae'n wrthgynhyrchiol PEIDIO Â chynnig cyngor cyn i gwrs gychwyn."*

*"Ry'n ni'n cynnig sesiynau sgiliau astudio, sesiynau TG – mae'r rhain am ddim felly gallwch mewn gwirionedd fynychu rhywbeth tebyg i ysgol haf cyn i chi gyrraedd os ydych chi'n oedolyn sy'n dychwelyd, ac yn enwedig mewn cyrsiau addysg uwch, ac mae'r hyfforddi'n dda iawn ….mae'n helpu â'n ffigurau cadw dysgwyr."*

*"A chwrdd â'r myfyrwyr sydd yno eisoes sy'n ffordd dda iawn o (*weld*) pa fath o beth ydyw."*

Fodd bynnag, roedd rhai gwendidau yn y system, ac roedd hyn yn arbennig o wir os nad oedd myfyriwr yn gweld gwerth y sesiynau paratoi. Yr enghraifft a roddwyd oedd dysgwr hŷn rhan amser a oedd am wneud ei gwrs yn unig, yn hytrach na rhyngweithio â'r system:

*"Byddant yn dewis eithrio o ddod am gyngor, maen nhw'n gwybod yn union beth maen nhw am ei gael ac maen nhw'n dod i'w gael…p'un ai dyma yw'r peth iawn iddyn nhw ei wneud ai peidio. Felly weithiau bydd yn anodd i'r myfyrwyr rhan amser… mae ganddyn nhw swydd, mae ganddyn nhw fywyd cymdeithasol, dim ond ymuno â'r cwrs maen nhw am ei wneud, ac yna maen nhw'n cyrraedd ac yna yn gweld bod problemau ganddyn nhw."*

Unwaith yn rhagor, soniwyd am bwysigrwydd oedran a'r modd yr oedd hyn yn effeithio ar ddysgu a'i godi fel mater ar gyfer AB a DOCh ill dau. Mewn llawer o ffyrdd, mae ar rai dysgwyr hŷn angen cymorth yn fwy na rhai ifanc; maent naill ai wedi bod y tu allan i fyd addysg ers amser maith, ac yn llai cyfarwydd â cheisio cyngor neu gymorth, neu mae natur eu cwrs yn golygu eu bod yn dysgu ar adegau o'r dydd lle nad ydynt yn gallu manteisio ar ryngweithio â myfyrwyr eraill:

*"Mae'r peth ynghylch grŵp oedran yn eitha' anodd oherwydd, mewn gwirionedd, mae mwy o adrannau'r farchnad yn y dosbarthiadau oedran hŷn…gallech fod yn berson proffesiynol sy'n dysgu yn y gwaith neu gallech fod yn fyfyriwr HNC amser llawn…rwy'n credu bod y math yna o gymorth, lle ceir cefnogaeth a chyngor sydd bron yn gyson, yn bwysig iawn iawn i'r dysgwr hŷn sy'n ailhyfforddi ac yn cadw swydd a theulu ar yr un pryd, yn enwedig os ydyn nhw'n gwneud*

*lleoliad gwaith lle maen nhw'n cyrraedd am 4 pm ac yn gweithio tan 9 pm ac mae pethe yn y coleg wedi mynd yn dawel, dydyn nhw ddim yn cael mynediad at y gefnogaeth galw heibio, drws agored y gallai'r myfyrwyr eraill ei chael."*

*"Ry'n ni'n siarad am nerfusrwydd person 16 oed ond mae person 38 oed yn fwy nerfus, dim ond ei fod mewn ffordd wahanol."*

*"Gyda'r myfyrwyr hŷn, nid yw rhai ohonyn nhw, yn syml, wedi cael mynediad at unrhyw gyngor ers cymaint o amser… bydd rhai yn cydio ynddo â'u dwy law; mae'r menywod hŷn yn fwy parod i wneud hynny, ond mae'r gwryw hŷn yn greadur cwbl wahanol, rhaid i chi ei lusgo drwy'r drws am unrhyw fath o gyngor."*

O ran yr ymagwedd arfer gorau i grwpiau hŷn o ddysgwyr, teimlai darparwyr ei fod yn achos o gynnig cyngor na fyddent yn digalonni o'i gael, drwy'r tiwtor fel arfer. Gwelwyd bod mynd â chyngor at y dysgwr, yn hytrach na disgwyl iddynt ei geisio eu hunain, yn un ateb.

*"Os na wnân nhw ddod i weld y swyddog gyrfaoedd… rhaid i chi adeiladu hynny i mewn i'r cwrs yn rhywle, maen nhw'n gweld gwerth y cwrs ac yna adeiladu ar hynny."*

*"Ewch â'r cyngor i mewn i'r dosbarth."*

*"Rwy'n credu bod y rhan fwyaf o diwtoriaid yn frwdfrydig iawn am gael y mathau hyn o fyfyrwyr drwy'r cwrs ac ymlaen at bethau gwell; dyna pam maen nhw yno; gwnânt lawer i'w helpu."*

Fodd bynnag, oherwydd y gallai dylanwad y tiwtor weithiau olygu naill ai na fyddai pobl yn datblygu'n fesuradwy neu na fyddent yn dewis y cwrs a oedd yn gweddu orau iddyn nhw, pwysleisiwyd yr angen am gyngor diduedd. Roedd hyn yn bodoli eisoes ar ffurf y Gwasanaeth Cyfarwyddyd i Oedolion a oedd yn rhoi cyngor dros y ffôn, ond dim ond un gweithiwr oedd i bob sir. Ochr arall y geiniog o ran yr ymagwedd hon oedd ei fod yn ffynhonnell arall fyth o wybodaeth yr oedd angen i'r dysgwr ymgysylltu â hi, a chan hynny yn peri bod ymgysylltu, o bosibl, yn llai tebygol i rai.

## 4.3 Cymorth wrth Ddysgu

### *4.3.1 Addysg Bellach*

Dangosodd Arolwg Cenedlaethol o Foddhad Dysgwyr yng Nghymru 2003 bod dysgwyr AB yn wynebu nifer o broblemau, fel a ganlyn:

- cadw’n gyfoes â safon y gwaith (soniwyd am hyn gan 18%)
- neilltuo amser i’r cwrs ac ymrwymiadau gwaith (16%)
- cynnal cymhelliant personol (16%)
- neilltuo amser i’r cwrs ac ymrwymiadau cartref (15%)
- delio â phwysau ariannol (11%)

Yn ogystal, roedd bron i un o bob pum dysgwr (18%) wedi meddwl o ddifrif am adael eu cwrs.

Achosodd y canlyniadau hyn gryn ddadlau ymysg y darparwyr yn y gweithdy ynghylch y modd gorau o gynnig cefnogaeth i ddysgwyr, er mwyn adnabod problemau a delio â nhw wrth ddysgu.

Cytunai darparwyr y gwnaed ymdrechion mawr i sicrhau y rhoddid gwybodaeth a chefnogaeth addas i ddysgwyr fel nad oeddent yn gadael eu cyrsiau – os digwyddai hynny, teimlai darparwyr ei bod fel arfer yn rhy hwy’r i’w helpu.

Eto, roedd dysgwyr aeddfed yn cynnig heriau unigryw, sef neilltuo amser i’w haddysg ac ymrwymiadau eraill, a gallai hyn effeithio’n fawr ar eu presenoldeb:

*“Weithiau, gyda’r dysgwyr mwy aeddfed, yn enwedig os ydyn nhw’n astudio’n rhan amser, mae’n bur debyg y bydd ganddyn nhw ymrwymiadau eraill sy’n ymddangos a byddan nhw’n methu wythnos, un sesiwn, ac mae hynny’n ddigon i’w hachosi i feddwl “dw’i ar ei hôl hi, alla’ i ddim mynd ‘nôl” ac os yw’n bythefnos mae hynny’n fwy anodd fyth a dyna lle mae’r cysylltiad yn bwysig iawn, iawn i’r tiwtor i’w sicrhau y gallan nhw ddal i fyny, y gallan nhw wneud hynny.”*

Neilltuwyd tiwtor personol i’r holl fyfyrwyr amser llawn iddynt allu trafod eu cynnydd â nhw. Yn nodweddiadol, byddai’r dysgwr a’r tiwtor yn llenwi cyfres o ffurflenni ynghylch targedau, anghenion y myfyriwr, problemau a gafwyd ac ati.

Roedd yr holl fyfyrwyr, yn rhai amser llawn neu'n rhan amser, yn cael cyfarfod adolygu bob 6 wythnos yn ogystal.

Felly, roedd cefnogaeth ac ymgysylltiad yn faich trwm ar ysgwyddau'r tiwtor. Fodd bynnag, dibynnai cryfder y berthynas dysgwr/tiwtor nid yn unig ar am ba hyd yr oedd y myfyriwr wedi bod ar y cwrs, ond hefyd ar sgiliau cynhenid y tiwtoriaid eu hunain. Yn wir, cydnabuwyd bod ansawdd y sesiynau tiwtorial yn amrywio ar draws colegau ac o'u mewn. Golygai'r ffaith bod cymaint yn dibynnu ar lwyddiant y berthynas tiwtor/dysgwyr y teimlai llawer o ddarparwyr ei fod yn hanfodol rhannu arferion gorau a chael cefnogaeth i diwtoriaid.

*"Mae gan y tiwtoriaid eu targedau eu hunain i'w cyrraedd o ran cadw myfyrwyr, ac maent bob tro'n ceisio gosod dangosyddion ac os yw'n ddangosydd is beth yw'r materion; a oes problemau yma y gellir eu datrys? Ac os ydyn nhw'n ddangosyddion uwch, yna mae'r hyn y maen nhw'n ei wneud yn arfer da y gallan nhw ei rannu ar draws y coleg… rwy'n credu ei fod yn rhywbeth nad ydyn ni'n ei wneud yn arbennig o dda, sef rhannu arfer da ledled Cymru."*

*"Dyma lle mae'n mynd yn fwy cymhleth, mae rhai tiwtoriaid yn gallu delio â'r math yna o ryngweithio â dysgwyr yn well nag eraill, a gellir ymdrin ag ychydig o hynny trwy ddatblygiad staff ac mae ychydig ohono'n ymwneud â materion mwy dyrys."*

Cydsyniai rhai darparwyr er y neilltuid mentoriaid addysgu yn y coleg, fel arfer, i helpu tiwtoriaid amser llawn wrth iddynt ddatblygu eu sgiliau ac i fodloni safonau Estyn, weithiau bod gan ddarlithwyr newydd fylchau mewn perthynas â sgiliau. Roedd hefyd yn wir bod dysgwyr aeddfed rhan amser yn aml yn cael tiwtoriaeth gan staff rhan amser, ond nid oedd y staff hyn bob amser yn cael y newyddion diweddaraf o ran datblygu eu sgiliau addysgu.

Roedd trafodaeth ynghylch p'un a ddylai tiwtoriaid, fel staff y llinell flaen, fod yn ymwneud yn fwy â rhwydweithiau er mwyn gallu rhannu mwy o syniadau am arferion gorau. Roedd rhai darparwyr o'r farn y byddai hyn yn fanteisiol iawn ac roeddent yn awyddus i gael mwy o rannu syniadau ledled Cymru. Fodd bynnag, cwestiynai eraill a oedd yn ymarferol rhyddhau tiwtoriaid ar gyfer digwyddiadau rhwydweithio, gan y byddai hynny'n golygu amser i ffwrdd oddi wrth addysgu a byddai'n gostus. Cyfeiriwyd at y ffaith bod llawer o rwydweithiau'n bodoli eisoes y mae prifathrawon colegau'n eu mynychu a bod y rhain yn gweithredu fel fforymau ar gyfer rhannu arferion gorau, y gellir eu bwydo'n ôl i staff y llinell flaen drachefn ar ffurf pecynnau arweiniad i diwtoriaid fel arfer.

*"Byddwn yn dweud bod gan y rhan fwyaf o golegau becynnau arweiniad i diwtoriaid a'u bod yn cynnig rhywfaint o ddatblygiad staff."*

Menter arall oedd nodi 'prif diwtoriaid' a ystyrid yn fedrus iawn ym meysydd addysgu a chefnogaeth. Rhannodd sawl darparwr eu profiadau o'r ymagwedd hon. Roedd rhai wedi cymryd dull gweithdrefn gais gwirfoddol i diwtoriaid, tra bod eraill wedi nodi unigolion dawnus drwy oruchwyliaeth.

Tra bod gan ddarparwyr, fel arfer, systemau ar gyfer nodi problemau dysgwyr, teimlai llawer bod y problemau yn aml yn gysylltiedig â chefndir economaidd-gymdeithasol yr unigolyn, a'i fod yn anodd dylanwadu arnynt oherwydd hynny. Roedd ychydig o drafod ynghylch ymatebion dysgwyr i'r problemau roeddent yn eu hwynebu mewn perthynas â llythrennedd a rhifedd. Ystyrid bod canran y myfyrwyr a oedd yn rhoi gwybod am broblemau yn y meysydd hyn yn isel a bu rhywfaint o drafod ynghylch p'un a oedd hynny'n adlewyrchiad cywir o'r sefyllfa neu ai dangos amharodrwydd ymysg myfyrwyr i gydnabod y problemau hyn ydoedd yn unig. Ar y llaw arall, teimlai rhai y gallai ddangos, er y gellid labelu dysgwyr yn rhai a oedd yn cael anawsterau, bod y colegau'n cynnig cymorth mewn modd a oedd yn lleihau'r rhwystrau hyn i ddysgu.

*"Efallai mai'r rheswm yw eu bod yn meddwl nad oes problemau ganddyn nhw ond hefyd efallai mai'r rheswm yw bod y colegau'n delio â'u hanghenion cystal nad yw'n broblem iddynt, h.y. mae anhawster dysgu ganddyn nhw, mae ganddyn nhw anawsterau penodol â llythrennedd a rhifedd ond mae'r sgrinio a'r gefnogaeth a gynigir gan golegau mor dda fel eu bod yn teimlo y gallan nhw ymdopi … sy'n galonogol."*

Roedd darparwyr yn awyddus i gyfeirio at y ffaith bod llu o faterion yn dylanwadu ar gadw dysgwyr. Felly, er y byddai tiwtoriaid unigol yn monitro patrymau presenoldeb ymysg eu dysgwyr, roedd angen iddynt fod yn sensitif i gliwiau eraill hefyd.

*"Mae (*cadw dysgwyr*) yn faes anferth – nid yn unig y mae'n gysylltiedig ag ansawdd cyn-fynediad ac arweiniad a gofalu bod pobl ar y cwrs iawn, mae'n ymwneud â systemau cymorth. Gan amla' mae'n ymwneud â chyngor ynghylch cyllid a lles, mae'n ymwneud â chefnogaeth gyda llythrennedd a rhifedd ac mae'n ymwneud ag ansawdd yr addysgu …mae'n golygu sicrhau ei fod yn ymwneud ag ymgysylltiad y dysgwr…perthnasedd yr hyn sy'n cael 'i wneud, manteision cwblhau'r cwrs, y potensial ar gyfer mynd ymlaen i gyflogaeth."*

*"I gael cadw myfyrwyr yn iawn rhaid i chi gael y profiad cyfan yn iawn ac yna, ar ben hynny, rhaid i chi gael gweithdrefnau gwirioneddol ar gyfer cadw'n gyfoes â phatrymau diffyg presenoldeb yn gynnar fel y cânt eu nodi, eu dilyn i fyny gyda'r dysgwr a'r rhieni, yn ôl oedran y dysgwr, ac yr ymdrinnir â'r rhesymau am y patrymau hynny mewn da bryd cyn i chi gyrraedd y cyfnod lle ceir rhai sy'n gadael yn gynnar, oherwydd erbyn hynny ry'ch chi wedi'u colli nhw."*

Os yw myfyrwyr yn gadael eu cyrsiau, fel arfer mae colegau'n rhoi galwad ffôn dilynol i'r dysgwyr hyn cyn pen pythefnos. Ystyrir hwn yn ddull dilynol llwyddiannus, a lle bynnag y bo'n bosibl maent yn defnyddio aelod o staff diduedd i'w ffonio (h.y. nid tiwtor y cwrs, rhag ofn bod problemau o ran y berthynas honno). Roedd llawer o resymau am y ffaith bod pobl yn gadael yn gynnar ond yn gyffredinol, roeddent yn amrywio yn ôl yr oedran:

*"Yn y bôn, gwneir hyn am resymau niferus, mae a wnelo â theulu, cyllid, mae'n dibynnu ar oedran mewn gwirionedd; weithiau mae am eu bod wedi dod aton ni'n eitha' hwyr neu efallai nad oedden nhw'n ffitio…mae'r ail gyfnod sefydlu yn eitha' anodd i'r rheiny sy'n ymuno'n hwyr."*

### *4.3.2 Dysgu Oedolion a Chymunedol*

Yn Arolwg Cenedlaethol o Foddhad Dysgwyr yng Nghymru 2003, y meysydd allweddol a nodwyd yn broblemau gan ddysgwyr oedd:

- cadw'n gyfoes â safon y gwaith (soniwyd am hyn gan 13%)
- cynnal cymhelliant personol (13%)
- neilltuo amser i'r cwrs ac ymrwymiadau cartref (12%)
- neilltuo amser i'r cwrs ac ymrwymiadau gwaith (soniwyd am hyn gan 9%)

Hefyd, dywedodd 16% o ddysgwyr DOCh eu bod wedi ystyried yn ddifrifol gadael eu cwrs.

Wrth drafod y canlyniadau hyn, teimlai darparwyr DOCh mai'r brif broblem, yn eu barn nhw, oedd cael pobl i gydnabod bod angen cymorth arnynt a bod hyn, fel y canfuwyd o'r blaen, yn dibynnu'n fawr ar sgil y tiwtor unigol ac ar ba mor hawdd yr oedd mynd atynt.

Bu trafodaeth ynghylch cefnogaeth ym maes llythrennedd a rhifedd. Cyflwynwyd profion diagnostig newydd ond ystyriwyd eu bod yn rhy llawdrwm; byddai llawer o bobl yr oedd angen cymorth arnynt yn gyndyn i gymryd profion papur ac yn yr achosion hyn byddai'n well cael tystiolaeth yn anuniongyrchol neu ddibynnu ar farn tiwtor. Roedd angen cadw sefyllfa'r rheiny â chanddynt broblemau llythrennedd a rhifedd mewn cof hefyd wrth ddylunio'r ffurflenni a oedd yn ymwneud â'r math hwn o ddysgu. Soniodd un darparwr eu bod wedi ceisio cymorth gan y Plain English Council, a chyda'u cymorth hwy roeddent wedi gallu gwneud y ffurflenni'n llawer symlach ac yn fyrrach.

Roedd llenwi ffurflenni yn bryder cyffredinol a oedd yn codi drosodd a throsodd yn ystod y sesiynau. Y pryder oedd bod hyn yn gyrru dysgwyr ac, o bryd i'w gilydd, tiwtoriaid ymaith. I ddysgwyr, roeddent yn cyrraedd i ddechrau cwrs ac yn awyddus i gychwyn arni, ond yn canfod yn eu sesiwn gyntaf mai dim ond llenwi gwaith papur a wnaethant, a gallai hyn fod yn ddigon i'w digalonni. Am y rheswm hwn, roedd rhai darparwyr wedi gohirio llenwi'r ffurflenni tan ychydig yn ddiweddarach yn y broses ddysgu.

## 4.4 Cwynion

Cytunai'r holl ddarparwyr bod ganddynt weithdrefn osodedig i'r holl fyfyrwyr ei dilyn os oeddent am wneud cwyn ffurfiol, a bod hyn fel arfer yn hygyrch mewn amrywiaeth o fformatau, gan gynnwys llawlyfr y myfyrwyr a'r fewnrwyd. Cynhwyswyd y weithdrefn hon fel rhan o'r broses sefydlu.

*"Y prif beth yw sicrhau eu bod yn eglur a bod myfyrwyr yn gwybod sut i fynd atyn nhw ac mae hynny'n rhywbeth y dylen ni ei ddarparu yn y cyfnod sefydlu, mae yn nyddiadur y myfyrwyr."*

Fodd bynnag, cytunai'r holl ddarparwyr fod yn well ganddynt ddatrys materion cyn iddynt gyrraedd cyfnod cwyn ffurfiol. Unwaith yn rhagor, roedd hyn yn golygu cynnig digon o gefnogaeth i'r dysgwr ac anelu at adeiladu perthynas dysgwr/tiwtor gryf. Roedd teimlad y gellid methu cwynion anffurfiol, er gwaethaf amrywiaeth y dewisiadau a roddid i fyfyrwyr i roi gwybod am eu hanfodlonrwydd, fel arolygon myfyrwyr, blwch awgrymiadau, fforwm myfyrwyr ac ati.

*“Rwy’n credu bod llawer ohono’n ddiwylliannol hefyd; fel cenedl dydyn ni ddim yn dda iawn am gwyno…dyw llawer o’r cwynion anffurfiol ddim yn cael eu nodi felly maent i gyd yn pentyrru am nad yw pobl … am achosi trafferth i rywun ac mewn gwirionedd dylai fod (*yn ymwneud â*) helpu’r coleg i wella pethau.”*

Ceisiai colegau gau’r bwlch hwn trwy ddefnyddio cyfarfodydd tîm fel fforwm i godi materion a allai fod wedi eu codi’n anffurfiol gan fyfyrwyr. Weithiau byddai myfyrwyr a oedd yn newydd ar eu cwrs yn cwyno i’r adrannau Derbyn neu Gwasanaethau Myfyrwyr yn hytrach na’u tiwtoriaid am mai dyma lle’r oeddent yn teimlo bod ganddynt berthynas gryfach – felly roedd angen cael mecanwaith i nodi’r math hwn o adborth. Yn wir, ystyrid pwysigrwydd gweithredu ar adborth anffurfiol yn hanfodol er mwyn effeithio ar foddhad dysgwyr.

*“Rwy’n credu ei fod yn beth rhwystredig iawn pan ry’ch chi’n gweld adborth tebyg yn dod drwodd a dyw’r sefydliad ddim yn gweithredu’r mecanwaith i’w atal rhag digwydd eto am ein bod ni’n sôn am ddysgwyr unigol y gallwn eu colli … rhaid gweithredu systemau ansawdd sy’n gryf ac yn gyflym iawn, iawn er mwyn ein hatal rhag ailadrodd y camgymeriadau…Rydyn ni hefyd yn gwybod bod rhai bylchau enfawr mewn gofal cwsmeriaid hefyd; mewn llawer i ffordd ry’n ni’n fusnes on’d ydyn ni? Pe baen ni’n rhedeg busnes fel hyn bydden ni’n colli ychydig o gwsmeriaid ond mae materion gofal cwsmeriaid syml fel anfon y prosbectws mewn pryd, ffonio’r cwsmer os yw cwrs yn cael ei ddileu, ry’n ni’n gwneud camgymeriadau ynghylch y math hynny o beth mewn colegau am ein bod mor fawr.”*

*“Rwy’n credu bod adborth yn rhywbeth sy’n bwysig iawn i’w wneud… efallai na fydd (*y myfyrwyr hynny*) yma’r flwyddyn nesaf ond, wrth gwrs, efallai y byddan nhw’n dweud wrth eu ffrindiau am y coleg.”*

Roedd ychydig o gydsyniad bod oedran yn effeithio ar ymddygiad dysgwyr mewn perthynas â chwynion. Felly, tueddai myfyrwyr iau gwyno drwy eu rhieni, neu ddefnyddio dulliau llai ffurfiol (e.e. trwy gynrychiolwyr myfyrwyr). Fodd bynnag, tueddai oedolion hŷn gwyno’n uniongyrchol a defnyddio dulliau ffurfiol - cwestiynai darparwyr p’un a oedd hyn am eu bod yn disgwyl safon uwch gan eu darparwr.

## 4.5 Ansawdd a Rheoli Hyfforddiant

Roedd y sgoriau boddhad cyffredinol o Arolwg Cenedlaethol o Foddhad Dysgwyr yng Nghymru 2003 yn gadarnhaol iawn mewn perthynas ag AB a DOCh. Roedd 3 o bob 10 dysgwr AB (30%) a bron i 4 o bob 10 dysgwr DOCh (39%) yn fodlon

iawn ag ansawdd yr addysgu. Roedd lefelau'r boddhad ag addysgu yn gyffredinol yn 90% ar gyfer AB ac yn 94% ar gyfer DOCh.
Defnyddiwyd y dechneg ystadegol o atchwelyd i nodi meysydd yn yr arolwg a allai effeithio'n gadarnhaol ar lefelau boddhad dysgwyr yn y dyfodol.

Amlygodd y dechneg agweddau gwahanol ar addysgu a'u pwysigrwydd o ran y sgôr boddhad cyffredinol. Galluogai gosod yr elfennau gwahanol hyn yn erbyn sgoriau perfformiad pob elfen addysgu (h.y. fel y'u graddiwyd gan ddysgwyr) nodi'r meysydd hynny a fyddai'n cael yr effaith mwyaf ar foddhad dysgwyr yn y dyfodol.

Rhestrir y meysydd blaenoriaeth ar gyfer gweithredu mewn AB a DOCh isod a bu'r rhain yn sylfaen trafodaeth ynghylch sut i wella'r sgoriau boddhad yn y dyfodol:

- Gosod targedau clir
- Gwneud defnydd da o sesiynau
- Y gefnogaeth y maent yn ei rhoi i chi
- Adborth cyflym a rheolaidd
- Gwneud y pwnc yn ddiddorol ac yn bleserus
- Eich deall chi a sut rydych yn hoffi dysgu

Teimlai cynrychiolwyr bod y canlyniadau'n ail-bwysleisio'r hyn roeddent yn ymwybodol ohono, a theimlent fod ymdrechion ar y gweill i ymdrin â llawer o'r materion a nodwyd:

"*Dw'i ddim yn credu (*bod y canlyniadau'n*) ein synnu ni mewn gwirionedd; rwy'n credu mai dyma'r hyn ry'n ni'n gwybod bod dysgwyr ei eisiau, dyna beth sy'n eu cadw ar gwrs."*

*"Byddwn yn meddwl bod y rhan fwyaf o golegau mwy na thebyg yn gweithio ar y math hwn o beth drwy'r amser ac yn codi ymwybyddiaeth staff a chynnig hunan ddatblygiad."*

Fodd bynnag, nid yw hyn yn golygu bod gan ddarparwyr ymagwedd hunanfodlon mewn unrhyw ffordd ynghylch yr angen i barhau i wella systemau ac edrych ar foddhad cwsmeriaid yn ehangach.

*“Mae ein cwsmeriaid wedi arfer â gwasanaeth 24/7 on’d ydyn nhw?  Gallant siopa ar-lein, gallan nhw wneud hyn a’r llall, ond maen nhw’n talu am eu haddysg hefyd ac maen nhw’n disgwyl lefel uchel o wasanaeth da a lefel uchel o wasanaeth cwsmeriaid ac rwy’n credu y gallen ni i gyd, efallai, dynhau hynny rhyw ychydig am ein bod ni’n symud mor gyflym ac ry’n ni’n sefydliadau cymhleth ac weithiau dydyn ni ddim yn cael gafael ar hynna.”*

### *4.5.1 Addysg Bellach*

Roedd colegau eisoes yn defnyddio dangosyddion perfformiad mewnol ar gyfer hyfforddi, er enghraifft, y broses o nodi athrawon eithriadol oddi mewn i feysydd rhaglen i rannu arfer gorau ymysg eu grŵp o gyfoedion.

*“Trwy arsylwadau ry’n ni wedi nodi athrawon rhagorol ac yna ….gallant ledaenu gwybodaeth i’w maes rhaglen eu hunain ac addasu arferion gorau…Weithiau mae’n gyngor ac yn awgrymiadau syml ac weithiau mae’n llawer mwy na hynny ond mae hynny wedi gweithio’n dda iawn, iawn.”*

Yn ogystal â hynny, roedd grwpiau’n gosod safonau mewn perthynas â gofal cwsmeriaid, cwynion, ac ati ac yn eu monitro.  Yn ddiweddar, roedd rhan o un coleg wedi gosod amcanion personol ynghylch sut y gallen nhw’u hunain effeithio ar brofiad y dysgwr mewn ffordd gadarnhaol.

#### *4.5.1.1 Gosod targedau clir*

Adroddai darparwyr bod cynlluniau dysgu unigol yn y cyfnodau cynnar pan gynhaliwyd Arolwg Cenedlaethol o Foddhad Dysgwyr yng Nghymru 2003, felly cafwyd gwelliannau mawr yn y maes hwn yn y cyfamser.

Cafwyd cyfarfod rhwng yr holl diwtoriaid amser llawn i drafod anghenion arbennig, asesu cynnydd myfyrwyr a thrafod strwythur cyrsiau, a thrwy hynny wella’r profiad dysgu.  Fodd bynnag, teimlid bod tiwtoriaid rhan amser fel arfer yn cwympo y tu allan i’r sesiynau hyn; nid oeddent yn cael eu talu i fynychu’r fath gyfarfodydd ond roeddent yn cyfrif am 25% o’r staff ac yn tueddu i ryngweithio â myfyrwyr rhan amser.  Roeddent hefyd yn anarferol am eu bod yn tueddu i fod yn gweithio yn rhywle arall, gydag addysgu’n eilbeth yn eu bywydau gwaith.

#### *4.5.1.2 Gwneud defnydd da o wersi/sesiynau*

Unwaith yn rhagor, ystyrid bod y problemau yn y maes hwn yn gysylltiedig â’r ffaith nad oedd gan staff addysgu rhan amser, o reidrwydd, gymwysterau addysgu, a bod hyn yn arwain at ansawdd amrywiol. Fodd bynnag, fel a amlinellwyd eisoes, yn aml roedd gwella sgiliau’r unigolion hyn yn anodd oherwydd natur eu horiau gwaith/contractau. Roedd yn faes yr oedd darparwyr am fynd i’r afael ag ef, er enghraifft, trwy ddefnyddio mentora, ond roedd cyfyngiadau ariannol.

#### *4.5.1.3 Deall y dysgwr*

Teimlai darparwyr bod tiwtoriaid yn ceisio newid cyflwyniad eu gwersi i weddu i fyfyrwyr, ond roedd hyn yn dibynnu’n fawr ar brofiad tiwtoriaid unigol. Cynhaliai rhai colegau sesiynau hyfforddi ynghylch arddulliau addysgu a deallusrwydd emosiynol, ond eto, ni fyddai’r holl staff addysgu’n cael mynediad at y rhain. Nid oedd gan rai colegau gyfleusterau cyfoes a fyddai’n hyrwyddo defnyddio ystod o ymagweddau dysgu, er enghraifft, byrddau gwyn, DVDau.

Myfyrwyr iau oedd y mwyafrif ar gyrsiau AB, ond roedd ganddynt ddisgwyliadau ac anghenion gwahanol o’u cymharu â dysgwyr hŷn, ac roedd hyn yn her.

#### *4.5.1.4 Rheoli’r grŵp*

Roedd dysgwyr aflonyddgar yn broblem mewn AB, yn enwedig y dysgwyr iau a oedd yn tueddu i fod yn aflonyddgar yn yr ysgol ac a oedd, o ganlyniad, yn gyflawnwyr isel. Treulid mwy a mwy o amser yn rheoli’r dysgwyr hyn – er enghraifft, eu cadw yn y coleg – yn hytrach na’u haddysgu.

### *4.5.2 Addysg Oedolion a Chymunedol*

Oherwydd y meysydd gweithredu a nodwyd yn ystod yr arolwg, trafodai darparwyr p’un a oedd dysgwyr yn deall, mewn gwirionedd, pan osodwyd targedau iddynt, a p’un a oeddent yn adnabod adborth pan roeddent yn ei dderbyn. Er enghraifft, efallai y byddai dysgwr wedi edrych ar sylwadau tiwtor ynghylch tasg ysgrifenedig ond heb adnabod hyn fel adborth. Fodd bynnag, cytunwyd y gallai rhai tiwtoriaid wella o ran cynnig adborth a helpu gosod targedau. Nodwyd bod hyn yn amrywio gyda’r math o gwrs; ar gyrsiau ymarferol

fel gwaith coed, nodwyd nodau a chynnydd yn glir am fod dysgwyr yn cynhyrchu rhywbeth gwirioneddol. Felly, ar gyrsiau nad ydynt yn ymarferol, efallai y bydd yn rhaid i dargedau ac adborth fod yn eglurach.

Ar hyn o bryd mewn DOCh, nid oes gan ddysgwyr Gynlluniau Dysgu Unigol; roedd angen amser i gynhyrchu'r rhain ac, yn hynny o beth, roedd angen cyllid nad oedd ar gael. Hefyd, roedd gwrthwynebiad ymysg tiwtoriaid i ffurfioli gweithdrefnau fel hyn. Priodolwyd ychydig o hyn i'r ffaith nad oedd pobl yn hoff o newid ac nad oeddent yn cydnabod y gallent wella agweddau penodol o'u perfformiad. Byddai llawer hefyd yn teimlo bod ganddynt nodau dysgwyr yn eu pennau ac y gallent fonitro hyn a rhoi adborth anffurfiol yn ystod y cwrs. Ystyrid hefyd bod ychydig o ddiffyg amynedd ymysg tiwtoriaid â'r hyn yr ystyriwyd yn jargon, ac roedd yn hysbys bod ymadroddion fel 'gosod targedau', 'nodau dysgwyr' ac 'amcanion dysgu' wedi cythruddo tiwtoriaid. Felly, byddai angen mabwysiadu cynnydd yn y maes hwn mewn ffordd fwy tiwtor-gyfeillgar.

Fodd bynnag, i fod yn gadarnhaol, cydnabu darparwyr bod llawer o diwtoriaid yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd oedd ar gael i hyfforddi a rhannu arferion gorau. Roedd yn bwysig y telid am eu horiau hyfforddi am eu bod eisoes dan anfantais o ran cyfradd eu tâl o'u cymharu â'u cydweithwyr mewn AB, a theimlid na thelid digon iddynt i'w disgwyl i roi mwy o'u hamser eu hunain. Roedd amseru'r hyfforddiant hefyd yn bwysig iawn; yr adeg gorau ar gyfer cynnal hyfforddiant oedd rhwng y tymhorau, ond nid oedd llawer o'r staff yn hoffi bod cynnal cyrsiau yn ystod eu gwyliau. Y dyfarniad oedd mai canolbwyntio ar fuddsoddi mewn tiwtoriaid ystyriol ac a oedd yn barod i dderbyn hyfforddiant oedd y flaenoriaeth.

Er gwaethaf y materion ariannu a rhwystrau posibl ymysg staff mewn perthynas â Chynlluniau Dysgu Unigol, cytunwyd y byddai'n ddefnyddiol i bob dysgwr gael sesiwn â rhywun ar ddiwedd eu cwrs, neu ar ddiwedd tymor yr haf, i weld beth yr hoffent ei wneud nesaf ac i esbonio eu dewisiadau. Ystyrid bod cael disgwyliadau unigolion yn gywir yn bwysig hefyd, a chydnabuwyd y cafwyd symudiadau o fewn DOCh i gyflwyno cytundebau dysgu fel y byddai'r dysgwyr yn gwybod beth a ddisgwylid ganddynt a beth y gallant hwythau ei ddisgwyl gan eu tiwtoriaid.

Roedd materion eraill a oedd yn benodol i DOCh yn gysylltiedig â rheoli cynnydd dysgwyr. Roedd gan lawer o ddarparwyr broblemau â dysgwyr a oedd yn cymryd y llwybr achrededig, gan eu bod yn gwrthwynebu'r broses arholiadau. Felly, roedd angen ystyried llwybrau datblygu i'r dysgwyr yn ofalus. Cydnabuwyd nad oedd digon o ddysgwyr nac adnoddau mewn ardaloedd gwledig i gynnig addysg achrededig ar lefelau uwch. Ffordd dda o amgylch hyn oedd sefydlu cysylltiadau â choleg a bwydo pobl i'r coleg o'r cynlluniau gwledig. I sicrhau llwyddiant yr ymagwedd hon, fodd bynnag, fe'i hystyrid yn hanfodol sefydlu cysylltiad personol ar gyfer y myfyrwyr, er enghraifft, trwy fod tiwtoriaid o'r coleg yn mynd i gwrdd â'r myfyrwyr cyn iddynt drosglwyddo. Fel arall, roedd myfyrwyr yn tueddu i lynu at yr hyn roeddent yn gyfarwydd ag ef ac osgoi cynnydd. Roedd hefyd yn bwysig nodi proffil dysgwr fel y byddent yn cyd-fynd â chwrs yn y coleg. Enghraifft a roddwyd o hyn oedd rhywun a drosglwyddodd i goleg ond a gafodd anawsterau am fod pawb yn llawer iau.

Unwaith eto roedd tiwtoriaid yn chwarae rôl allweddol yn y broses hon gan y'i hystyriwyd yn bwysig iddynt gynnal y niferoedd ar eu cyrsiau er mwyn dod o hyd i gyllid yn y dyfodol. Fodd bynnag, roedd perygl hefyd na fyddai lleoedd gwag ar gael i fyfyrwyr newydd pe na symudid pobl i lwybr ar gyfer datblygu. Canfuwyd bod hyn yn fwy o broblem mewn trefi nag mewn ardaloedd gwledig.

### 4.6 Arolygon yn y Dyfodol

Roedd rhai o'r cynrychiolwyr yn y gweithdy wedi gweld y ddogfen a oedd yn crynhoi Arolwg Cenedlaethol o Foddhad Dysgwyr yng Nghymru 2003, ond yn gweld ei fod yn rhy eang i fod yn ddefnyddiol iddynt yn eu coleg nhw, h.y. ar lefel leol:

*"Nid oedd yn hawdd iawn gweithio â'r crynodebau am fod…y canlyniadau cystal mewn ffordd does gennych chi ddim byd i gael gafael ynddo, ac mewn gwirionedd nid oedd e'n ddigon manwl i allu datblygu cynllun gweithredu."*

Roedd mwyafrif y darparwyr AB a DOCh yn ymwneud â rhyw fath o waith gwerthuso. Roedd un darparwr AB yn cynnal arolwg cyfnodol ar ôl 2 wythnos, 7 wythnos a 15 wythnos ar ôl cofrestru – roeddent am wneud mwy ond roeddent yn pryderu am flinder â'r arolwg ac â'r gwaith papur.

Roedd diddordeb pendant yn y gallu i gysylltu canlyniadau Arolwg Cenedlaethol o Foddhad Dysgwyr yng Nghymru 2003 ag arolygon colegau a wnaed yn fewnol neu drwy gytundebau allanol, er mwyn gallu cynhyrchu darlun mwy lleol. Roedd ymdrechion eisoes ar y gweill i gytuno ar set graidd o gwestiynau i'r holl golegau eu defnyddio ar y cyd â'u dulliau presennol (e.e. sy'n ymwneud â boddhad cyffredinol dysgwyr, materion ynghylch cludiant), er bod ychydig o ddadlau ynghylch p'un a wahoddwyd yr holl bleidiau perthnasol i fod yn rhan o'r broses hon.

*"Rhaid i ni gysylltu'r lleol â'r cenedlaethol; rhaid i ni allu meincnodi."*

*"Os ydych chi am osod targedau ac mae pawb am ddefnyddio meincnodau yna rhaid i chi gael pobl ledled Cymru sydd wedi cofrestru ac sy'n gwneud hynny ac yna rhaid iddyn nhw fod yn berthnasol yn genedlaethol ac yn lleol."*

*"Mae hynny'n iawn, gwahoddwyd pawb i'r cyfarfod hwnnw ac, yn amlwg, ni allai pawb fynychu, mwy na thebyg bod rhyw 10 person yn bresennol, 10 neu 12 gan gynnwys ELWa…Ar ôl llawer o drafodaeth, credwch fi, llawer o drafodaeth ynghylch sut i eirio cwestiynau a pha gwestiynau fyddai'n ddefnyddiol… i ni gyd eu defnyddio, ac yna bydden ni'n cytuno ar y rheiny (a bydden ni'n) mynd â hynny at rwydwaith y rheolwyr ansawdd fel y gallai cynulleidfa ehangach gael cytuno arnyn nhw."*

Ar wahân i wneud yr arolwg yn fwy perthnasol ar lefel leol, roedd gan ddarparwyr nifer o awgrymiadau ar gyfer datblygu Arolwg Cenedlaethol o Foddhad Dysgwyr yng Nghymru 2003, fel a ganlyn:

Ar gyfer AB:

- cynnwys cwestiwn am gymeradwyaeth, e.e. 'fyddech chi'n argymell y coleg/cwrs hwn i'ch ffrindiau?'
- cynnwys pwnc cyfleusterau'n fanylach
- ymchwil pellach i'r bwlch rhwng eu disgwyliadau a'u profiadau mewn gwirionedd
- ymdrin ag Iechyd a Diogelwch. Fodd bynnag, tueddai arolygon mewnol gynnwys hyn a gallai ei gynnwys achosi problemau os yw polisïau'n amrywio ar draws mathau gwahanol o ddarparwyr
- archwilio cyfleoedd cyfartal drwy wneud yr arolwg yn ddigon mawr i allu ystyried a yw grwpiau gwahanol yn cael profiadau gwahanol (fel a nodwyd mewn arolygon mewnol)

- cynnwys dysgwyr sy'n iau nag 16 yn yr arolwg, oherwydd yr Agenda 14 – 19. Ar hyn o bryd, nid yw dysgwyr sy'n iau nag 16 yn rhan o gylch gwaith ELWa, ond a ddylent fod yn y dyfodol?
- dilyn hynt dysgwyr o ran yr hyn y maent yn ei wneud nesaf
- archwilio i weld a fyddai'n bosibl cyfateb darganfyddiadau'r arolwg â grwpiau o fyfyrwyr sydd â phroblemau hysbys, fel cyfraddau cadw dysgwyr (e.e. dysgwyr mewn Adeiladu)
- sicrhau wrth ddylunio arolygon yn y dyfodol bod yr holl bleidiau perthnasol yn cael eu cynnwys: cynllunwyr ansawdd, marchnata a chwricwlwm

*"Yr hyn fyddai'n ddiddorol…fyddai cyfateb darganfyddiadau ar gyfer grwpiau penodol o fyfyrwyr â dangosyddion fel cyfraddau gwael ar gyfer cadw dysgwyr a chyfraddau gwael ar gyfer myfyrwyr sy'n cwblhau eu cwrs …a gallu edrych ar y grŵp hwnnw a dweud a oes materion penodol a nodir gan ganfyddiadau myfyrwyr."*

Ar gyfer DOCh:

- cynnwys cwestiwn ynghylch strwythur y cwrs a pha strwythur fyddai'n gweddu i ddysgwyr orau o ran yr amseru, amlder, ac yn y blaen
- nodi faint o amser sydd rhwng ystyried gwneud y cwrs a'i wneud mewn gwirionedd yn ogystal â'r sbardun terfynol ar gyfer dysgu – ystyrid y byddai hyn yn helpu wrth farchnata
- cynnwys mesur ar gyfer gwerth am arian lle'r oedd pobl yn cyfrannu at gost eu cwrs
- nodi pa gyrsiau yr oedd awydd am eu cael ar lefel leol – cydnabuwyd, fodd bynnag, y gallai hyn fod yn anodd gan ddefnyddio dulliau arolwg a'i fod yn fwy synhwyrol defnyddio technegau eraill o gasglu gwybodaeth e.e. y rheiny a ddefnyddir mewn gwaith estyn allan lle mae pobl ar y ddaear/sy'n rhan o'r gymuned honno'n cynnig adborth
- teimlid bod sylwadau air am air yn eithriadol o bwerus ac yn bwysig wrth gyfleu'r materion cymhleth i rai o'r gwneuthurwyr polisi a oedd ymhell oddi wrth y dysgwr - roedd rôl ac ymateb posibl gwneuthurwyr polisi i ymchwil fel Arolwg Cenedlaethol o Foddhad Dysgwyr yng Nghymru 2003 yn bryder h.y. gallent gamddefnyddio'r ffigurau, camddeall y ffigurau ac ati

# 5. Y Chweched Dosbarth mewn Ysgolion

## 5.1 Trosolwg

Roedd y grŵp o ddarparwyr penodol hwn yn delio â'r ieuengaf yn unig yn yr ystod oedran o ran dysgwyr ôl-16. Gyda'u perthynas hir â mwyafrif y myfyrwyr yn eu hysgolion yn blant ysgol, roedd y dasg anodd o hwyluso eu trawsnewidiad yn oedolion ifanc yn eu hwynebu. Roedd hon yn llinell fain i'w throedio - roedd ar rai myfyrwyr angen lefel y gefnogaeth a gynigiwyd yn is i lawr yn yr ysgol ac roeddent yn ei disgwyl. Gallai'r agwedd hon o reoli'r amgylchedd dysgu fod yn wahanol i'r hyn roedd y dysgwyr eu hunain yn meddwl bod arnynt ei eisiau; gormod o gefnogaeth ac roeddent yn cael eu trin 'fel plant', dim digon ac roeddent yn teimlo eu bod yn mynd i ddyfroedd dyfnion. Cydnabuwyd bod rheoli'r tyndra parhaus hwn yn galw am fedr a sensitifrwydd mawr ar ran yr athrawon sy'n gweithio gyda myfyrwyr Blwyddyn 11 a 12.

## 5.2 Cyn Mynediad

### *5.2.1 Dewis, Cyngor ac Arweiniad*

Roedd dewis a chyngor yn ddau faes o gwestiynau a gynhwyswyd yn Arolwg Cenedlaethol o'r Chweched Dosbarth mewn Ysgolion yng Nghymru 2004. Roedd y canlyniadau'n dangos bod mwyafrif llethol y myfyrwyr chweched dosbarth yn eu dewis cyntaf o ddarparwr (73%) ac yn dilyn eu dewis cyntaf o gyrsiau (77%). Fodd bynnag, roedd hefyd yn wir bod bron un o bob pum myfyriwr (18%) heb wneud dim i ystyried dewis arall wrth ddewis ymhle i astudio, a nododd 85% ohonynt 'yn mynychu'r ysgol hon eisoes' yn rheswm am eu dewis o ddarparwr.

O ran cyngor, trafodwyd cyfrannau'r myfyrwyr a oedd yn nodi ffynonellau amrywiol fel rhan o'r sesiwn hon hefyd. Er mwyn cyfeirio atynt, canlyniadau Arolwg Cenedlaethol o'r Chweched Dosbarth mewn Ysgolion yng Nghymru 2004 oedd:

| **Ffynonellau cyngor**<br>Sylfaen: Holl ymatebwyr a dderbyniodd gyngor (3,939) | % |
|---|---|
| Athrawon yn yr ysgol | 70 |
| Gyrfa Cymru | 69 |
| Rhieni neu deulu | 65 |
| Ffrindiau | 35 |
| Derbyniadau chweched dosbarth | 20 |
| Gwasanaeth Learndirect | 1 |

Caniatawyd atebion lluosog.

Cydsyniai darparwyr bod cynefindra yn cael ei ystyried yn atynfa gref i fyfyrwyr ac roedd llawer am aros yn y chweched dosbarth gyda'u ffrindiau, lle'r oedd yr athrawon yn eu hadnabod. Roedd argraff ymysg myfyrwyr (a rhieni) bod colegau'n amhersonol ac yn llai cefnogol na'r amgylchedd yn yr ysgol. Yn ogystal, roedd y lleoliad yn bwysig; roedd mynd i'r coleg yn golygu'n aml y byddai'n rhaid i fyfyrwyr deithio ymhellach y tu allan i'w cymuned gyfagos.

Derbyniwyd hefyd bod y Lwfans Cynhaliaeth Addysg (LCA) wedi dylanwadu'n gadarnhaol ar ddewis myfyrwyr i aros yn yr ysgol yn hytrach na dewis math arall o ddarpariaeth, gan eu bod, mewn gwirionedd, yn cael eu talu i ddysgu. Fodd bynnag, roedd rhai darparwyr o'r farn ei bod yn rhy gynnar i farnu'r effaith gyffredinol:

*"Rwy'n gweld bod (*yr LCA*) wedi gwneud gwahaniaeth bach yn fy nghyfweliadau â myfyrwyr presennol Blwyddyn 11 sy'n ystyried dewisiadau ôl-16 ar hyn o bryd, ond nid yw hyn yn wir yn hanes llawer ohonyn nhw. Dim ond dyrnaid ohonyn nhw sy'n methu â'i fforddio a phan rwy'n sôn amdano maen nhw'n dweud efallai y gallen nhw. Bydd yn rhaid i ni aros am flwyddyn arall cyn gallu dweud."*

Cydsyniai darparwyr bod rhieni'n ddylanwad allweddol ar fyfyrwyr, a bod barn rhieni am y dewisiadau gwahanol a gynigid i fyfyrwyr ôl-16 yn dylanwadu'n fawr ar eu dewisiadau. Roedd rhieni am gael y 'gorau' i'w plant, a gallai hyn olygu dilyn llwybr academaidd tebyg iddyn nhw, neu fanteisio ar gyfleoedd nad oedden nhw wedi'u cael. Er bod hyn yn ymyriad cadarnhaol weithiau, ar brydiau gallai gael effaith negyddol.

*"Rhaid i ni wneud yn well i'n plant nag y gwnaethom ni, a dyna'r canfyddiad sydd gan y rhieni yma."*

*"Rhagdybiaeth (*rhieni*) yw eich bod yn gwneud eich TGAU, ry'ch chi'n mynd ymlaen i wneud Lefelau A ac yna ry'ch chi'n mynd i'r brifysgol. Dyna'r meincnod. Ac nid yw unrhyw beth llai na hynny'n ddigon da."*

*"Y dylanwad mwyaf yw'r rhieni a'r neiniau a'r teidiau sy'n dweud, 'es i i'r ysgol yna, dyna'r lle gorau i ti, t'weld, oherwydd mae wedi cael llwyddiant o 100% am y ddwy flynedd ddiwethaf."*

*"Yn fy mhrofiad i mae rhieni mewn ffordd yn gwybod am TGAU, yn gwybod am Lefel A, ond yn y bôn bach iawn, iawn a wyddan nhw am y ffactorau eraill, y meysydd eraill sydd allan yno y gall myfyrwyr fynd iddyn nhw. Ac yn aml, yn fy mhrofiad i…byddai mam yn dod ata' i ac yn dweud bod ei mab am fod yn feddyg, dyma beth mae e am ei wneud. A, ch'mod, mae'r bachgen yn ansicr ac yn gwneud synau mmm… ac erbyn y Nadolig mae wedi rhoi'r gorau iddi."*

Cyfeiriwyd at ganlyniadau archwiliadau ac asesiadau Estyn fel prawf bod pynciau academaidd yn cael eu haddysgu i safon uchel yn Chweched Dosbarth Ysgolion ac roedd hyn ynddo'i hun yn atyniad cryf i rieni:

*"Maen nhw'n edrych ar y data mewn ffordd gymharol, yn gweld bod y chweched dosbarth yn cyflawni ac wedi gwneud hynny'n gyson ac maen nhw'n barnu'r ansawdd, ansawdd cymharol y mesur o ganlyniadau."*

Agwedd gadarnhaol arall oedd bod ysgolion yn gallu cynnig gweithgareddau allgyrsiol, fel Gwobr Dug Caeredin, sy'n eu gosod ar wahân i fathau eraill o ddarparwyr. Oherwydd y pwyslais cynyddol ar y fath weithgareddau o ran ehangu apêl myfyrwyr wrth iddynt wneud ceisiadau am addysg uwch a chyflogaeth, ystyriai darparwyr fod yr arbenigrwydd hwn yn bwysig iawn.

*"Nid cael cymwysterau Lefel A yw'r unig nod, mae'n ymwneud ag ennill profiad trwy Wobr Dug Caeredin, profiad gwaith…mae angen portffolio helaeth iawn dim ond i gael… cyfweliad. Os nad oes gennych chi'r math hwn o gefnogaeth mae'n annhebyg iawn (*y caech*) eich cyfweld am gyrsiau anodd iawn."*

Gwelwyd y gallu i fynd ymlaen i Flwyddyn 12 gan ddefnyddio'r Gymraeg yn ddylanwad allweddol i rai hefyd, gan nad oedd llawer o golegau AB yn gallu cynnig dilyniant i fyfyrwyr a oedd wedi astudio yn Gymraeg tan Flwyddyn 11. Ar y llaw arall, cynigid rhai cyrsiau gan golegau AB ond nid gan ysgolion, yn enwedig cyrsiau galwedigaethol, ond nid oedd y rhain ar gael yn Gymraeg.

*“O ran y sector Cymraeg, nid yw’r dewis yna, am nad yw’r sector Addysg Bellach yn gallu cynnig cyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg.  Ond mae cyrsiau nad ydyn nhw ar gael yn yr ysgolion, sydd ond ar gael yn y sector addysg bellach ac nid yw’r rheiny ar gael yn Gymraeg ‘chwaith – ac o ganlyniad mae llawer o bobl a fyddai, efallai, yn gwneud yn well trwy’r Gymraeg, sy’n cael mwy o drafferth â’u cyrsiau drwy’r Saesneg.”*

Soniwyd ymhob un o’r grwpiau trafod am fater parch cydradd rhwng gwahanol fathau o ddarparwyr addysg ôl-16.  Yn aml, roedd rhieni’n meddwl mai’r chweched dosbarth oedd ‘orau’ am ei fod yn cynnig llwybr academaidd a fyddai’n arwain eu plant i’r brifysgol.  Oherwydd ymgyrchoedd gan y llywodraeth i gynyddu nifer y myfyrwyr sy’n mynd i’r brifysgol, nid oedd fawr o syndod bod y farn hon gan rieni.  Er hynny, teimlai llawer o ddarparwyr eu bod yn cynnig ystod lawn o ddewisiadau i fyfyrwyr ynghylch eu dewisiadau ar ôl Blwyddyn 10, a bod y ddarpariaeth gyngor hon wedi gwella yn ystod y blynyddoedd diwethaf.

*“Mae gennym ni ddyletswydd i esbonio’r dewisiadau.”*

*“Rhoddwyd mynediad (*i fyfyrwyr*)…at AB, darparwyr hyfforddiant, y Lluoedd Arfog, Gyrfa Cymru, lle gallent fynd a gofyn eu cwestiynau, pob un ohonyn nhw, yn y neuadd ac aethan nhw o amgylch a siarad â phawb.”*

Roedd cred ymysg rhai o’r cynrychiolwyr eu bod dan anfantais ym maes hyfforddiant ôl-16 oherwydd, yn wahanol i’r sector AB, nad oedd ganddynt fynediad at gyllideb farchnata.  Roedd teimlad bod rhai colegau’n gallu eu hysbysebu eu hunain mewn modd soffistigedig, ac y gallent fforddio cael stondinau mawr mewn cynadleddau a chynulliadau. Roedd rhai darparwyr yn wrthwynebol i’r ymagwedd hon:

*“Mae (*Colegau’n*) cynnal ymgyrch farchnata a hysbysebu mawr, mae’n anodd iawn i ysgolion gystadlu. Dyw’r gyllideb ddim gennym i’n marchnata ein hunain ar y raddfa honno.”*

*“Ma’ hynny’n wir, s’dim ffordd y gallwn ni gystadlu”*

*“Mae ganddyn nhw’r arian i’w wneud, sy’n rhywbeth na allwn ni ei wneud.  Yn ein papur newydd lleol ym mis Awst, bydd post-dafliadau yn fan’na – dewch i’r coleg, gwnewch hyn, gwnewch y llall.”*

Roedd rhai darparwyr yn defnyddio ymagweddau newydd i fynd i’r afael â mater parch cydradd ymysg rhieni - roeddent yn eistedd gyda’r myfyriwr a’i rieni ac yn

rhoi mwy o amser i archwilio'r dewisiadau a oedd yn agored i'r myfyriwr unigol hwnnw, a thrwy hynny rhoi'r dysgwr a'i anghenion yn ganolog. Fodd bynnag, cydnabuwyd bod yr ymagwedd hon yn gofyn llawer o amser ac os nad oedd gan rieni ddiddordeb yng nghynnydd eu plentyn ni fyddent yn mynychu'r fath gyfweliad. Yn ogystal, os na dderbynnid yr ymagwedd hon yn eang mewn ysgolion roedd yn lleihau'r effaith gadarnhaol.

*"Ry'n ni'n edrych ar…symud i ffwrdd o'r math traddodiadol o, ch'mod, unwaith y flwyddyn, pum munud ar gyfer pob pwnc - y math hynny o beth, at ymagwedd fwy cyfannol lle ry'ch chi'n eistedd gyda'r rhiant, â'r plentyn ac ry'ch chi'n siarad mewn ffordd agored a gonest ynghylch y dewisiadau a'r dyheadau a ddylai fod yn agored iddyn nhw. A bod ychydig yn fwy creadigol fel'na, ond rwy'n bryderus iawn…os ceir yr argraff nad yw hyn yn cael ei wneud mewn ffordd deg ymysg y penderfynwyr yna mae hynny'n tanseilio'r holl egwyddor ry'n ni'n gweithio yn ei hôl."*

Cyfeiriodd un cynrychiolydd at gydbwysedd y cyngor a roddwyd y bu ef yn dyst iddo mewn dosbarthiadau chwech a nododd pa mor bwysig oedd rhoi buddiannau'r dysgwyr yn ganolog:

*"Mae'n galonogol iawn gweld Prif athrawon (*yn rhoi*) ymagwedd gytbwys iawn o'r dewisiadau a oedd ar gael … rwy'i wedi bod i bedair o'r chwe noson wybodaeth ar draws y consortiwm ac roedd hynny'n dda iawn. Roeddwn i'n meddwl ei fod yn wych oherwydd rwy'n credu os ydych chi'n dangos y ffordd i bobl yn agored ac yn eglur … yna mae'n rhaid iddo ddod i ran yr unigolyn wedi hynny, i ddweud eich bod yn gwybod yr hyn sydd orau i chi mewn gwirionedd …Rwy'n gredwr mawr os ydych chi'n cyfeirio person i'r cyfeiriad cywir, hyd yn oed os nad yw i'ch cyfeiriad chi, y byddan nhw'n dod i werthfawrogi mai eu lles nhw sy' gennych mewn golwg a dy'n nhw ddim yn anghofio hynny."*

Fodd bynnag, roedd gan ddarparwyr eraill deimladau cymysg ynghylch a oedd ysgolion yn cynnig cyngor a oedd yn wir yn ddiduedd a sut y gallai hyn effeithio ar benderfyniadau hollbwysig:

*"Credwch fi, bydd rhai ysgolion yn gwahaniaethu yn erbyn pobl ifanc sy'n cael cyngor am golegau AB."*

*"Rwy'n credu mai un o'r profiadau a gefais i oedd y gwahaniaeth rhwng y cyngor annibynnol a'r cyngor gan athrawon… ychydig o'r teimladau sydd gan y myfyrwyr efallai neu'r athrawon eu hunain…. Lle bydd gan fyfyriwr efallai'r potensial i symud ymlaen i bynciau penodol ac maen nhw'n cael digon o gyngor i wneud hynny, ond oherwydd eu perthynas ag aelod o staff, y ffordd maen nhw'n teimlo*

*am bwnc penodol, 'dyn nhw ddim am wneud hynny ac efallai y byddan nhw'n dewis mynd i'r coleg yn lle hynny."*

*"Mantais amlwg sydd gan golegau â chymorth myfyrwyr yw bod (*myfyrwyr*) yn teimlo bod ganddyn nhw berson annibynnol i fynd ato i siarad heb unrhyw ragfarn … a fydd yn gwrando… Ac rwy'n tybio ei fod yn rhywbeth y byddai… myfyrwyr mewn chweched dosbarth fwy na thebyg yn teimlo nad oes ganddyn nhw…Ond yn ogystal â hynny… hyd yn oed mewn colegau ry'ch chi'n cael y cyngor hwnnw o hyd… a roddir i fyfyrwyr nad yw mewn gwirionedd er lles penna'r myfyrwyr."*

*"Ond rwy'n credu, i feddwl yn gadarnhaol am y colegau, bod ganddyn nhw y person annibynnol hwnnw y gall myfyrwyr fynd ato i siarad ag ef a sgwrsio am rywbeth, rwy'n credu bod honno'n fantais amlwg fel ry'ch chi'n dweud. Gobeithio y bydd yn dod – yr hyfforddwr dysgu."*

Achosodd y barnau gwahanol hyn drafodaethau am y newidiadau a fyddai'n cael eu hachosi gan yr Agenda 14 - 19, yn enwedig mewn perthynas â rôl yr 'hyfforddwr dysgu' y disgwylir iddo gynnig cyngor diduedd. Cwestiynai rhai darparwyr, a oedd yn tybio y byddai'r hyfforddwr dysgu yn rhywun o'r tu allan i'r ysgol, p'un ai hon oedd yr ymagwedd gywir o ystyried bod athrawon mewn ysgolion yn adnabod disgyblion yn dda iawn eisoes a bod systemau ar gyfer rhoi cyngor yn cael eu gweithredu eisoes:

*"Yr hyn rwy'n ei ddweud yw mai'r hyfforddwyr dysgu gorau sy'n bodoli ar hyn o bryd yw tiwtoriaid y plant, sy'n eu hadnabod orau ac sydd wedi ffurfio perthynas â nhw am bedair blynedd cyn eu bod nhw'n 14. Maen nhw'n gwybod am eu hagweddau, maen nhw'n gwybod am yr arddulliau dysgu, maen nhw'n gwybod yr holl faterion cymdeithasol sy'n gysylltiedig â'r teulu am eu bod wedi'u dilyn nhw drwy'r ysgol….Rwy'i ychydig yn bryderus am hyn… y dybiaeth y bydd yr hyfforddwyr dysgu yn rhywun o'r tu allan i'r ysgol … oherwydd efallai nad yw rhywun yn ymddiried yn yr ysgol i'w wneud yn deg."*

*"Dw'i ddim yn ei feirniadu, ond yna mae gennych chi Yrfa* (Cymru) *â'i holl arbenigedd a'i holl gysylltiadau a'i holl rwydweithiau a hanes hir o lwyddiant ac yn amlwg yn gweithio'n dda, ac yna mae gennych chi'r grŵp o diwtoriaid sy'n amlwg yn ymwybodol o'r holl gefnogaeth fugeiliol - mae'n ymddangos bod y strwythurau hyn yn bodoli ac rwy'n teimlo mai'r unig beth a wneir bydd taflu arian at fenter arall sydd ond yn mynd i ddyblygu'r hyn sy'n bodoli eisoes."*

Trafododd rhai darparwyr y ffordd orau o ymdrin â myfyrwyr a oedd yn 'ffiniol' o ran eu potensial i lwyddo yn amgylchedd y chweched dosbarth. Defnyddiwyd amrywiaeth o ymagweddau yn y fath sefyllfa, er enghraifft, nodi gyda'r myfyrwyr

lle maent yn eu gweld eu hunain mewn rhai blynyddoedd a'u mentora yn ystod Blwyddyn 11 i wella eu cymhelliad:

*"Os mai cymhelliad yn unig ydyw mae hynny'n rhywbeth y gellir ymdrin ag e'n eitha' syml trwy fentora ym Mlwyddyn 11. Yr hyn y gallwch ei wneud wedyn yw sefydlu cyfundrefn o fentora un i un ac ymyriad gan staff neu hyd yn oed ymyriad gan gyfoedion a gall y myfyriwr yn wirioneddol ei wella'i hun. Yr hyn ry'n ni'n ei wneud wedyn yw ymarferion fel gosod targedau, 'lle rwyt ti am fod mewn 5 mlynedd, a oes angen y Lefelau A hyn arnat ti, pam y mae eu hangen arnat ti, i le yr ân nhw â ti?'"*

I rai myfyrwyr, fodd bynnag, nid oedd yn fater o gymhelliad ond o allu.

*"Os mai mater o allu yw, yna mae hynny'n gwbl wahanol. Ch'mod, rhaid i chi eistedd a chael sgwrs â nhw am realiti a dweud, dyma dy botensial gwirioneddol di, rwyt ti'n credu bod dy botensial i fyny yn fan hyn, ond yn anffodus ar hyn o bryd d'wyt ti ddim yn anelu at hynny, rhaid i ti edrych ar ddewisiadau eraill."*

*"Rhaid i ni dynnu llinell â rhai pobl – os nad ydyn nhw'n mynd i basio, dy'n nhw ddim yn mynd i basio. Ond, ch'mod, ry'n ni hefyd yn eu hannog i roi cynnig ar rywbeth am gwpwl o wythnosau oherwydd yn eitha' aml dyna beth yw diben y peth…, maen nhw'n sylweddoli y bydd y tu hwnt iddyn nhw."*

Yn y pen draw, teimlai darparwyr eu bod yn gwneud ymdrechion mawr i gynnig cyngor, ond ei fod yn gyfrifoldeb i'r unigolyn p'un a ddylent ddefnyddio'r cyngor hwnnw ai peidio. Fodd bynnag, nodwyd nodwedd cyfraddau uchel ar gyfer cadw myfyrwyr yn nosbarthiadau'r chweched fel tystiolaeth bod darparwyr, yn gyffredinol, yn ei 'chael yn iawn'.

*"Mae gan bawb y cyfle i gael cyngor da diduedd i'w hunain, yr unig bobl na fyddai'n cael y cyngor hwn yw'r rheiny sy'n dewis peidio â dod i gyfweliadau, peidio â dod i nosweithiau agored, peidio â mynychu cyfweliadau a drefnwyd â staff gyrfaoedd ac ati."*

*"Mae'r gyfradd cadw myfyrwyr rhwng Blwyddyn 12 ac 13 mewn ysgolion yn uchel iawn, felly rwy'n credu y gallwn fod yn weddol fodlon bod y cyngor ry'n ni'n ei roi i'n myfyrwyr yn gywir am eu bod nhw'n cynnal y cwrs. Maen nhw'n amlwg wedi'u cymell i'w gwblhau i mewn i Flwyddyn 13."*

### *5.2.2 Sefydlu*

Yn ogystal â chynnig cyngor i fyfyrwyr a rhieni am y dewisiadau gwahanol a gynigir ym Mlwyddyn 12, roedd ysgolion hefyd yn weithredol o ran cynnig

sesiynau blasu a chyfnodau sefydlu i fyfyrwyr. Mewn llawer o achosion, fodd bynnag, cynhaliwyd y mentrau hyn yn ystod amser ysgol ac felly roeddent yn llyncu amser y cwricwlwm ym Mlwyddyn 11. Teimlai nifer o ddarparwyr, wrth gefnogi ymagwedd amrywiol at sefydlu, nad oedd yr adnoddau angenrheidiol i gynnal y cynlluniau hyn ar gael yn eu hysgolion mwyach.

*"Cynhalion ni'r math hwn o ddiwrnod sefydlu ar gyfer Blwyddyn 11 lle maen nhw'n mynd i eistedd mewn gwersi blasu Lefel A fel y gallan nhw weld y gwahaniaeth yn yr arddull addysgu a natur y cyrsiau ac maen nhw'n siarad â myfyrwyr chweched dosbarth ym Mlwyddyn 12 a Blwyddyn 13 sy'n gallu esbonio'r llwyth gwaith iddyn nhw, am fod … y naid yn un enfawr i gymryd 4 AS, ac maen nhw'n siarad â'r myfyrwyr sydd yn yr ysgol eisoes, ac mae hynny'n dylanwadu'n fawr ar eu penderfyniadau. Mae'n ddiwrnod cyfan i ffwrdd o'r amserlen."*

*"Yr hyn ry'n ni'n tueddu ei wneud yw cael diwrnod Blwyddyn 11 lle'r eir â chi drwy bopeth, yn enwedig y pynciau nad ydyn nhw ar gael i lawr yng nghyfnod allweddol 3, 4…er enghraifft y gyfraith, felly maen nhw wedi cael ychydig brofiad o'r dewisiadau eraill hyn nad ydyn nhw'n gwybod unrhyw beth amdanyn nhw."*

*"Amserlennwyd y dosbarth ar gyfer dau ddiwrnod, i'w cael i fynd i wersi chweched dosbarth ac ati …allwch chi ddim gwneud hynny bellach. Does gennym ni mo'r arian i'w wneud, dim ond gwastraff o amser addysgu ydyw yn y bôn."*

Cynigiai rhai ysgolion gyfweliadau i fyfyrwyr a rhieni ill dau cyn derbyn y myfyriwr i'r chweched dosbarth; teimlwyd bod y rhain yn eithriadol o fuddiol o ran cael y rhieni i fod yn rhan a chynnig cefnogaeth ychwanegol i fyfyrwyr yn ystod y cyfnod penderfynu.

*"Ry'n ni hefyd yn cyfweld â'n plant a'u rhieni …i ddangos iddyn nhw "wel dyma'r hyn ry'ch chi am ei wneud, ond a ydych chi wedi ystyried hyn?"…Oherwydd mae'n brofiad newydd i rai rhieni…ac mae rhieni mor awyddus bod eu plant yn cael y cam nesa' yn gywir felly ry'n ni'n teimlo os yw'r rhieni'n rhan o benderfyniad y plentyn 'ma mae'n atgyfnerthu popeth ry'n ni'n ceisio'i wneud â nhw hefyd."*

*"Ry'n ni'n gwneud rhywbeth tebyg dros gyfnod o nosweithiau lle cynigir cyfweliad i bawb a chawn ni'n cefnogi gan y Gwasanaeth Gyrfaoedd wrth wneud hynny. Am eu bod yn aml yn dod i mewn ag un syniad sy'n llawer rhy uchelgeisiol ar gyfer yr hyn maen nhw,a bod yn realistig, yn mynd i'w gyflawni ac ar y cam hwnnw gallan nhw fynd yn ôl a chael sgwrs â Gyrfa (*Cymru*) ac yna dod yn ôl am gyfweliad arall. Ac ry'n ni'n gweithio gyda'n gilydd ar hwnna."*

*“Lle mae a wnelo’r rhieni â sefydlu, mae hynny’n fanteisiol iawn oherwydd, ydyn, mae eu rhieni’n dylanwadu’n fawr ar yr hyn maen nhw’n penderfynu’i wneud”*

*“Efallai y gall plant heddiw fod yn fwy dryslyd, yn fwy ofnus ynghylch y dewisiadau y mae’n rhaid iddyn nhw eu gwneud, am fod mwy o ddewisiadau allan yna i’w gwneud na phan yr oedden ni’n ifanc. Ac felly rwy’n credu bod cael eu rhieni i gyfranogi - mae’n atgyfnerthu hynny. Mae’n rhoi mwy o hyder iddyn nhw. Ydw, dwi’n credu dy fod yn mynd i’r cyfeiriad iawn, gwna’i dy gefnogi di. Dwi’n credu bod hwnna’n help mawr i gael rhieni i ymwneud â’r broses benderfynu honno. Ac mae’r plant yn gwerthfawrogi hynny hefyd.”*

Cyfeiriodd rhai cynrychiolwyr at gynlluniau prawf a oedd yn aros yn eu lle yn ystod wythnosau cyntaf y tymor ym Mlwyddyn 12, lle rhoddwyd mwy o amser i fyfyrwyr benderfynu ynghylch pwnc neu gwrs. Ystyrid bod manteision ac anfanteision yn gysylltiedig â’r ymagwedd hon, er y cyfaddefai’r holl ddarparwyr ei fod yn anochel y byddai rhai myfyrwyr yn newid eu meddwl ynghylch y dewisiadau roeddent wedi’u gwneud ynghylch mynd i’r chweched dosbarth:

*“Rwy’ wedi clywed am rai mannau lle maen nhw, mewn gwirionedd, yn gwneud cyfnod prawf o bythefnos ac ar ddiwedd y pythefnos gall pobl newid eu meddyliau ac felly maen nhw’n ceisio tynnu llinell.”*

*“Gall fod yn eitha’ negyddol fel’na am eu bod nhw’n frwdfrydig iawn pan ddôn nhw i fyny. Mae gennych chi fyfyrwyr sy’n awyddus ac yn barod i ddechrau o ddifrif ar eu cymdeithaseg neu beth bynnag maen nhw am ei wneud, ac mae’r sesiwn flasu o bythefnos, lle mae pobl efallai’n mynd i mewn ac allan o bethau, yn gallu bod yn negyddol iawn. Maen nhw wirioneddol am gychwyn arni.”*

### 5.3 Dysgu Galwedigaethol a Chydweithio

Roedd barn gymysg ynghylch p’un a oedd diddordeb gwirioneddol mewn cynnig dysgu galwedigaethol yn y chweched dosbarth yn yr ysgolion. Lle’r oedd gan aelodau’r grŵp enghreifftiau o brofi’r math hwn o ddarpariaeth, er enghraifft â TGAU galwedigaethol cyn 16, roedd y diddordeb yn ‘anghyson’. Lle rhoddwyd yr enghraifft hon nodwyd bod yn well gan ddysgwyr wneud TGAU Astudiaethau Busnes er y teimlai’r ysgol bod y cwrs galwedigaethol yn gyfrwng da iawn. Roedd yr ysgol hon o’r farn bod y diffyg diddordeb, efallai, yn ganlyniad i’r ffaith bod gorfod cyfaddawdu â dewisiadau mewn mannau eraill.

*"Roedd yn gwrs rhagorol ac roedden ni'n teimlo'n hyderus iawn y byddai'n llwyddiant, ond nid felly y bu hi."*

Cytunai darparwr arall mai ehangder yr opsiynau yw'r hyn sy'n gwneud y llwybr academaidd yn un y mae llawer yn ei ffafrio:

*"Rwy'n credu ei fod yn rhan o'r broblem â llawer o'r pynciau galwedigaethol sy'n cael eu cynnig … y gofynnir i fyfyrwyr arbenigo mewn maes galwedigaethol penodol yn rhy gynnar. A dyn nhw ddim yn gwybod mewn gwirionedd … er y byddan nhw o bosibl yn dweud eu bod … mae'r rhan fwyaf o blant am fetio pob ffordd."*

Lle'r oedd diddordeb ymysg Penaethiaid Chweched Dosbarth mewn cynyddu'r dewis a gynigid i fyfyrwyr yn 16 oed, roeddent yn cyfaddef y cafwyd problemau â'r ddarpariaeth yn aml o ran lleoliad (cynnig profiad yn y gwaith a dod o hyd i bartneriaid addas) a chyfleusterau (yn dibynnu ar natur y cwrs). Yn ogystal â hynny, teimlid bod lefel gyffredinol y diddordeb mewn dysgu galwedigaethol yn y chweched dosbarth yn isel ar hyn o bryd, gan godi cwestiynau ynglŷn â hyfywdra ariannol cynnig ystod ehangach o gyrsiau i ychydig o fyfyrwyr yn unig.

Barn rhai darparwyr oedd y dylai darparwyr gwahanol lynu wrth yr hynny roeddent yn ei wybod ac yn ei wneud orau, yn hytrach na cheisio cynnig popeth a allai, yn y pen draw, effeithio ar ansawdd.

*"Dyw'r syniad hwn lle mae pawb yn cynnig popeth ddim yn gweithio mewn gwirionedd a'r hyn yw, yw cael y darparwyr addysg, yr ysgolion, y colegau a'r darparwyr DYYG i feddwl am yr hyn maen nhw'n ei wneud orau yn hytrach na'u gwasgaru eu hunain mor denau."*

*"Gadewch i golegau lynu at beth maen nhw'n ei wneud orau: rwy'n credu bod y colegau wedi cynnig llawer mwy o ddarpariaeth Lefel A yn ddiweddar, lle'n draddodiadol roedden nhw'n gwneud y cyrsiau galwedigaethol – y trin gwallt a'r plymio – ac erbyn hyn os edrychwch chi ar y prosbectws maen nhw hefyd yn cynnig yr holl gyrsiau AS a Lefel A. Ch'mod, felly caniatawyd iddyn nhw ehangu'u darpariaeth, sydd eto ond yn ei wneud yn fwy anodd i ni."*

Nododd darparwyr o'r holl ardaloedd enghreifftiau o ymagweddau cydweithredol rhwng ysgolion a cholegau a oedd yn ceisio ymdrin â'r galw am ddysgu galwedigaethol lle'r oedd yn bodoli, ond roedd y darlun yn anghyson a gwelwyd materion a oedd yn gysylltiedig â lleoliad, ac felly teithio, yn rhwystr i fwy o gydweithio gan rai. Ysgogodd hyn un darparwr i godi'r angen am edrych am fwy

o atebion creadigol i gydweithio yn hytrach na dim ond symud myfyrwyr rhwng lleoliadau:

*"Yn (*enw ysgol Gymraeg*) roedd ganddyn nhw ystafell fideo-gynadledda wych a ariannwyd yn ganolog.. mae'r Pennaeth…yn addysgu dosbarth a rennir gyda'u hanner nhw ymhle wn i ddim, ar wasgar ar draws y wlad, ac mae'n ardderchog. Does dim gobaith caneri gynnon ni o allu fforddio rhywbeth fel'na. Roedd yn £40,000, £60,000 i'w sefydlu, rhywbeth tebyg…Ond mae'r safon yn drawiadol iawn, iawn ac allwch chi ddim ond meddwl p'un ai, yn lle taflu arian at ryw fath o system dacsi i gludo plant o amgylch, efallai y byddai ateb mwy creadigol yn y maes hynna."*

Soniwyd am y system bresennol o ariannu o fewn Chweched Dosbarth Ysgolion ac AB fel rhwystr go iawn i gydweithio, am y byddai gwahanol ddarparwyr yn erlid yr un myfyrwyr yn y pen draw. Fodd bynnag, cafwyd cydsyniad ynghylch pe gellid cael gwared ar yr elfen gystadleuol bod darparwyr, yn gyffredinol, yn gefnogol i'r syniad o gydweithio ond bod angen neilltuo mwy o amser i'r mater i sicrhau ei fod yn cael ei gynnig yn effeithiol

*"Petai (*cyllid*) yn llai o fater cynhennus, fyddai'r holl gydweithio ry'n ni'n dau ei eisiau mewn gwirionedd, er budd i'r ddwy ochr, ddim mor gynhennus. Ond y broblem yw cael amser i eistedd a thrafod y peth."*

*"Ry'ch chi'n dechrau ofni bod y plentyn yn sownd ynghanol system sy'n cael ei chyfyngu fwy a mwy gan economeg."*

Fodd bynnag, roedd galw cyffredinol am rannu arfer gorau yn well ar draws sectorau ac oddi mewn i sectorau o ran atebion creadigol i gydweithio, er mwyn i ddarparwyr allu dysgu beth sy'n gweithio orau mewn ardaloedd gwahanol neu mewn amgylcheddau dysgu gwahanol.

## 5.4 Cymorth Wrth Ddysgu

### *5.4.1 Cymorth i Ddysgwyr*

Teimlai darparwyr mai un o'r pethau mwyaf cadarnhaol am ddysgu mewn amgylchedd Chweched Dosbarth Ysgol oedd ei fod, yn gyffredinol, yn llai o faint na choleg a gallai gynnig mwy o gefnogaeth i'r dysgwr. Gan fod mwyafrif y dysgwyr yn aros ymlaen o Flwyddyn 10, roedd athrawon yn eu hadnabod a golygai hyn fod gan yr ysgol deimlad am lefel gallu'r myfyriwr hwnnw a'i botensial

i gyflawni, a'i fywyd y tu allan i'r ysgol. Rhoddwyd enghraifft o ddysgwr a oedd wedi cofrestru yn y chweched dosbarth i astudio cwrs TG sylfaenol, ond yn y pen draw enillodd dystysgrif uwch oherwydd y gefnogaeth unigol y gellid ei chynnig i'r myfyriwr hwnnw. Teimlid nad dyma fyddai'r canlyniad, efallai, mewn coleg AB mawr. Fel y nododd un cynrychiolydd, mae'r system ysgolion yn caniatáu i athrawon sylwi ar wendid o dro i dro ym mherfformiad myfyriwr:

*"Os yw pethau'n mynd o'i le ar y dydd mewn pwnc penodol, rwy'i wedi gweld bod athrawon yn gydymdeimladol iawn i hynny ac efallai y gallan nhw gymryd hynny i ystyriaeth yn fwy na, d'wedwch, pe bai'r myfyriwr yn gadael ac yn mynd i'r coleg, ac mae'n gwbl amhersonol ac felly'n aml gwneir penderfyniadau ar y canlyniadau maen nhw'n eu cael yn y pwnc penodol hwnnw. Ond mae hynny'n rhywbeth y gall yr athrawon ddweud, wel, iawn, ac efallai ymdrin â hynny a gallan nhw oresgyn y broblem benodol honno."*

Roedd darparwyr yn awyddus i bwysleisio bod y strwythurau Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) mewn ysgolion yn gwneud cyfraniad mawr i lwyddiant dysgwyr ac y cynigid y gefnogaeth hon o Flwyddyn 7, a thrwy hynny roedd yn cael effaith gynyddol ar y myfyriwr. Fodd bynnag, nid oedd yr agwedd hon o Chweched Dosbarth Ysgolion yn gynwysedig yn yr Arolwg Cenedlaethol o Chweched Dosbarth Ysgolion yng Nghymru 2004.

Math arall o gymorth a gynigid i fyfyrwyr a oedd yn newydd i rai ysgolion oedd 'cyfaill', y byddai athrawon yn ei nodi fel myfyriwr digon aeddfed i gynorthwyo â'r cyfnod cynefino i fyfyrwyr newydd mewn ysgol newydd.

### *5.4.2 Problemau*

Amlygodd Arolwg Cenedlaethol o Chweched Dosbarth Ysgolion yng Nghymru 2004 y mathau o broblemau yr oedd myfyrwyr yn eu hwynebu. Yn benodol, nododd y dysgwyr hyn broblemau â:

- chynnal cymhelliad personol (soniwyd am hyn gan 57%)
- cadw'n gyfoes â safon y gwaith (37%)
- myfyrwyr eraill ( 15%)

Trafodwyd y rhain gan ddarparwyr yng nghyd-destun ehangach y rheswm y gallai'r materion hyn godi. Mewn llawer o ardaloedd yng Nghymru, ystyrid bod

materion amddifadiad cymdeithasol yn bwysig. Weithiau, roedd y myfyrwyr hyn yn cynrychioli cenhedlaeth gyntaf teulu a oedd yn 'aros ymlaen' yn y chweched dosbarth ac weithiau, ond nid bob tro, cafwyd diffyg cefnogaeth gan y rhieni. Yn wir, tueddai argraffiadau rhieni am y chweched dosbarth wyro i'r naill begwn neu'r llall (h.y. bod aros yn y chweched dosbarth, ar y naill law, yn ddymunol ac yn cael ei weld fel y llwybr 'gorau', i'r rhieni hynny, ar y llaw arall, a oedd o'r farn bod aros yn yr ysgol yn 'wastraff amser').

Cododd nifer o ddarparwyr bryderon am iechyd meddwl eu myfyrwyr a sut roedd hyn yn effeithio ar eu perfformiad. Credai rhai darparwyr bod pobl ifanc o dan lawer mwy o bwysau i gydymffurfio, ac mewn rhai achosion roedd hyn yn cymhlethu'r problemau eraill yn eu bywydau, gan arwain at faterion iechyd meddwl. Roedd yn fater y teimlai rhai yr oedd yn werth ymdrin ag ef mewn arolygon o fyfyrwyr chweched dosbarth yn y dyfodol:

*"Mae gen i bryder gwirioneddol am iechyd meddwl nifer sylweddol o fyfyrwyr 16 oed."*

*"Mae hefyd yn amlygu'i hun yn y gyfradd gynyddol o fyfyrwyr sy'n rhoi'r gorau iddi o ganlyniad i iselder, ac o ganlyniad i salwch sy'n gysylltiedig â straen."*

*"Mae llawer mwy o bwysau arnyn nhw i gydymffurfio â phethau penodol… Ry'ch chi'n edrych ar y seicosis a'r niwrosis mewn pobl yn eu harddegau ac mae'n rhyfeddol. Ac mae'n rhaid bod esboniad am hynny – ch'mod, pam fod gennych chi bobl yn eu harddegau â chanddyn nhw anorecsia, bwlimia, iselder, sy' ar gynnydd cymaint a pham bod problemau cynyddol â theuluoedd?…Ac weithiau dy'ch chi ddim yn gwybod bod problem…mae'r plentyn yma'n mynd o amgylch yr ysgol â gwen ar ei wyneb ac ry'ch chi'n dweud, "wnes di fethu tair gwers yr wythnos ddiwetha', beth ddigwyddodd?" a bang, mae'r dagrau'n dod, ac ry'ch chi'n meddwl "beth sy' wedi digwydd yn fan hyn?". Ch'mod, ry'ch chi yno am weddill y dydd gyda'r myfyriwr hwnnw wedyn."*

Teimlai darparwyr eu bod yn delio â phroblemau cystal ag y gallent, a chyn belled â phosibl roeddent yn ceisio nodi problemau'n gynnar ar sail y berthynas a fu ganddynt â'r myfyriwr dros nifer o flynyddoedd cyn y chweched dosbarth. Fodd bynnag, roedd materion o'r fath yn dod yn amlycach tra nad oedd yr adnoddau i ymdrin â nhw yn cynyddu.

*"Rwy'n credu, fel y bu erioed, bod a wnelo ag "adnabod yn gynnar", ynte? Mae angen ymyrryd a helpu a'u codi a cheisio mynd i'r afael â'r problemau. Nodi problemau'n gynnar, unwaith yn rhagor mae hynny'n gwestiwn o adnoddau,*

*amser a'r mecanweithiau a weithredir i wneud hynny ac mae'n rhoi mwy o bwysau arnon ni gyda mwy a mwy yn cael ei ofyn genyn ni, â llai a llai o arian ac adnoddau'n dod i mewn."*

*"Rwy'n credu y byddai rhywbeth anarferol yn ei ddangos – eu gwaith yn dirywio, diffyg presenoldeb.  Dy'n ni ddim yn gwybod beth yw'r broblem ond byddai rhywbeth yn rhoi rhybudd i ni.  A dyna un o'r manteision â'r ysgol yw bod gennym bum mlynedd o wybodaeth gefndir."*

*"Ac mae ychydig ohono'n barhaus, ch'mod, os oes gennych fyfyriwr sy'n dioddef o iselder gallwch fod yn sôn am dreulio 20 munud y diwrnod gyda'r myfyriwr hwnnw dim ond er mwyn ei gadw i fynd.  Ac efallai bod gennych 200 o fyfyrwyr i edrych arnyn nhw yn y chweched dosbarth."*

Teimlid nad oedd modd gorbwysleisio pwysigrwydd y berthynas athro/disgybl o ran nodi problemau a chynnig cymorth i fyfyrwyr bregus. Er hynny, golygai datblygiadau mewn cytundebau addysgu bod symudiadau i wahanu'r elfen fugeiliol o rôl yr athrawon.  Er y gwelai darparwyr fanteision cynnwys arbenigwyr wrth gynnig cefnogaeth, nid oeddent o'r farn ei fod yn bosibl nac yn ddymunol cael gwared ar yr elfen fugeiliol yn llwyr o gylch gwaith yr athro.

*"Rhaid i chi allu defnyddio arbenigwyr ond allwch chi mo'i drosglwyddo i arbenigwyr."*

*"Na, mae wedi'i integreiddio…wel, mae'n annatod i rôl yr athro neu'r tiwtor, on'd yw e?"*

*"A dyw'r disgyblion ddim am eu cael nhw bob tro.  Os ydyn nhw wedi'ch dewis chi fel y person maen nhw am siarad ag e, chi fydd e."*

Unwaith eto, soniwyd am rôl yr hyfforddwr dysgu fel elfen arall bosibl o'r ddarpariaeth gymorth pan fydd dysgwyr yn cael problemau:

*"Ond dyna fydd gogoniant model yr hyfforddwr dysgu ynte?  Oherwydd dwi'n gwybod bod colegau wedi cael yr holl wasanaethau myfyrwyr hyfryd hyn yn agored iddyn nhw … felly, os oes achos, mae cynghorwr hyfforddedig ar gael, mae ganddyn nhw'r holl gefnogaeth les a'r cyngor hwn, maen ganddyn nhw'r tiwtor, … ond rwy'n gwybod bod darlithwyr ac athrawon yn ei chael yn anodd mynd ymlaen â'r dysgu ei hun … mae'n fater … felly gobeithio y bydd yr hyfforddwr dysgu 14 – 19 hwn, ch'mod â'r holl stwff cymelliannol a phopeth arall a ddaw gydag e, yn helpu."*

Teimlai un cynrychiolydd y byddai'n fanteisiol i ddosbarthiadau'r chweched wahodd asiantaethau allanol i ysgolion i amlygu'r gwasanaethau cymorth

proffesiynol a gynigir i fyfyrwyr chweched dosbarth y tu allan i'r ysgol. Er y byddai hyn yn cymryd amser o'r cwricwlwm, efallai y bydd ganddo fanteision hir dymor:

*"Rwy'n credu hefyd bod dosbarthiadau chwech, weithiau, yn cael mudiadau i ddod i mewn a fyddai, o bosib', yn siarad ac a fyddai'n gosod yn eu lle, a fyddai'n amlygu'r pethau …problemau dyledion neu faterion rhywiol, pethau fel'na, a allai fod yn eu poeni … Ond …mae'n golygu rhoi amser i ffwrdd o'r cwricwlwm i wneud hynny… ond gall fod o fudd … a gall adeiladu parch mwy at yr ysgol fel sefydliad sydd â diddordeb yn ei aelodau fel unigolion."*

Roedd problem arall a nodwyd gan gynrychiolwyr yn fynych yn gysylltiedig â'r ffaith bod gan fyfyrwyr swyddi rhan amser wrth iddynt astudio a bod y rhain weithiau'n effeithio ar eu perfformiad drwy dynnu eu sylw oddi wrth eu hastudiaethau. Yn wir, mewn rhai achosion, roedd teuluoedd myfyrwyr yn dibynnu ar yr incwm a enillid o waith rhan amser. Roedd myfyrwyr yn enwedig o debygol i fod yn gweithio sifftiau gydag adwerthwyr, fel archfarchnadoedd, ac er bod ysgolion mewn rhai ardaloedd wedi cydgysylltu ag adwerthwyr lleol a gofyn iddynt beidio â chynnig sifftiau a oedd yn cyd-daro ag oriau ysgol, ni fu gan hyn lawer o effaith; mewn rhai achosion adroddodd myfyrwyr eu bod wedi colli eu gwaith rhan amser ar ôl iddynt wrthod sifftiau penodol a oedd yn gwrthdaro â'u gwersi.

Nododd un cynrychiolydd astudiaeth a ddangosai effeithiau oriau gwaith amrywiol ar berfformiad myfyrwyr:

*"Gwnaed astudiaeth gan Wolverhampton rai blynyddoedd yn ôl …mewn gwirionedd mae'n dweud os yw disgyblion ysgol neu ddisgyblion chweched dosbarth yn gweithio rhwng chwech ac wyth awr yr wythnos mae'n fuddiol am ei fod yn rhoi cyfrifoldeb iddyn nhw ac maen nhw'n aeddfedu'n gynharach. Mae rhwng wyth a rhyw bymtheg awr yn cael effaith lliniarol i ryw raddau. Ond y tu hwnt i hynny, pymtheg awr neu'n fwy, mae'n niweidiol iawn i'w hastudiaethau."*

### *5.4.3 Rhai sy'n Gadael yn Gynnar*

Dywedodd 30% o'r myfyrwyr yn Arolwg Cenedlaethol o Chweched Dosbarth yr Ysgolion yng Nghymru 2004 eu bod wedi meddwl yn ddifrifol am adael eu chweched dosbarth er, yn amlwg, na wireddwyd hyn ar gyfer y grŵp a arolygwyd.

Teimlai darparwyr bod amrywiaeth o resymau tros fod myfyrwyr yn gadael y chweched dosbarth yn gynnar; penderfynai rhai myfyrwyr nad oedd amgylchedd yr ysgol yn iawn ar eu cyfer nhw, tra roedd y rhesymau y gadawai eraill yn gysylltiedig â'r ffaith nad oedd y cyrsiau a ddewiswyd ganddynt yn debyg i'r hyn yr oeddent yn ei ddisgwyl. Fodd bynnag, ni theimlai darparwyr bod ganddynt lawer o ddylanwad ar lefelau'r rhai a oedd yn gadael yn gynnar ac y byddai myfyrwyr yn rhoi'r gorau iddi yn broblem bob amser. Roeddent yn gweld delio â myfyrwyr sy'n gadael yn gynnar fel rhan arferol o'r gefnogaeth barhaus a roddid i fyfyrwyr, a gwnaed pob ymdrech i sicrhau bod rhai a oedd yn gadael yn gwneud yn dewis cywir. Lle'r oedd yn bosibl, byddai darparwyr yn cynnwys rhieni mewn unrhyw drafodaethau ynglŷn â dewisiadau myfyrwyr.

*"Bydden, bydden ni'n cyfweld unrhyw un a byddai Gyrfa (*Cymru*) yn cyfweld â nhw. Os oeddent yn diflannu, fel sy'n digwydd o bryd i'w gilydd, yna byddai'r gwasanaeth Gyrfa (*Cymru*) yn mynd ar eu holau."*

Roedd cryn drafod ynghylch yr ystadegyn yn Arolwg o Foddhad Dysgwyr yng Nghymru 2003 bod 30% o fyfyrwyr chweched dosbarth wedi *meddwl* yn ddifrifol am adael eu chweched dosbarth. Roedd llawer o gynrychiolwyr wedi'u synnu bod y ffigur hwn mor uchel a theimlent ei fod yn bwysig i ni roi'r ffigur yn ei gyd-destun, er enghraifft gyda'r gyfran sy'n gadael yn gynnar mewn gwirionedd (a ystyriwyd yn isel o'i gymharu â mathau eraill o ddarpariaeth).

*"…Oherwydd gallwch chi weld y sbin: "mae 30% o bobl ifanc yn y chweched dosbarth wedi ystyried gadael". Ch'mod, gallwch chi weld y penawdau. Rhaid cymhwyso hynny. Rhaid i chi nodi pa mor ddifrifol roedden nhw wedi ystyried gadael, beth oedd y ffactorau a arweiniodd at hynny a beth achosodd iddyn nhw aros."*

*"Ry'n ni'n hyddysg iawn mewn dehongli'r data hwn. Ond unwaith mae'n mynd allan i sylw'r cyhoedd, mae perygl difrifol yno o ran camddehongli, sbin ac ati. Ac rwy'n credu bod angen i ni fod yn ymwybodol iawn o hynny ac mae'n rhaid i ni wella'r broses fel y gallwn ni gynnwys yr ystyriaeth honno."*

## 5.5 Ansawdd a Rheoli Hyfforddiant

Dangosodd Arolwg Cenedlaethol o'r Chweched Dosbarth mewn Ysgolion yng Nghymru 2004 bod 10% o fyfyrwyr yn fodlon iawn ag ansawdd yr addysg yn eu chweched dosbarth ac, yn gyffredinol, mynegodd 86% rywfaint o foddhad. Fodd

bynnag, roedd y canlyniadau hyn yn cyferbynnu â'r rheiny a ryddhawyd gan Estyn, lle barnwyd bod Chweched Dosbarth mewn Ysgolion yn gyson yn cynnig addysgu o ansawdd uwch na darparwyr addysg eraill. Awgrymai NOP y gallai'r gwahaniaeth mewn canlyniadau rhwng Chweched Dosbarth Ysgolion a mathau eraill o ddarparwyr fod yn gysylltiedig â'r broses wahanol o benderfynu. Efallai nad oedd dysgwyr yn Chweched Dosbarth Ysgolion yn teimlo eu bod wedi gwneud dewis cadarnhaol i astudio yn amgylchedd yr ysgol; dim ond y cam nesaf ydoedd a pharhad o beth a gafwyd cyn hynny. Mewn cyferbyniad, byddai'r rheiny a oedd wedi newid eu darparwr wedi gwneud penderfyniad ymwybodol i adael yr ysgol a dysgu mewn amgylchedd cwbl wahanol, gan ddynodi 'cychwyn o'r newydd'.

Y teimlad cyffredinol ymysg darparwyr, fodd bynnag, oedd bod canlyniadau arolygiadau Estyn yn siarad drostynt eu hunain; roedd y Chweched Dosbarth mewn Ysgolion yn gyson yn cyflawni canlyniadau rhagorol o ran ansawdd yr addysg. Felly, roedd rhai darparwyr yn ei weld yn anodd derbyn cymariaethau a wnaed yn Arolwg Cenedlaethol o Foddhad Dysgwyr yng Nghymru 2003 a ddangosai bod dosbarthiadau'r chweched yn perfformio'n gymharol waelach nag AB a DYYG yn ôl mesurau allweddol ym marn dysgwyr. Cwestiynau rhai darparwyr y canlyniadau, gan ddrwgdybio bod gan ELWa agenda cudd mewn perthynas â chyllido'r Chweched Dosbarth mewn Ysgolion yn y dyfodol.

Roedd teimlad cyffredinol ei fod yn beryglus cymharu ar draws y tri math o ddarparwr oherwydd y gwahaniaethau cynhenid rhyngddynt. Cydnabuwyd y cyfyngid ar gymharu canlyniadau'r arolygon yn uniongyrchol oherwydd y gwahaniaethau yn y methodolegau a ddefnyddiwyd i gasglu barn (er bod NOP yn datgan na ellid esbonio'r gwahaniaethau yn llawn ar sail y dulliau gwahanol o gasglu data). Er bod darparwyr yn hoff o'r gallu i feincnodi, roeddent yn dadlau y dylid cyfyngu'r cymharu i gymariaethau 'oddi mewn i' sector iddynt fod yn ystyrlon:

*"Fel arall dych chi ddim yn mesur tebyg gyda'i debyg, ydych chi?"*

Ystyriwyd ei fod yn bwysig hefyd bod y canlyniadau'n ystyried amrywiaeth ysgolion Cymru a'r mathau o gyrsiau a gynigid gan ysgolion gwahanol.
Roedd darparwyr yn arbennig o awyddus i bwysleisio y dylid ymdrin yn ofalus iawn â lledaenu canlyniadau arolwg - yn y dwylo anghywir, gellid defnyddio'r

canlyniadau yn eu herbyn mewn ffordd annheg. Roedd hyn yn gymwys yn gyhoeddus ac oddi mewn i ysgolion, lle gallai nifer fach o athrawon a/neu bynciau arwain at adnabod athrawon.

Ynglŷn â'r pwynt olaf hwn, dylid nodi bod canlyniadau Arolwg Cenedlaethol o'r Chweched Dosbarth mewn Ysgolion yng Nghymru 2004 yn gwbl gyfrinachol. Derbyniodd pob ysgol ei hadroddiad ei hun, gan ddangos yr ysgol wedi'i meincnodi yn erbyn y cyfartaledd cenedlaethol. Roedd yr adroddiadau hyn ar ffurf graff ac nid oeddent yn cynnwys unrhyw gyfeiriadau at aelodau unigol o'r staff addysgu. Lle'r oedd gan ysgolion lefel ymateb isel (o'r math y byddai dadansoddi'r canlyniadau neu eu cymharu â'r cyfartaledd cenedlaethol yn annibynadwy), ni ddarparwyd adroddiad.

Wrth ddarparu'r canlyniadau i ELWa, cronnwyd holl ymatebion y myfyrwyr fel na ellid adnabod yr un ysgol. Yn ogystal â hynny, ni roddodd NOP wybod i ELWa pa ysgolion a lenwodd holiadur yr arolwg.

*"Mae'n anodd peidio â gor-bwysleisio pa mor siomedig oedd gweld canlyniadau'r arolwg hwn … a ddefnyddiwyd yn y fforwm cyhoeddus mewn ffordd nad oedd o help. Mae mor bwysig nad yw hynny'n digwydd, am ei fod yn tanseilio'r holl waith sydd wedi mynd i mewn iddo, a'r holl arian sydd wedi cael ei roi iddo, ac ati."*

Er gwaethaf hynny, derbyniai rhai darparwyr bod lle i wella o ran y mesurau hynny a raddiwyd yn gymharol llai ffafriol gan ddysgwyr. Fel yn achos mathau eraill o ddarparwyr, fodd bynnag, teimlent y cyfyngid ar welliannau, i ryw raddau, gan y cyllid a oedd ar gael i ysgolion. Roedd penaethiaid Chweched Dosbarth Ysgolion yn awyddus i nodi eu bod bob tro'n ymdrechu i ymgynnull y tîm gorau i reoli Blynyddoedd 11 a 12, h.y. y rheiny sydd fwyaf addas i reoli myfyrwyr yng nghanol trosglwyddo o fod yn blentyn ysgol i fod yn oedolyn ifanc.

## 5.6 Arolygon yn y Dyfodol

Roedd tystiolaeth ymysg darparwyr bod boddhad dysgwyr o bwysigrwydd cynyddol. Roeddent yn hoff o'r syniad o gael barn y dysgwyr yn eu hysgolion, gan y gallai hyn fwydo i mewn i berfformiad ar lefel unigol ac adrannol.

*"Rwy'n credu ein bod ni'n llawer mwy ymwybodol o'r syniad o foddhad defnyddwyr erbyn hyn."*
*"Erbyn hyn, mae Estyn yn adrodd am fyfyrwyr ôl 16 ar wahân yn eu hadroddiadau ac felly mae pwysau allanol am sicrwydd ansawdd ôl 16 wedi'i adeiladu i mewn i fframwaith yr arolygiad beth bynnag. Y pwynt arall yw bod pwyslais sylweddol y dyddiau hyn ar lais y myfyrwyr, 'gwrando ar ddysgwyr' a chynghorau myfyrwyr a'r math hynny o beth. Ac, yn ddiddorol iawn, rwy' wedi bod o dan gryn bwysau gan gyngor Blwyddyn 11 eleni, sydd wedi bod yn curo'r drwm ynghylch Addysg Grefyddol Lefel A. Fel arfer, maen nhw am sôn am y toiledau, y wisg ysgol a'r math yma o beth, ond mae lleiafrif llafar cryf sy'n defnyddio strwythur cyngor yr ysgol i (*gynnig adborth*) am y cwricwlwm. Mae'n anhygoel, yn drawiadol iawn."*

Roedd rhai ysgolion yn ymgynghori â'u myfyrwyr gan ddefnyddio amrywiaeth o fformatau, o adolygiadau anffurfiol i arolygon hunan-gwblhau. Mewn rhai ysgolion, roedd ymgynghoriad mwy helaeth a oedd yn cynnwys rhieni a'r gymuned ehangach. Rhannodd un darparwr y profiadau o gymharu barn rhieni a myfyrwyr ar ôl arolwg o'r ddau:

*"Roedd cydberthynas gref rhyngddyn nhw. Yr hyn a oedd yn gwrthdaro oedd bod rhieni'n meddwl bod y plant yn wirioneddol fwynhau'r ysgol ac yn hoff ohono i gyd, ac roedd y plant, yn syml, yn dweud eu bod yn ei chasáu! Ond ar wahân i hynny, roedd llawer o orgyffwrdd rhyngddyn nhw."*

Cynrychiolai rhai o'r cynrychiolwyr ysgolion a oedd wedi cymryd rhan yn Arolwg Cenedlaethol o'r Chweched Dosbarth mewn Ysgolion yng Nghymru 2004 ac a oedd wedi cael profiad cadarnhaol.

*"Mae'n rhywbeth na fydden ni, efallai, wedi cael yr amser i'w wneud, ac felly roedd yn adlewyrchiad defnyddiol iawn o beth sy'n digwydd y gallwn ei ddefnyddio."*

Roedd rhai wedi defnyddio'r canfyddiadau yn sylfaen i archwilio rhai o'r materion yn ddyfnach:

*"I ddilyn ymlaen o hyn, gwnes i arolwg o ddisgyblion y chweched dosbarth presennol i geisio dod o hyd i wybodaeth am y myfyrwyr sydd heb aros a beth oedd y rheswm am hynny yn eu tyb nhw. A gofyn iddyn nhw hefyd pa fath o bynciau y dylid eu cynnig yn y dyfodol i geisio denu mwy o fyfyrwyr chweched dosbarth, yn y bôn, i aros yn yr ysgol. A hefyd i edrych eto ar a oedden nhw'n fodlon am mai'r rhain, mewn gwirionedd, oedd y chweched dosbarth sydd newydd adael yn ogystal â'r chweched dosbarth uwch presennol."*

Roedd rhai o agweddau fformat yr arolwg presennol yr oedd darparwyr am eu newid, a chafwyd rhai awgrymiadau hefyd ynghylch sut y gellid ehangu'r arolwg mewn ffordd ddefnyddiol:

- Diwygio geirio un o'r mesurau. Teimlid nad oedd 'gwneud y pwnc yn ddiddorol ac yn bleserus i chi' yn fesur defnyddiol, gan y teimlai darparwyr bod 'pleserus' yn ddisgrifiad a oedd yn rhy gryf ac a fyddai'n arwain at raddio is.
- Roedd rhai darparwyr am archwilio lefelau diddordeb ar gyfer dosbarthiadau a gynigid y tu allan i oriau ysgol mewn pynciau lleiafrifol fel Ffrangeg a Cherddoriaeth.
- Cydweithio – asesu i ba raddau y byddid wedi effeithio ar ddewisiadau myfyrwyr ynghylch mynychu'r Chweched Dosbarth yn yr Ysgol pe cynigid mwy o ddewisiadau pwnc iddynt trwy drefniadau ar y cyd.
- Yn fwy cyffredinol, cwestiynu i ba raddau yr oedd y dewis o bynciau a gynigid yn dylanwadu ar y penderfyniad i ddewis Chweched Dosbarth yn yr Ysgol; pa ffactorau a allai fod wedi effeithio ar y dewis hwnnw; a oes gormod o ddewis?
- Argaeledd a chyfnodau aros ar gyfer cyngor am yrfaoedd, nid ansawdd yn unig.
- Barn myfyrwyr am y strwythurau cefnogaeth a weithredir mewn ysgolion.
- Gofyn i fyfyrwyr beth yr hoffent ei weld yn cael ei gynnwys yn yr arolwg.

*"Rwy'n credu mai'r datblygiad naturiol o hynny yw gofyn i'r myfyrwyr mewn gwirionedd beth fyddai'n gwella'r sefyllfa iddyn nhw oherwydd rwy'n credu bod hyn wedi bod ynghylch sut maen nhw'n teimlo am eu sefyllfa ar hyn o bryd, ond dw'i ddim yn credu y bu cwestiwn am sut y gellid ei wella."*

- Cynnwys mwy o gwestiynau am gyfleusterau - mater pwysig i lawer o fyfyrwyr, ond a oedd heb ei gynnwys yn fanwl yn yr arolwg.
- Cwestiynau ynghylch iechyd meddwl; i ba raddau y teimlai myfyrwyr dan bwysau.
- Cwestiynau ynghylch rheoli amser ond gan ddefnyddio geiriau a oedd yn wir yn mynd i'r afael â'r mater o gynnwys yr hyn roeddent angen ei gyflawni (yn hytrach na defnyddio geirio sy'n atgoffa myfyrwyr o fodiwl maent wedi'i astudio).

- Roedd darparwyr yn awyddus y dylai arolygon yn y dyfodol allu cynnig canlyniadau yn ôl y lefel o addysg, h.y. sylfaenol, uwch, ac ati.
- 'Gweithgareddau cyfoethogi', h.y. gweithgareddau allgyrsiol neu gymunedol y maent yn cyfranogi ynddynt a pha mor bwysig yw'r rhain, yn enwedig mewn perthynas ag ysgolion cyfrwng Cymraeg.

Roedd un darparwr am gael mwy o'r arolwg o ran arwyddion ar gyfer gyrru ymgysylltiad â'r dysgwr yn ei flaen:

*"Byddai'n rhaid iddo wahaniaethu yn fwy na'r hyn sydd gennych chi yma fel cynnig cyntaf, a byddai'n rhaid iddo gynnig llwybrau go iawn i ni …rwy'n credu i mi, petawn i fel Pennaeth yn gallu cael syniad cliriach o beth fyddai ei angen i gael y bobl ifanc hyn i ymgysylltu â'r hyn y maen nhw'n ei wneud mewn ffordd fwy cynhyrchiol … ac mae ynghylch bod yn fwy annibynnol yn eu dysgu, mae ynghylch pa fath o adborth y mae ei angen arnyn nhw; mae ynghylch cydbwysedd bod yn ddidactig a dulliau eraill; mae ynghylch defnyddio gwaith dilynol, gwaith cartref ac asesiadau; y math yna o adborth ydyw. Pan fydd gennych y llu mawr hwn o strategaethau … o'r holl waith hyn a wneir arno, beth fydd mewn gwirionedd yn cyfri iddyn nhw o ran eu symud ymlaen?"*

Roedd nifer o ddarparwyr o'r farn y byddai'n ddefnyddiol ymestyn yr arolwg i grwpiau eraill, yn benodol dysgwyr ifanc a'r rheiny sydd wedi penderfynu gadael eu Chweched Dosbarth yn yr Ysgol:

*"Ar ôl cynnal yr arolwg hwn sy'n fan cychwyn mewn ôl 16 … byddai diddordeb gen i mewn mynd yn ôl at ddisgyblion 14 oed i edrych ar y cam hwn'na i ble maen nhw'n mynd a beth yw'r dewisiadau."*

*"Gallech godi'r mater ynghylch gwerth dysgu pe baech yn cynnwys y bobl hynny y bu'n rhaid iddyn nhw adael … Ac oherwydd pa faterion ac am ba resymau y bu'n rhaid iddyn nhw (*adael*) a gallech geisio llenwi'r bwlch. Dyna'r unig ffordd i'w wneud."*

*"Ym maes ehangach Partneriaeth Pobl Ifanc …mae ganddyn nhw rywbeth o'r enw 'SCC' sef y 'Strategaeth Cadw Mewn Cysylltiad … Maen nhw'n edrych ar fyfyrwyr sy'n cael eu colli o'r system a sut i gadw mewn cysylltiad â nhw a'r mater cyfan o ymadael, ac ati. Mae'n agenda mawr a byddai'n ddiddorol iawn archwilio sut ry'n ni'n gwneud hynny a sut ry'n ni'n cael mynediad at yr ystod o gyngor maen nhw'n ei gael."*

Teimlai llawer o ddarparwyr bod deall ymagweddau cymdeithasol yn bwysig hefyd, gan y byddai'n eu helpu i ddeall eu dysgwyr o ran eu bywydau a'u sefyllfa

anodd y tu allan i'r ysgol. Soniodd un darparwr am Arolwg Cymunedau sy'n Gofalu a pha mor ddefnyddiol y byddai'r wybodaeth gyd-destunol a ddarparwyd gan yr arolwg hwnnw wedi bod i'w ysgol ef:

*"Ydych chi'n gyfarwydd â'r 'Arolwg Cymunedau sy'n Gofalu'… yr hyn a gynhyrchodd mewn gwirionedd oedd ciplun eithriadol o fanwl a chynhwysfawr o ymagweddau cymdeithasol yn yr ardaloedd hynny. Ac mae'n rhaid i mi ddweud erbyn hyn, rwy'n difaru, er yr holl beryglon a'r gofid posibl, erbyn hyn rwy'n difaru peidio â bod yn rhan ohono am y byddai'r math o wybodaeth a ddarparwyd wedi bod yn ddefnyddiol iawn i mi fel tystiolaeth o'r cyd-destun y mae'n rhaid i ni weithio o'i fewn ar hyn o bryd oherwydd y mater o feincnodi prydau am ddim mewn ysgolion ac ati."*

*"Y mater ehangach rwy'n dod ato yw mai'r drafferth â'r math hwn o beth yw ein bod yn tueddu i edrych ar blant fel taen nhw'n byw mewn rhyw fath o fywyd adranedig. Ch'mod, bod eu haddysg yn rhywbeth sydd ar wahân i'w byd go iawn. Lle mewn gwirionedd, maen nhw'n byw bywyd cymhleth iawn."*

*"Dyw (*bywyd*) ddim yn dod i ben yn stond wrth glwyd yr ysgol. Dyn nhw ddim jyst yn dod i mewn fel person gwahanol â thei ysgol ac yn troi'n ddewiniaid academaidd. Mae ganddyn nhw'r holl bethau 'ma sy'n digwydd yn eu bywydau a dyna beth sy'n effeithio arnyn nhw."*

## Atodiad I: Manylion Presenoldeb

### Gweithdy Dysgu yn y Gwaith, Llanelwy, 8 Chwefror

| Math o sefydliad | Nifer disgwyliedig | Nifer yn mynychu |
|---|---|---|
| Gyrfa Cymru | 2 | 2 |
| Colegau/darparwyr hyfforddiant cyhoeddus | 12 | 10 |
| ELWa | 5 | 5 |
| Arall | 2 | 2 |
| Darparwyr hyfforddiant preifat | 4 | 4 |
| **Cyfanswm** | **25** | **23** |

### Gweithdy Chweched Dosbarth Ysgolion, Port Talbot, 21 Chwefror

| Math o sefydliad | Nifer disgwyliedig | Nifer yn mynychu |
|---|---|---|
| Ysgolion | 32 | 23 |
| Cynrychiolwyr llywodraeth leol | 2 | 1 |
| Gyrfa Cymru | 1 | 1 |
| Estyn | 1 | 1 |
| ELWa | 2 | 1 |
| Arall | 6 | 4 |
| **Cyfanswm** | **44** | **31** |

### Gweithdy Dysgu yn y Gwaith, Caerdydd, 28 Chwefror

| Math o sefydliad | Nifer disgwyliedig | Nifer yn mynychu |
|---|---|---|
| Darparwyr hyfforddiant preifat | 37 | 22 |
| Colegau/darparwyr hyfforddiant cyhoeddus | 9 | 8 |
| Cynghorau Sgiliau Sector | 4 | 3 |
| Gyrfa Cymru | 2 | 2 |
| Consortiwm Dysgu a Sgiliau Cymru | 2 | 2 |
| Cynrychiolwyr llywodraeth leol | 3 | 1 |
| Estyn | 1 | 1 |
| ELWa | 5 | 5 |
| Arall | 10 | 6 |
| **Cyfanswm** | **73** | **50** |

**Gweithdy Chweched Dosbarth Ysgolion, Llandudno, 8 Mawrth**

| **Math o sefydliad** | **Nifer disgwyliedig** | **Nifer yn mynychu** |
|---|---|---|
| Ysgolion | 11 | 8 |
| Cynrychiolwyr llywodraeth leol | 2 | 1 |
| Cynghorau Sgiliau Sector | 2 | 1 |
| Gyrfa Cymru | 3 | 2 |
| AALI | 2 | 2 |
| ELWa | 6 | 5 |
| Arall | 1 | 2 |
| **Cyfanswm** | **26** | **21** |

**Gweithdy Addysg Bellach a Dysgu Oedolion a Chymunedol, Llandrindod, 5 Ebrill**

| **Math o sefydliad** | **Nifer disgwyliedig** | **Nifer yn mynychu** |
|---|---|---|
| Colegau | 29 | 21 |
| Cynghorau Sgiliau Sector | 5 | 1 |
| Gyrfa Cymru | 1 | 1 |
| Cynrychiolwyr llywodraeth leol | 4 | 3 |
| Estyn | 1 | 1 |
| ELWa | 6 | 6 |
| Fforwm | 1 | 1 |
| CAG | 1 | 1 |
| Arall | 3 | 3 |
| **Cyfanswm** | **51** | **38** |

## Atodiad II: Gwerthusiad gan y Cynrychiolwyr

### (i) Cyflwyniad

Fel rhan o'r Strategaeth Ymchwil Cwsmeriaid, trefnodd ELWa gyfres o weithdai boddhad dysgwyr i drafod ac archwilio canfyddiadau Arolwg Cenedlaethol o Foddhad Dysgwyr yng Nghymru 2003 ac Arolwg Cenedlaethol o'r Chweched Dosbarth mewn Ysgolion yng Nghymru 2004. Amcanion y digwyddiadau oedd:

*Lledaenu canfyddiadau:*

- esbonio diben yr ymchwil a sut y gellir defnyddio'r canfyddiadau
- adeiladu hyder yng nghanfyddiadau'r arolwg ac adeiladu dealltwriaeth ohonynt

*Archwilio syniadau/arferion gorau:*

- galluogi partneriaid allweddol i gydnabod a deall eu swyddogaeth mewn defnyddio canfyddiadau'r arolwg i helpu safonau ansawdd yn eu gwasanaethau eu hunain
- symbylu cynhyrchu syniadau
- rhannu arferion gorau mewn amgylchedd lle mae cyfranogwyr yn gallu trafod eu syniadau a'u barn yn agored â'u cymheiriaid

Roedd y sesiynau yn rhai rhyngweithiol iawn ac roeddent yn cynnwys cyflwyniad o'r canfyddiadau, gyda grwpiau trafod i ddilyn ynghylch themâu gosodedig. Mae'r papur hwn yn dadansoddi'r adborth o'r taflenni gwerthuso a lenwyd gan gynrychiolwyr ar ddiwedd y digwyddiadau.

Yn gyfan gwbl cafwyd pum digwyddiad, fel a ganlyn:

- Dysgu yn y Gwaith, Tŷ Oriel, Llanelwy, gogledd Cymru, 8 Chwefror

- Y Chweched Dosbarth mewn Ysgolion, Gwesty Aberafan, Port Talbot, de-orllewin Cymru, 21 Chwefror

- Dysgu yn y Gwaith, Gwesty Gwledig New House, Caerdydd, de-ddwyrain Cymru, 28 Chwefror

- Y Chweched Dosbarth mewn Ysgolion, Gwesty St George, Llandudno, gogledd Cymru, 8 Mawrth
- Addysg Bellach a Dysgu Oedolion a Chymunedol, Canolfan Gynadledda'r Pafiliwn, Llandrindod, canolbarth Cymru, 5 Ebrill

**(ii) Graddau cyffredinol y digwyddiadau**

Mae'r tablau canlynol yn dangos y graddau cyfunol a gasglwyd o'r holl weithdai a gynhaliwyd yng Nghymru. Trosir y ffigurau'n uniongyrchol o daflenni gwerthuso'r gweithdai a lenwyd gan y cynrychiolwyr a oedd yn bresennol.

Mae'r set gyntaf o ganlyniadau'n gysylltiedig â'r cyflwyniad, ac fe'i seiliwyd ar y raddfa o dda iawn i wael iawn.

Mae'r sgoriau a roddwyd yn gadarnhaol, gyda 99% o'r rhai a fu'n bresennol yn graddio eglurder y sleidiau naill ai'n dda neu'n dda iawn. Roedd yr holl ymatebwyr o'r farn bod ansawdd y cyflwynydd yn dda neu'n dda iawn, ac roedd 93% o'r rheiny a oedd yn bresennol yn graddio perthnasedd y grwpiau trafod yn dda neu'n dda iawn.

| **Cyflwyniad**<br>Sylfaen: Yr holl ymatebwyr a atebodd (101) | **Da Iawn %** | **Da %** | **Gwael %** | **Gwael Iawn %** |
|---|---|---|---|---|
| Eglurder y sleidiau | 60 | 39 | 1 | 0 |
| Ansawdd y Cyflwynydd | 42 | 56 | 0 | 0 |
| Perthnasedd y grwpiau trafod | 40 | 53 | 4 | 3 |

Wrth adolygu cynnwys gwirioneddol y cyflwyniadau, mae'r sgoriau yr un mor galonogol. Teimlai bron yr holl gynrychiolwyr (93%) bod ganddynt wybodaeth well am faterion yr arolwg yn sgil y gweithdai. Cytunai bron i 9 o bob 10 (88%) o'r ymatebwyr bod yr arolwg yn cynnwys y meysydd yr oeddent yn disgwyl iddo eu cynnwys, ac roedd 89% o'r farn y gallai canlyniadau'r arolwg lywio eu gwaith o ddydd i ddydd.

| **Darganfyddiadau'r Arolwg**<br>Sylfaen: Yr holl ymatebwyr a atebodd (101) | **Ydw / Oedd %** | **Nac Ydw / Nac oedd %** |
|---|---|---|
| Ydych chi'n teimlo bod gennych wybodaeth well am y materion yr oedd yr arolwg yn eu cynnwys? | 93 | 8 |
| Oedd yr arolwg yn cynnwys y meysydd yr oeddech yn eu disgwyl? | 88 | 12 |
| Ydych chi'n meddwl y gallai'r canlyniadau lywio eich gwaith o ddydd i ddydd? | 89 | 11 |

Gofynnodd bron i 6 o bob 10 (58%) cynrychiolydd am fwy o gyfathrebu ynghylch defnydd hirdymor Arolwg Cenedlaethol o Foddhad Dysgwyr yng Nghymru 2003, perthnasedd y wybodaeth, a'i manteision i'w maes gwaith nhw.

Ceir rhai o'r sylwadau a dderbyniwyd gan gynrychiolwyr isod:

*"Roedd y grwpiau trafod yn addysgiadol iawn ac yn gyfle i rannu arferion da" DYYG* 28 Chwefror

*"Trafodaeth wych- dangos arfer da" DYYG* 8 Chwefror

*"Codwyd nifer o bwyntiau diddorol yn ystod y grŵp trafod"* y Chweched Dosbarth mewn Ysgolion 21 Chwefror

*"Digwyddiad rhagorol â digon o gyfle i drafod, cynnig adborth a rhwydweithio"* AB 5 Ebrill

*"Roeddwn i'n meddwl ei fod yn berthnasol iawn ac yn ddefnyddiol iawn, a gellir ei ddefnyddio yn fy ngholeg i"* AB 5 Ebrill

*"Cyfle defnyddiol i drafod materion cyffredin"* y Chweched Dosbarth mewn Ysgolion 8 Mawrth

Dylid adolygu'r ffigurau hyn yng ngoleuni'r nodau gwreiddiol yr oedd y gweithdai hyn am eu cyflawni:

- O ystyried y nifer uchel o fynychwyr a oedd yn teimlo bod gwybodaeth well ganddynt o ganlyniad i'w gweithdai priodol ac a raddiodd y cyflwyniadau mor uchel, gellir ystyried y cyflawnwyd y nod o ledaenu'r darganfyddiadau.

- Roedd y nod o archwilio syniadau ac arferion gorau wedi'i gysylltu agosaf â chynnwys a strwythur y gweithdy. Teimlai 93% o'r mynychwyr bod ganddynt wybodaeth well yn dilyn y grwpiau trafod.

**(iii) Graddau Gweithdai Unigol**

Mae'r adran hon yn dangos yr ymatebion a gafwyd o'r digwyddiadau unigol a gynhaliwyd.

**Dysgu yn y Gwaith, Tŷ Oriel, Llanelwy, Gogledd Cymru, 8 Chwefror**

| **Cyflwyniad**<br>Sylfaen: Yr holl ymatebwyr a atebodd (16) | **Da Iawn %** | **Da %** | **Gwael %** | **Gwael Iawn %** |
|---|---|---|---|---|
| Eglurder y sleidiau | 69 | 31 | 0 | 0 |
| Ansawdd y Cyflwynydd | 56 | 44 | 0 | 0 |
| Perthnasedd y grwpiau trafod | 63 | 38 | 0 | 0 |

| **Darganfyddiadau'r Arolwg**<br>Sylfaen: Yr holl ymatebwyr a atebodd (16) | **Ydw / Oedd %** | **Nac Ydw / Nac oedd %** |
|---|---|---|
| Ydych chi'n teimlo bod gennych wybodaeth well am y materion yr oedd yr arolwg yn eu cynnwys? | 94 | 6 |
| Oedd yr arolwg yn cynnwys y meysydd yr oeddech yn eu disgwyl? | 94 | 6 |
| Ydych chi'n meddwl y gallai'r canlyniadau lywio eich gwaith o ddydd i ddydd? | 100 | 0 |

**Chweched Dosbarth Ysgolion, Gwesty Aberafan, Port Talbot, de-orllewin Cymru, 21 Chwefror**

| **Cyflwyniad**<br>Sylfaen: Yr holl ymatebwyr a atebodd (22) | **Da Iawn %** | **Da %** | **Gwael %** | **Gwael Iawn %** |
|---|---|---|---|---|
| Eglurder y sleidiau | 68 | 27 | 5 | 0 |
| Ansawdd y Cyflwynydd | 23 | 64 | 9 | 0 |
| Perthnasedd y grwpiau trafod | 27 | 50 | 14 | 9 |

| **Darganfyddiadau'r Arolwg**<br>Sylfaen: Yr holl ymatebwyr a atebodd (22) | **Ydw / Oedd %** | **Nac Ydw / Nac oedd %** |
|---|---|---|
| Ydych chi'n teimlo bod gennych wybodaeth well am y materion yr oedd yr arolwg yn eu cynnwys? | 90 | 10 |
| Oedd yr arolwg yn cynnwys y meysydd yr oeddech yn eu disgwyl? | 73 | 28 |
| Ydych chi'n meddwl y gallai'r canlyniadau lywio eich gwaith o ddydd i ddydd? | 83 | 18 |

Er bod rhai o sgoriau'r adborth ar gyfer y gweithdy hwn yn siomedig, dylid pwysleisio bod y canlyniadau hyn yn cyferbynnu'n fawr â'r rheiny yn y sesiynau Chweched Dosbarth Ysgolion diweddarach (a wellwyd gan ddefnyddio'r adborth o'r gweithdy cyntaf hwn). Felly, teimlwn fod y canlyniadau hyn yn benodol iawn i'r digwyddiad unigol hwn.

Cynigiodd y gweithdy cyntaf hwn gyfle i nifer o gynrychiolwyr ysgol godi cwestiynau ynghylch dilysrwydd cymharu barn myfyrwyr chweched dosbarth â'r rheiny o AB, DOCh a DYYG o ystyried y dulliau gwahanol o gasglu data. Hefyd, nid oedd rhai o aelodau'r grŵp yn hapus â'r ffordd yr oedd ELWa wedi lledaenu'r canlyniadau a theimlwyd y dylid bod wedi ymdrin â hyn mewn ffordd fwy sensitif.

Ar ôl y gweithdy, ysgrifennodd ELWa at bob un o’r cynrychiolwyr a oedd wedi codi ymholiadau a chwynion, er mwyn ateb y pwyntiau penodol a godwyd a’u gwahodd i drafod hyn ymhellach ag uwch aelodau’r Tîm Gwybodaeth a Marchnata, pe baent yn dymuno gwneud hynny.

**Dysgu yn y Gwaith, Gwesty Gwledig New House, Caerdydd, de-ddwyrain Cymru, 28 Chwefror**

| **Cyflwyniad**<br>Sylfaen: Yr holl ymatebwyr a atebodd (32) | **Da Iawn %** | **Da %** | **Gwael %** | **Gwael Iawn %** |
|---|---|---|---|---|
| Eglurder y sleidiau | 41 | 59 | 0 | 0 |
| Ansawdd y Cyflwynydd | 41 | 59 | 0 | 0 |
| Perthnasedd y grwpiau trafod | 44 | 50 | 3 | 3 |

| **Darganfyddiadau’r Arolwg**<br>Sylfaen: Yr holl ymatebwyr a atebodd (32) | **Ydw / Oedd %** | **Nac Ydw / Nac oedd %** |
|---|---|---|
| Ydych chi’n teimlo bod gennych wybodaeth well am y materion yr oedd yr arolwg yn eu cynnwys? | 89 | 11 |
| Oedd yr arolwg yn cynnwys y meysydd yr oeddech yn eu disgwyl? | 90 | 10 |
| Ydych chi’n meddwl y gallai’r canlyniadau lywio eich gwaith o ddydd i ddydd? | 87 | 13 |

**Chweched Dosbarth Ysgolion, Gwesty St George, Llandudno, gogledd Cymru, 8 Mawrth**

| **Cyflwyniad** Sylfaen: Yr holl ymatebwyr a atebodd (9) | **Da Iawn %** | **Da %** | **Gwael %** | **Gwael Iawn %** |
|---|---|---|---|---|
| Eglurder y sleidiau | 56 | 44 | 0 | 0 |
| Ansawdd y Cyflwynydd | 44 | 56 | 0 | 0 |
| Perthnasedd y grwpiau trafod | 33 | 67 | 0 | 0 |

| **Darganfyddiadau'r Arolwg** Sylfaen: Yr holl ymatebwyr a atebodd (9) | **Ydw / Oedd %** | **Nac Ydw / Nac oedd %** |
|---|---|---|
| Ydych chi'n teimlo bod gennych wybodaeth well am y materion yr oedd yr arolwg yn eu cynnwys? | 89 | 11 |
| Oedd yr arolwg yn cynnwys y meysydd yr oeddech yn eu disgwyl? | 94 | 6 |
| Ydych chi'n meddwl y gallai'r canlyniadau lywio eich gwaith o ddydd i ddydd? | 89 | 11 |

**Addysg Bellach a Dysgu Oedolion a Chymunedol, Canolfan Gynadledda'r Pafiliwn, Llandrindod, canolbarth Cymru, 5 Ebrill**

| **Cyflwyniad** Sylfaen: Yr holl ymatebwyr a atebodd (22) | **Da Iawn %** | **Da %** | **Gwael %** | **Gwael Iawn %** |
|---|---|---|---|---|
| Eglurder y sleidiau | 77 | 23 | 0 | 0 |
| Ansawdd y Cyflwynydd | 50 | 48 | 0 | 0 |
| Perthnasedd y grwpiau trafod | 32 | 68 | 0 | 0 |

| **Darganfyddiadau'r Arolwg**<br>Sylfaen: Yr holl ymatebwyr a atebodd (22) | **Ydw / Oedd %** | **Nac Ydw / Nac oedd %** |
|---|---|---|
| Ydych chi'n teimlo bod gennych wybodaeth well am y materion yr oedd yr arolwg yn eu cynnwys? | 100 | 0 |
| Oedd yr arolwg yn cynnwys y meysydd yr oeddech yn eu disgwyl? | 95 | 5 |
| Ydych chi'n meddwl y gallai'r canlyniadau lywio eich gwaith o ddydd i ddydd? | 84 | 16 |

## Atodiad III – Canllawiau Trafodaeth Grŵp

Dyluniwyd y canllawiau pwnc hyn gan NOP ar y cyd ag ELWa er mwyn cynnig offeryn i ymchwilwyr yr NOP ac i sicrhau rhywfaint o gysondeb rhwng grwpiau. Cawsant eu cynnwys i gynnig cyd-destun i'r darllenwr, ond dylid nodi mai fel cynhorthwy i'r ymchwilwyr yn unig y cawsant eu cynhyrchu

### i) DYSGU YN Y GWAITH

**Sesiwn drafod 1: Cyn mynediad**

DYMA'R SESIWN DRAFOD GYNTAF, FELLY BYDD ARNOM ANGEN:

- CYFLWYNIADAU
- AMLINELLIAD BYR O BETH FYDD YN DIGWYDD YM MHOB GRŴP (MAE GAN YR HWYLUSWR GANLLAW PWNC, ANOGIR Y DRAFODAETH GAN YR HWYLUSWR A BYDD EF/HI'N PROCIO, YN TYWYS Y DRAFODAETH ER MWYN CYNNWYS POB MAES)
- ESBONIO'R TAPIO

Bydd y grŵp penodol hwn yn cynnwys y meysydd canlynol:

- Cymhelliannau a defnyddio cyngor i ddylanwadu ar benderfyniadau
- Marchnata
- Cyswllt cyn yr hyfforddiant/parodrwydd
- Sefydlu

**Cymhelliant/Defnyddio cyngor i ddylanwadu ar benderfyniadau**

Penderfynu gwneud yr hyfforddiant: Beth sy'n ysgogi ac yn arwain unigolion yn eu dewisiadau? Beth sy'n ysgogi cyflogwyr i gynnig Dysgu yn y Gwaith i unigolion?

AILADRODD RHAI O'R DARGANFYDDIADAU ALLWEDDOL AM FFYNONELLAU CYNGOR A SGORIAU DEFNYDDIOLDEB

Sut ydych yn teimlo am y ffynonellau cyngor a ddefnyddir? Ydych chi'n meddwl bod gan yr asiantaethau hyn y wybodaeth orau/cyngor o'r ansawdd gorau ynglŷn â DYYG?

A yw darparwyr yn teimlo bod cyngor ac arweiniad a roddir gan asiantaethau eraill a chysylltiadau personol yn adlewyrchu nodau'r cwrs yn gywir? Os nad ydynt, sut y gellir gwella ansawdd y cyngor?

Sut allant weithio ar y cyd ag asiantaethau a dylanwadwyr llai ffurfiol? A ddylai fod gan ddarparwyr fwy o gysylltiad/deialog â'r ffynonellau gwybodaeth amrywiol a ddefnyddir?

EWCH DRWY BOB FFYNHONNELL A PHROCIWCH AM:

- Oes angen mwy o ddeialog?  A yw'n realistig?
- Sut gallai darparwyr fynd at y ffynonellau cyngor hyn a rhoi gwybodaeth iddynt?

**Marchnata**

A yw darparwyr yn marchnata cyrsiau i fathau gwahanol o unigolion a/neu gyflogwyr? Os felly, beth yw eu gweithgarwch/pa mor ddwys ydyw ac a ydynt yn cyfleu'r negeseuon cywir?

PROCIWCH AM:

Enghreifftiau o arfer gorau lle mae darparwyr wedi marchnata i grwpiau targed penodol? Beth sydd wedi gweithio a pham?

Enghreifftiau lle na fu marchnata mor effeithiol a pham maen nhw'n meddwl bod hynny'n wir?

**Cyswllt cyn yr hyfforddiant/parodrwydd**

Pa fathau o gysylltiad y mae'r darparwyr yn ei gael ag:

- unigolion cyn dysgu – pa fath o gysylltiad y maent yn ei gael? Pa mor dda ydynt yn teimlo y mae unigolion wedi'u paratoi cyn cychwyn ar DYYG? Ydyn nhw'n credu bod gan UNIGOLION ddealltwriaeth dda o'r hyn y mae'n ei olygu?

  PROCIWCH AM:

  - safon y gwaith sy'n ofynnol
  - math o asesiad
  - math o ddulliau hyfforddi a ddefnyddir mewn sesiynau
  - y dysgwyr eraill y byddant yn cwrdd â nhw

- cyflogwyr cyn cynnig DYYG i unigolion a pha fath o gysylltiad parhaus maent yn ei gael? A ydynt yn credu bod gan GYFLOGWYR ddealltwriaeth dda o'r hyn y mae'n ei olygu?

  PROCIWCH AM:

  - safon y gwaith sy'n ofynnol
  - math o asesiad
  - math o ddulliau hyfforddi a ddefnyddir mewn sesiynau
  - y dysgwyr eraill y byddant yn cwrdd â nhw

- Sut maent yn trafod anghenion pellach â chyflogwyr – yn gyffredinol, a anogir y math hwn o gyswllt gan y darparwr neu gan y cyflogwr?

- Sut y gall darparwyr sicrhau bod unigolion yn gwneud eu cyrsiau am y rhesymau cywir? Sut gall darparwyr sicrhau bod cyflogwyr yn hapus â'r hyfforddiant maent yn ei gynnig i'w staff?

**Sefydlu**

Pa brosesau sefydlu sydd gan ddarparwyr? Ydynt yn teimlo bod hyn yn ddigonol? Oes unrhyw beth yr hoffent ei ychwanegu at y broses nad ydynt wedi'i gael hyd yn hyn?

Rheoli disgwyliadau – Oes gan unigolion y disgwyliadau cywir am y cwrs? Pa weithdrefnau (h.y. sefydlu) y gellir eu gweithredu/datblygu ymhellach i sicrhau y caiff unrhyw gamgymhariad o ran disgwyliadau ei gywiro cyn gynted â phosibl?

**Crynodeb a chloi**

Ar gyfer yr holl faterion cyn mynediad a sefydlu a ystyrir:

- Ble mae'r darparwyr nawr? Pa mor gadarnhaol ydyn nhw – beth maen nhw'n ei wneud yn iawn?
- Peth yw'r prif broblemau y mae darparwyr yn eu hwynebu?
- Beth yw'r atebion i'r problemau hyn?
- Os oes tri phrif fater sy'n codi o'r drafodaeth hon sydd angen mynd i'r afael â nhw, beth ydyn nhw?

**Sesiwn drafod 2: Ansawdd hyfforddiant**

Bydd y sesiwn hon yn cynnwys:

- Ansawdd hyfforddwyr/tiwtoriaid/aseswyr
- Rheoli dysgu

**Ansawdd hyfforddwyr/tiwtoriaid/aseswyr**

ATGOFFA'R GRŴP AM Y SGÔR BODDHAD CYFFREDINOL. Sut maent yn teimlo am y sgôr hwn? A ydynt yn teimlo'n gadarnhaol neu'n negyddol am y ffordd y graddiwyd y ddarpariaeth yn gyffredinol?

SYMUD YMLAEN I'R MESURAU UNIGOL YN YR AROLWG – TRAFODWCH HWY MEWN PERTHYNAS Â'R GRID GWEITHREDU A PHROCIWCH AM:

**MEYSYDD GWEITHREDU**

AM BOB UN O'R MESURAU ISOD DYWEDODD YR YMATEBWYR, ER EU BOD YN BWYSIG, BOD Y PERFFORMIAD YN GYMHAROL IS NAG AR GYFER MESURAU ERAILL. AR GYFER POB UN, beth yw barn y darparwyr

ynghylch beth yw'r problemau o ran perfformiad? Beth yw'r atebion/sut gall perfformiad, o bosibl, wella yn y meysydd hyn?

Ar gyfer DYYG, y meysydd ar gyfer gweithredu yw (mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gysylltiedig â chynllunio a neilltuo adnoddau):

- Gosod targedau clir
- Gwneud defnydd da o wersi/sesiynau
- Y gefnogaeth maent yn ei rhoi i chi
- Adborth cyflym a rheolaidd
- Gwneud y pwnc yn ddiddorol ac yn bleserus

Rydym am ganolbwyntio ar rai o'r mesurau perfformiad eraill nawr. Am bob categori a allwn drafod y canlynol eto:

- Agweddau ar arfer da
- Yr hyn, yn eich barn chi, y gallai'r problemau fod o ran perfformiad?
- Beth yw'r atebion/sut y gall perfformiad, o bosibl, wella yn y meysydd hyn?

**1)** Sut mae'r hyfforddwr/tiwtor/aseswr, mewn gwirionedd, yn ***cysylltu â dysgwyr:*** Gwrando ar eich anghenion/Eich deall chi a sut rydych yn hoffi dysgu/Y gefnogaeth maent yn ei roi i chi ar gyfer, er enghraifft, gwella eich technegau astudio neu reoli amser

***2) Delio â dysgwyr ifanc (y rheiny rhwng 16-18 mewn cyferbyniad â'r rheiny sy'n hŷn nag 19)***

***3) Trosglwyddo'r wybodaeth:*** Y gallu i esbonio'r pwnc/Gwneud eich pwnc yn ddiddorol ac yn bleserus i chi

***4) Rheoli'r grŵp:*** Delio â dysgwyr aflonyddgar

***5) Atal dysgwyr rhag gadael yn gynnar***

**Rheoli dysgu**

Nawr rydym am edrych ar DDWY agwedd sy'n gysylltiedig â rheoli. Unwaith eto, ar gyfer pob categori gallwn drafod:

- Agweddau ar arfer da
- Yr hyn, yn eich barn chi, y gallai'r problemau fod o ran perfformiad?
- Beth yw'r atebion/sut y gall perfformiad, o bosibl, wella yn y meysydd hyn?

***1) Cyfathrebu â'r dysgwyr ynghylch amserlenni/newidiadau***

- Helpu pobl newydd i ymgynefino
- Rheoli amserlenni fel eu bod mor addas i'r dysgwr ag  y gallant fod
- Rhoi gwybod am newidiadau i amserau sesiynau

***2) Cynnig darpariaeth staff lawn***

- Sicrhau bod digon o hyfforddwyr a/neu aseswyr ar gael
- Cynnig cefnogaeth pan fod gen i neu ddysgwyr eraill broblemau
- Aseswyr yn bresennol fel a gynlluniwyd
- Gweld yr un aseswr drwy'r amser

Crynodeb a chloi

Ar gyfer yr holl faterion a ystyriwyd sy'n gysylltiedig â hyfforddwyr a rheoli ….

Ble mae'r darparwyr nawr? Pa mor gadarnhaol ydyn nhw – beth maen nhw'n ei wneud yn iawn?
Beth yw'r prif broblemau y mae darparwyr yn eu hwynebu?
Beth yw'r atebion i'r problemau hyn?
Os oes tri phrif fater sy'n codi o'r drafodaeth hon sydd angen mynd i'r afael â nhw, beth ydyn nhw?

Cefnogaeth wrth ddysgu (gan gynnwys cyfleusterau, adnoddau/offer a chynghori/cefnogaeth bersonol i ddysgwyr)

Yn yr adran hon byddwn yn cynnwys y pethau canlynol:

- Cyfleusterau
- Delio â phroblemau dysgwyr
- Y weithdrefn gwyno
- Dysgwyr sy’n gadael yn gynnar

**Cyfleusterau**

Darganfu’r dadansoddiad a archwiliodd yr hyn a oedd yn gyrru boddhad bod cyfleusterau’n bwysig i ddysgwyr yn y gwaith.

A yw’r sgoriau ar gyfer cyfleusterau/adnoddau yn unol â’r hyn y byddai darparwyr yn ei ddisgwyl?

Sut mae darparwyr yn teimlo y gellid graddio eu cyfleusterau eu hunain – TG/llyfrgell, ffreutur, Offer arbenigol ac ati?

I’R RHEINY SY’N GANMOLIAETHUS AM EU CYFLEUSTERAU EU HUNAIN Beth sy’n eu gwneud cystal? PROCIWCH AM SYNIADAU YNGHYLCH ARFERION GORAU I’R RHEINY SY’N FEIRNIADOL I RYW RADDAU AM EU CYFLEUSTERAU EU HUNAIN Beth yr hoffent ei wneud? A wneir unrhyw beth am hyn yn y tymor canolig/hirdymor? OS FELLY Beth a sut? OS NA WNEIR HYN Beth yw’r rheswm am hynny/beth yw’r rhwystrau?

Pe bai’n rhaid i chi flaenoriaethu eich gwario/cyllideb rhwng yr agweddau/cyfleusterau penodol hyn, dywedwch wrthyf pa feysydd fyddai’n flaenoriaeth uchel, yn flaenoriaeth ganolig ac yn flaenoriaeth isel
YR HWYLUSWR I GAEL POB MATH O GYFLEUSTER/ADNODD O’R HOLIADUR AR DDARN O BAPUR A4 A BYDD YN DEWIS PENTWR YN ÔL BARN Y MWYAFRIF

***Cefnogi dysgwyr***

Problemau a gafwyd – A yw darparwyr yn ymwybodol o’r problemau y mae eu dysgwyr yn eu cael?

I ba raddau y mae tiwtoriaid/athrawon/hyfforddwyr yn gallu mynd ati'n weithredol i geisio gwybodaeth ynglŷn â phroblemau? Ai'r gwirionedd yw nad yw problemau ond yn ymddangos os yw'r dysgwr yn eu codi? PROCIWCH AM ARFERION GORAU **YNGHYLCH NODI PROBLEMAU**

Pa fecanweithiau cymorth y gellid/dylid eu gweithredu? Pa mor realistig yw gweithredu'r rhain? Beth sy'n gweithio? PROCIWCH AM ARFERION GORAU **YNGHYLCH DELIO Â PHROBLEMAU**

Gan feddwl yn benodol am ddefnyddio ymgynghorydd, a yw darparwyr yn cynnig hyn? A ydynt yn gwybod am unrhyw ddarparwyr eraill sy'n cynnig hyn? Beth yw'r manteision? A fyddai'n beth da i bob darparwr?

**Y weithdrefn gwyno**

Beth yw'r drefn gwyno? A yw darparwyr yn teimlo bod hyn yn frawychus i ddysgwyr iau yn y gwaith? PROCIWCH AM ARFERION GORAU Pa mor gyflym ydych chi'n ceisio canlyniad?

Sut y cyfathrebir y drefn gwyno i ddysgwyr?

**Dysgwyr sy'n ymadael yn gynnar**

Dysgwyr sy'n ymadael yn gynnar - Oes digon yn cael ei wneud i atal dysgwyr rhag gadael y cwrs? Beth sy'n digwydd i rywun sy'n gadael y cwrs yn gynnar:

- A roddir cyfweliad ymadael iddynt?
- A ydynt yn cael eu cyfeirio at rywle arall, efallai, i gael mwy o gyngor/hyfforddiant o fath gwahanol?
- A ddilynir hynt y rheiny sy'n gadael?
- Pa flaenoriaeth y mae darparwyr yn ei roi i gael dysgwyr sy'n gadael yn ôl ar y cwrs?

Crynodeb a chloi

Ar gyfer yr holl faterion hyn a ystyriwyd….

Ble mae'r darparwyr nawr? Pa mor gadarnhaol ydyn nhw – beth maent yn ei wneud yn iawn?
Beth yw'r prif broblemau y mae darparwyr yn eu hwynebu?
Beth yw'r atebion i'r problemau hyn?
Os oes tri phrif fater sy'n codi o'r drafodaeth hon sydd angen mynd i'r afael â nhw, beth ydyn nhw?

## ii) ADDYSG BELLACH/ DYSGU OEDOLION A CHYMUNEDOL

**Sesiwn drafod 1: Cyn mynediad**

DYMA'R GRŴP TRAFOD CYNTAF, FELLY BYDD ARNOM ANGEN:

- CYFLWYNIADAU
- AMLINELLIAD BYR O BETH FYDD YN DIGWYDD YM MHOB GRŴP (MAE GAN YR HWYLUSWR GANLLAW PWNC, ANOGIR Y DRAFODAETH GAN YR HWYLUSWR A BYDD EF/HI'N PROCIO, YN TYWYS Y DRAFODAETH ER MWYN CYNNWYS POB MAES)
- ESBONIO'R TAPIO A CHAEL PAWB I GYTUNO AR HYNNY

Bydd y grŵp penodol hwn yn cynnwys y meysydd canlynol:

- Cymhelliannau a defnyddio cyngor i ddylanwadu ar benderfyniadau
- Marchnata
- Cyswllt cyn yr hyfforddiant/parodrwydd
- Sefydlu
- Cefnogi dysgwyr
- Y weithdrefn gwyno
- Dysgwyr sy'n gadael yn gynnar

**Cymhelliant/Defnyddio cyngor i ddylanwadu ar benderfyniadau**

Penderfynu ymgymryd â'r dysgu: Beth sy'n ysgogi ac yn arwain unigolion yn eu dewisiadau?

AILADRODD RHAI O'R CANFYDDIADAU ALLWEDDOL AM FFYNONELLAU CYNGOR A SGORIAU DEFNYDDIOLDEB

Sut ydych yn teimlo am y ffynonellau cyngor a ddefnyddir? Ydych chi'n meddwl bod gan y ffynonellau cyngor hyn y wybodaeth orau/cyngor o'r ansawdd gorau ynglŷn ag AB/DOCh? Beth am ffynonellau eraill, e.e. cysylltiadau personol? A yw'r cyngor a roddir yn adlewyrchu nodau'r cwrs yn gywir? Os nad ydyw, sut y gellir gwella ansawdd y cyngor?

Sut allant weithio ar y cyd ag asiantaethau a dylanwadwyr eraill llai ffurfiol? A ddylai fod gan ddarparwyr fwy o gysylltiad/deialog â'r ffynonellau gwybodaeth amrywiol a ddefnyddir? EWCH DRWY BOB FFYNHONNELL A PHROCIWCH AM:

- Oes angen mwy o ddeialog? A yw'n realistig?
- Sut y gallai darparwyr fynd at y ffynonellau cyngor hyn a rhoi gwybodaeth iddynt?

**Marchnata (Cynnwys hwn os oes amser yn unig)**

A yw darparwyr yn marchnata cyrsiau i fathau gwahanol o unigolion? Os felly, beth yw eu gweithgarwch/pa mor ddwys ydyw ac a ydynt yn cyfleu'r negeseuon cywir? PROCIWCH AM:

Enghreifftiau o arfer gorau lle mae darparwyr wedi marchnata i grwpiau targed penodol? Beth sydd wedi gweithio a pham?

Enghreifftiau lle na fu marchnata mor effeithiol a pham maen nhw'n meddwl bod hynny'n wir?

**Cyswllt cyn y dysgu/parodrwydd**

Pa fathau o gysylltiad y mae'r darparwyr yn ei gael ag:

- unigolion cyn dysgu – pa fath o gysylltiad y maent yn ei gael? Pa mor dda y teimlant y mae unigolion wedi'u paratoi cyn cychwyn ar DYYG? Ydyn

nhw'n credu bod gan UNIGOLION ddealltwriaeth dda o'r hyn y mae'n ei olygu? PROCIWCH AM:

- safon y gwaith sy'n ofynnol
- math o asesiad
- math o ddulliau dysgu a ddefnyddir mewn sesiynau
- y dysgwyr eraill y byddant yn cwrdd â nhw

- Sut y gall darparwyr sicrhau bod unigolion yn gwneud y cyrsiau sy'n gweddu orau i'w hanghenion?

**Sefydlu**

Pa brosesau sefydlu sydd gan ddarparwyr I UNIGOLION?
A ydynt yn teimlo bod hyn yn ddigonol? Oes unrhyw beth yr hoffent ei ychwanegu at y broses nad ydynt wedi'i wneud hyd yn hyn?

Rheoli disgwyliadau – A oes gan unigolion y disgwyliadau cywir am y cwrs? Pa weithdrefnau (h.y. sefydlu) y gellir eu gweithredu/datblygu ymhellach i sicrhau y caiff unrhyw gamgymhariad o ran disgwyliadau ei gywiro cyn gynted â phosibl?

***Cefnogi dysgwyr***

Problemau a gafwyd – A yw darparwyr yn ymwybodol o'r problemau y mae eu dysgwyr yn eu cael?

I ba raddau y mae tiwtoriaid/athrawon/hyfforddwyr yn gallu mynd ati'n weithredol i geisio gwybodaeth ynglŷn â phroblemau? Ai'r gwirionedd yw nad yw problemau ond yn ymddangos os yw'r dysgwr yn eu codi? PROCIWCH AM ARFERION GORAU **YNGHYLCH NODI PROBLEMAU**

Pa fecanweithiau cymorth y gellid/dylid eu gweithredu? Pa mor realistig yw gweithredu'r rhain? Beth sydd i'w weld yn gweithio? PROCIWCH AM ARFERION GORAU **YNGHYLCH DELIO Â PHROBLEMAU**
**Y weithdrefn gwyno**

Beth yw'r drefn gwyno I UNIGOLION?
A yw darparwyr yn teimlo bod hyn yn frawychus i'r dysgwyr iau yn y gwaith?
PROCIWCH AM ARFERION GORAU Pa mor gyflym ydych chi'n ceisio canlyniadau i achosion?

Sut y rhoddir gwybodaeth am y weithdrefn gwyno i ddysgwyr?

**(Dysgwyr sy'n ymadael yn gynnar - dim ond os oes amser i'w gynnwys)**

Dysgwyr sy'n ymadael yn gynnar - Oes digon yn cael ei wneud i atal dysgwyr rhag gadael y cwrs? Beth sy'n digwydd i rywun sy'n gadael y cwrs yn gynnar:

- A roddir cyfweliad ymadael iddynt?
- A ydynt yn cael eu cyfeirio at rywle arall, efallai, i gael mwy o gyngor/hyfforddiant o fath gwahanol?
- A ddilynir hynt y rheiny sy'n gadael?
- Pa flaenoriaeth y mae darparwyr yn ei roi i gael dysgwyr sy'n gadael yn ôl ar y cwrs?

**Crynodeb a chloi**

Ar gyfer yr holl faterion cyn mynediad a sefydlu a ystyriwyd ….

Ble mae'r darparwyr nawr? Pa mor gadarnhaol ydyn nhw – beth maent yn ei wneud yn iawn?
Beth yw'r prif broblemau y mae darparwyr yn eu hwynebu?
Beth yw'r atebion i'r problemau hyn?
Os oes tri phrif fater sy'n codi o'r drafodaeth hon sydd angen mynd i'r afael â nhw, beth ydyn nhw?

**Sesiwn drafod 2: Ansawdd yr hyfforddiant**

*Dilynwch ganllaw'r drafodaeth fel a ganlyn. Os yw'n ofynnol symudwch i faes pa mor ddefnyddiol maent yn teimlo y byddai mesur o foddhad yn unol â'r hyn a awgrymwyd yn Ymgynghoriad Ansawdd ELWa, ym mha ffyrdd y gellid mesur hyn a'i ddatblygu ac ati.*

Bydd y sesiwn hon yn cynnwys:

- Ansawdd hyfforddwyr/tiwtoriaid
- Rheoli dysgu

**Ansawdd hyfforddwyr/tiwtoriaid**

ATGOFFA'R GRŴP AM Y SGÔR BODDHAD CYFFREDINOL. Sut maent yn teimlo am y sgôr hwn? A ydynt yn teimlo'n gadarnhaol neu'n negyddol am y ffordd y graddiwyd y ddarpariaeth yn gyffredinol?

SYMUD YMLAEN I'R MESURAU UNIGOL YN YR AROLWG – TRAFODWCH HWY MEWN PERTHYNAS Â'R GRID GWEITHREDU A PHROCIWCH AM:

**MEYSYDD GWEITHREDU**

AM BOB UN O'R MESURAU ISOD DYWEDODD YR YMATEBWYR, ER EU BOD YN BWYSIG, BOD Y PERFFORMIAD YN GYMHAROL IS NAG AR GYFER MESURAU ERAILL. AR GYFER POB UN, beth yw canfyddiad y darparwyr ynghylch beth y gallai'r problemau fod o ran perfformiad? Beth yw'r atebion/sut gall perfformiad, o bosibl, wella yn y meysydd hyn?

Ar gyfer AB, y meysydd ar gyfer gweithredu yw (mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gysylltiedig â chynllunio a neilltuo adnoddau):

- Gosod targedau clir
- Gwneud defnydd da o wersi/sesiynau
- Y gefnogaeth maent yn ei rhoi i chi
- Adborth cyflym a rheolaidd
- Eich deall chi a sut rydych yn hoffi dysgu

Rydym am ganolbwyntio ar rai o'r mesurau perfformiad eraill nawr. Am bob categori a allwn drafod y canlynol eto:

- Agweddau ar arfer da
- Yr hyn, yn eich barn chi, y gallai'r problemau fod o ran perfformiad?

- Beth yw’r atebion/sut gall perfformiad, o bosibl, wella yn y meysydd hyn?

1) Sut mae’r tiwtor, mewn gwirionedd, yn ***cysylltu â dysgwyr:*** Gwrando ar eich anghenion/Eich deall chi a sut rydych yn hoffi dysgu/Y gefnogaeth maent yn ei roi i chi ar gyfer, er enghraifft, gwella eich technegau astudio neu reoli amser

*2)* ***Delio â dysgwyr ifanc (y rheiny rhwng 16-18 mewn cyferbyniad â’r rheiny sy’n hŷn nag 19)***

*3)* ***Trosglwyddo’r wybodaeth:*** Y gallu i esbonio’r pwnc/Gwneud eich pwnc yn ddiddorol neu’n bleserus i chi

*4)* ***Rheoli’r grŵp:*** Delio â dysgwyr aflonyddgar

*5)* ***Atal dysgwyr rhag gadael yn gynnar***

**Rheoli dysgu**

Nawr rydym am edrych ar DDWY agwedd sy’n gysylltiedig â rheoli. Unwaith eto, ar gyfer pob categori gallwn drafod:

- Agweddau ar arfer da
- Yr hyn, yn eich barn chi, y gallai’r problemau fod o ran perfformiad?
- Beth yw’r atebion/sut gall perfformiad, o bosibl, wella yn y meysydd hyn?

***1) Cyfathrebu â’r dysgwyr ynghylch amserlenni/newidiadau***

- Helpu pobl newydd i ymgynefino
- Rheoli amserlenni fel eu bod mor addas i’r dysgwr ag y gallant fod
- Rhoi gwybod am newidiadau i amserau sesiynau

***2) Cynnig darpariaeth staff lawn***

- Sicrhau bod digon o diwtoriaid ar gael
- Cynnig cefnogaeth pan fo gen i neu ddysgwyr eraill broblemau

Crynodeb a chloi

Ar gyfer yr holl faterion a ystyriwyd sy’n gysylltiedig ag addysgu a rheoli ….
Ble mae’r darparwyr nawr? Pa mor gadarnhaol ydyn nhw – beth maent yn ei wneud yn iawn?
Beth yw’r prif broblemau y mae darparwyr yn eu hwynebu?
Beth yw’r atebion i’r problemau hyn?
Os oes tri phrif fater sy’n codi o’r drafodaeth hon sydd angen mynd i’r afael â nhw, beth ydyn nhw?

## iii) Y CHWECHED DOSBARTH MEWN YSGOLION

**Sesiwn drafod 1: Cyn mynediad a chefnogi dysgwyr**

DYMA’R SESIWN DRAFOD GYNTAF, FELLY BYDD ARNOM ANGEN:

- CYFLWYNIADAU
- AMLINELLIAD BYR O BETH FYDD YN DIGWYDD YM MHOB GRŴP (MAE GAN YR HWYLUSWR GANLLAW PWNC, ANOGIR Y DRAFODAETH GAN YR HWYLUSWR A BYDD EF/HI’N PROCIO, YN TYWYS Y DRAFODAETH ER MWYN CYNNWYS POB MAES)
- ESBONIO’R TAPIO

Bydd y grŵp penodol hwn yn cynnwys y meysydd canlynol:

- Cymhelliannau a defnyddio cyngor i ddylanwadu ar benderfyniadau
- Sefydlu
- Delio â phroblemau dysgwyr
- Y weithdrefn gwyno
- Dysgwyr sy’n ymadael yn gynnar

**Cymhelliant/Defnyddio cyngor i ddylanwadu ar benderfyniadau**

Penderfynu ymgymryd â’r dysgu: Beth sy’n ysgogi ac yn arwain unigolion yn eu dewisiadau? Sut mae hyn yn effeithio ar eu cymhelliant i ddysgu?

AILADRODD RHAI O’R DARGANFYDDIADAU ALLWEDDOL AM FFYNONELLAU CYNGOR A SGORIAU DEFNYDDIOLDEB:

Defnyddiodd 70% athrawon yn yr ysgol am gyngor
69% Gyrfa Cymru
65% rhieni/teulu
35% ffrindiau
20% swyddfa dderbyn Chweched Dosbarth yr Ysgol

Sut ydych yn teimlo am y ffynonellau cyngor a ddefnyddir? Ydych chi’n meddwl bod gan yr asiantaethau hyn y wybodaeth orau/cyngor o’r ansawdd gorau ynglŷn â dewisiadau i fyfyrwyr sy’n ymadael â’r ysgol?

A yw Chweched Dosbarth Ysgolion yn teimlo bod cyngor ac arweiniad a roddir gan asiantaethau eraill a chysylltiadau personol yn adlewyrchu nodau’r cwrs yn gywir? Os nad ydynt, sut y gellir gwella ansawdd y cyngor?

Sut y gallant weithio ar y cyd ag asiantaethau a dylanwadwyr eraill llai ffurfiol? A ddylai fod gan Chweched Dosbarth Ysgolion fwy o gysylltiad/deialog â’r ffynonellau gwybodaeth amrywiol a ddefnyddir? EWCH DRWY BOB FFYNHONNELL A PHROCIWCH AM:

- Oes angen mwy o ddeialog?  A yw’n realistig?
- Sut y gallai’r Chweched Dosbarth mewn Ysgolion fynd at y ffynonellau cyngor hyn a rhoi gwybodaeth iddynt?

**Sefydlu**

Pa brosesau sefydlu sydd gan Chweched Dosbarth Ysgolion? A ydynt yn teimlo bod hyn yn ddigonol? Oes unrhyw beth yr hoffent ei ychwanegu at y broses nad ydynt wedi’i wneud hyd yn hyn?
Rheoli disgwyliadau – Oes gan unigolion y disgwyliadau cywir ar gyfer y cwrs? Pa weithdrefnau (h.y. sefydlu) y gellir eu gweithredu/datblygu ymhellach i sicrhau y caiff unrhyw gamgymhariad o ran disgwyliadau ei gywiro cyn gynted â phosibl?

***Cefnogi dysgwyr***

Problemau a gafwyd – A yw Chweched Dosbarth Ysgolion yn ymwybodol o’r problemau y mae eu dysgwyr yn eu cael? Beth yw’r prif broblemau sy’n wynebu’r grŵp hwn o ddysgwyr?

I ba raddau y mae athrawon yn gallu mynd ati’n weithredol i geisio gwybodaeth ynglŷn â phroblemau? Ai’r gwirionedd yw bod problemau ond yn ymddangos os yw’r dysgwr yn eu codi? PROCIWCH AM ARFERION GORAU **YNGHYLCH NODI PROBLEMAU**

Pa fecanweithiau cymorth y gellid/dylid eu gweithredu? Pa mor realistig yw gweithredu’r rhain? Beth sy’n gweithio? PROCIWCH AM ARFERION GORAU **YNGHYLCH DELIO Â PHROBLEMAU**

OS YW CHWECHED DOSBARTH YSGOLION YN CRYBWYLL CYNGHORYDD. Gan feddwl yn benodol am ddefnyddio cynghorydd, a yw’r Chweched Dosbarth mewn Ysgolion yn cynnig hyn? A ydynt yn gwybod am unrhyw Chweched Dosbarth mewn Ysgol arall sy’n cynnig hyn? Beth yw’r manteision? A fyddai’n beth da i bob Chweched Dosbarth mewn Ysgol?

**Y weithdrefn gwyno**

Beth yw’r weithdrefn gwyno? A yw Chweched Dosbarth Ysgolion yn teimlo bod hyn yn frawychus i’r dysgwyr iau yn y gwaith? PROCIWCH AM ARFERION GORAU Pa mor gyflym ydych chi’n ceisio canlyniad?

Sut y rhoddir gwybod i ddysgwyr am y drefn gwyno?

A oes unrhyw grwpiau/dulliau ffurfiol neu anffurfiol y gall dysgwyr eu defnyddio i gynnig adborth i’r darparwr - PROCIWCH AM ARFERION GORAU YNGHYLCH SUT Y SEFYDLIR AC Y GWEITHREDIR MECANWEITHIAU RHOI ADBORTH Sut y bydd Chweched Dosbarth Ysgolion yn ymateb i adborth a sut maent yn ymateb i’r dysgwyr?

**Dysgwyr sy'n ymadael yn gynnar**

Dysgwyr sy'n ymadael yn gynnar - Oes digon yn cael ei wneud i atal dysgwyr rhag gadael y cwrs? Beth sy'n digwydd i rywun sy'n gadael y cwrs yn gynnar:

- A roddir cyfweliad ymadael iddynt?
- A ydynt yn cael eu cyfeirio at rywle arall, efallai, i gael mwy o gyngor/addysg o fath gwahanol?
- A ddilynir hynt y rheiny sy'n ymadael?
- Pa flaenoriaeth y mae Chweched Dosbarth Ysgolion yn ei roi i gael y rhai sy'n ymadael yn ôl ar y cwrs?

Crynodeb a chloi

Ar gyfer yr holl faterion hyn a ystyriwyd ….

Ble mae'r Chweched Dosbarth mewn Ysgolion nawr? Pa mor gadarnhaol ydyn nhw – beth maent yn ei wneud yn iawn?
Beth yw'r prif broblemau y mae Chweched Dosbarth Ysgolion yn eu hwynebu?
Beth yw'r atebion i'r problemau hyn?
Os oes tri phrif fater sy'n codi o'r drafodaeth hon sydd angen mynd i'r afael â nhw, beth ydyn nhw?

**Sesiwn drafod 2: Mesur boddhad**

Bydd y sesiwn hon yn cynnwys:

- Y Grid Gweithredu ynghylch boddhad dysgwyr
- Mesurau boddhad
- Sut y gellid defnyddio data boddhad yn offeryn rheoli
- Fframwaith cyffredin ar gyfer arolygon

**Y Grid Gweithredu**

DANGOS Y GRID GWEITHREDU I'R GRŴP: Esbonio mai barn dysgwyr sydd yma a bod hwn yn offeryn diagnostig.
Mae'r eitemau yn y pedrant Cynnal yn bwysig o ran eu cyfraniad i foddhad cyffredinol, ac mae dysgwyr o'r farn bod perfformiad yn gymharol dda yn y meysydd hyn:

- Y gallu i esbonio'r pwnc
- Gwrando ar eich anghenion (ar y cychwyn)
- Y gefnogaeth maent yn ei rhoi i chi (ar y cychwyn)
- Gwneud defnydd da o wersi (ar y cychwyn)

Er mwyn cael yr effaith mwyaf ar foddhad, dylid canolbwyntio ar ddeall y materion yn y pedrant Gweithredu a thrafod syniadau ynglŷn â sut y gellid mynd i'r afael â'r rhain:

- Gwneud y pwnc yn ddiddorol ac yn bleserus
- Eich deall chi a sut rydych yn hoffi dysgu

ASESWCH Y DERBYNIAD A RODDIR I'R SYNIADAU HYN YMYSG Y GRŴP AC, OS YW'N OFYNNOL, SYMUDWCH YMLAEN I'R ADRAN NESAF.

OS CEIR RHYWFAINT O DDIDDORDEB YN YR OFFERYN, gofynnwch i'r grŵp:

Pam rydych chi'n meddwl y gallai dysgwyr fod wedi graddio'r eitemau hyn yn is na rhai eraill?
*Prociwch am ffyrdd y gellid effeithio'n gadarnhaol ar sgoriau'r dysgwyr.*

**Mesur boddhad**

Rydym am ystyried y meysydd eang rydych chi'n teimlo y dylid eu harchwilio gyda dysgwyr yn y Chweched Dosbarth mewn Ysgolion. PROCIWCH AM FEYSYDD EANG Y DYLID EU CYNNWYS MEWN HOLIADUR. PROCIWCH AM:

- ANSAWDD YR ADDYSGU

- ANSAWDD OFFER/DEUNYDDIAU
- CYFLEUSTERAU AR GYFER CYMDEITHASU
- CWYNION
- PROBLEMAU Y DAETHPWYD AR EU TRAWS
- EFFEITHIAU
- DISGWYLIADAU
- CEFNOGAETH

AM BOB MAES EANG A GRYBWYLLIR – EWCH YN ÔL A PHROCIWCH AM Y MANYLION:

1. PA DDATA PENODOL Y BYDDAI EI ANGEN ARNYNT O DAN BOB CYDRAN EANG
2. PA DDIBEN FYDDAI I GAEL Y WYBODAETH HON/SUT Y BYDDENT YN DEFNYDDIO'R DATA

**Defnyddio data boddhad**

Beth yw'r 'agweddau cadarnhaol' ar gyfer arolwg o foddhad dysgwyr? Beth yw'r 'agweddau negyddol' ar gyfer arolwg o foddhad dysgwyr?

OS CEIR RHAI SYNIADAU CADARNHAOL Faint o ddiddordeb fyddai gan y bobl o amgylch y bwrdd mewn cynnal arolwg yn eu hysgolion eu hunain? OS CEIR RHYWFAINT O DDIDDORDEB Sut y byddai'r wybodaeth yn cael ei defnyddio? A fyddai'r wybodaeth yn cael ei hymgorffori mewn rheolaeth a chynllunio o gwbl?

**Fframwaith cyffredin ar gyfer arolygon boddhad**

EWCH AR ÔL Y SYNIAD O GYNNAL AROLYGON YN CHWECHED DOSBARTH YSGOLION – CAIFF Y DATA HWNNW EI FWYDO I MEWN I UN FFYNHONNELL GANOLOG FEL Y GELLIR CYFRIFO MEINCNODAU CENEDLAETHOL – MAE HON YN YMAGWEDD O'R GWAELOD I FYNY.

Beth yw'r ymateb i'r syniad hwn? Beth yw'r pethau 'cadarnhaol'? Beth yw'r pethau 'negyddol'?

A allent ragweld y canlynol..AC OS FELLY, SUT Y DYLID EI REOLI:

- Y Chweched Dosbarth mewn Ysgolion yn cytuno ar set o gwestiynau craidd
- Cytuno ar amseriad yr arolwg
- Cytuno ar y dull o gasglu data

**Crynodeb**

Unrhyw syniadau terfynol am arolygon o foddhad dysgwyr yn eu hamgylchedd penodol nhw?

Cynhyrchwyd gan NOP gyda ELWa ar ran Llywodraeth Cynulliad Cymru (LLCC). Mae ELWa yn gorff cyhoeddus a noddwyd gan y Cynulliad. Fe'i sefydlwyd ym mis Ebrill 2001 o dan y Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000. Mae ELWa yn gyfrifol am gynllunio, cyllido, hyrwyddo ac ehangu mynediad i addysg a hyfforddiant ôl-16 yng Nghymru. 1 Ebrill 2006 bydd ELWa yn rhan a LLCC.

Grŵp ymchwil NOP yw cangen y DU o NOP World, y nawfed o'r asiantaethau ymchwil mwyaf yn y byd. Yn y DU cyflogir tua 600 o staff gan NOP wedi'i rannu yn adrannau arbenigol. Mae'r tîm sy'n gweithio ar Foddhad Dysgwyr yn rhan o'r adran sy'n arbenigo mewn Ymchwil Cymdeithasol a mae 20 o ymchwilwyr yn gweithio yn y maes hwn. Mae gan y tîm brofiad perthnasol o arolygon ymchwil cymdeithasol ar raddfa fawr ac o wneud ymchwil I fodlonrwydd cwsmeriaid.

FODDHAD DYSGWYR ADRODDIAD GWEITHDAI DARPARWYR

© ELWa Medi 2005. Cyhoeddwyd gan ELWa. Caniateir atgynhyrchu rhannau o'r cyhoeddiad hwn am resymau hyfforddiant neu addysgiadol nad yw yn fasnachol, ar yr amod na chamliwir y ffeithiau a chydnabyddir y ffynhonnell. Mae'r cyhoeddiad hwn ar gael mewn ffurf electronig ar wefan ELWa www.elwa.org.uk/custommerresearchstrategy